CYMRU'N COFIO
WALES REMEMBERS
1914 - 1918

CYMRU'N COFIO
WALES REMEMBERS
1914 - 1918




Arwyddbost yn Langemark © Kurt Vanderwalle

38835 © Hawlfraint y Goron 2021

# CYNNWYS


Rhagair y Prif Weinidog 4
Rhagair Syr Deian Hopkin 5
*Cymru'n Cofio* Wales Remembers 1914-1918 6
Coffáu ledled Llywodraeth Cymru 8
Coffáu a'n sefydliadau diwylliannol cenedlaethol 8
Coffáu ledled Cymru 9
Coffáu ledled y Deyrnas Unedig 9
Partneriaeth Canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf 9
14-18 NOW 11
Cymru yn rhyngwladol 12
Gwybodaeth am y cyhoeddiad hwn 12

**2014** **14**
Cadoediad Nadolig 1914: arddangosfa yng Nghastell Bodelwyddan 16
Gwylnos dan olau cannwyll i goffáu dechrau'r Rhyfel 18
Cofeb y Cymry yn Langemark, Fflandrys 19
Marc Decaestecker: perchennog caffi yn Fflandrys 20
Adnoddau dysgu ar Hwb 21
Coffáu drwy dreftadaeth 22
Digideiddio'r Llyfr Cofio 23
Ysbrydoli'r ymdrech – printiau'r Rhyfel Byd Cyntaf 24
Theatr yn y goedwig – cofio Coedwig Mametz 27
Y Llynges Fasnachol 28
Cerdd: *Ai dros hyn?* gan Gillian Clarke 29

**2015** **30**
Gwarchod ein cofebion rhyfel 33
Cofio Gallipoli 35
Dai a Tomi 36
Cred a Gweithred – cofio lleisiau gwahanol 37
Wynebau'r milwyr a gollwyd 39
Bring Them Home 40
@DyddiadurKate – trydar o'r gorffennol 41
Y Rhyfel Mawr a'r Cymoedd 42
Ail-greu'r Gadair Ddu 44
Cerdd: *Enwau* gan Alan Llwyd 45

## 2016 46

Cymry a Brwydr y Somme 48
Cymdeithas y Ffrynt Gorllewinol: De Cymru 50
Mametz: Aled Rhys Hughes a David Jones 51
Gwylnos dros nos yng ngolau cannwyll i gofio Brwydr y Somme 52
Creu coffâd sinematig – ffilm Journey's End 55
Pabis: Weeping Window yng Nghastell Caernarfon 56
Mewn un diwrnod: We're here because we're here 57
N'ad fi'n Angof: cardiau post y Rhyfel Byd Cyntaf 58
Gobaith Caneri? Menywod y Miwnishons 61
Y cysylltiad anarferol rhwng Iwerddon a Fron-goch 62
Cerdd: *Y Gwyliwr* gan Nerys Williams 63

## 2017 64

Cadw'r aelwyd, cadw'r cof 67
Coffáu Trydedd Frwydr Ypres (Passchendaele) 68
Gweithdai addysgol Hedd Wyn 69
Arddangosfa a ffilmiau Diffodd yr Awen 69
Digideiddio awdl Hedd Wyn *Yr Arwr* 70
Y Gadair Wag / coffáu drwy farddoniaeth greadigol 71
Barddoniaeth Colled 72
Adfer casgliad Edward Thomas 73
Pabis: Weeping Window yn y Senedd 74
Y Diwydiant Gwlân dan Gwmwl Du 77
Cofio'r plismyn yn y Rhyfel 78
Cerdd: *Arwyr* gan Eric Ngalle Charles 79

## 2018 80

Canrif ers y Cadoediad 83
Tudalennau'r Môr 85
Prosiect Llongau-U 1914-18: coffáu'r rhyfel ar y môr 87
Nawr yr Arwr / Now the Hero – theatr ymdrochol yn Abertawe 89
Teyrnged gerddorol gan gerddorion ifanc o Gymru 90
Pabi'r Coffáu 91
Ar y môr a'r arfordir 92
Canmlwyddiant yr RAF 94
Neges heddwch ac ewyllys da ieuenctid Cymru 95
1918: dychwelyd i heddwch 97
Dathlu menywod a hawl merched i bleidleisio 99
Diolch y Lleng Brydeinig Frenhinol 100
Cerdd: *Yr Enaid Byw* gan Mari Wyn Jones 101

## 2019 102

Estyn yn Ddistaw: dydd o fyfyrio ar farddoniaeth rhyfel a heddwch yng Nghymru 104
Canrif ers y terfysgoedd hil 107
Arddangosfeydd a blog wythnosol yng Ngheredigion 108
David Lloyd George 109
Enwi awyren yr RAF i anrhydeddu Lionel Rees, VC 111
David Lloyd George a chynhadledd heddwch Paris 112
Coed yn ffaglau: cysylltu'r Rhyfel Byd Cyntaf â choedwigoedd Cymru 114
Cofeb deilwng 115
Ystyried yr etifeddiaeth 116
Cofeb ddigidol 117
Archif digidol newydd: cymru1914.org 118
Ap Cymru yn y Rhyfel 120
Cerdd: *Cymuno* gan Ifor ap Glyn 121
Y cyfnod wedi'r Rhyfel a myfyrdodau i gloi 123
Diolchiadau 126

# RHAGAIR
# Y PRIF WEINIDOG

Roedd y Rhyfel Byd Cyntaf yn ddigwyddiad aruthrol. Mewn cyfnod o gythrwfl eithriadol a cholled ddychrynllyd i Gymru, gwelwyd dewrder ac aberth anhygoel ar faes y gad ac arwriaeth dawel ar y Ffrynt Cartref. Ni fyddai coffáu digwyddiad o'r math hwn, un a gyffyrddodd â phob cornel o Gymru, byth yn dasg rwydd ac ni allai'r un sefydliad wneud hynny ar ei ben ei hun.

Yn 2013, lansiodd fy rhagflaenydd, y Gwir Anrhydeddus Carwyn Jones AS, raglen fframwaith *Cymru'n Cofio* Wales Remembers 1914-1918 Llywodraeth Cymru a sefydlu Bwrdd o gynrychiolwyr i'r Rhaglen dan arweiniad ein cynghorwyr arbenigol, Syr Deian Hopkin a Linda Tomos. Datblygodd y grŵp hwn gysylltiadau cryf, gan nodi digwyddiadau mawr a sicrhau'r coffáu priodol i ganmlwyddiannau pwysig, heb geisio cyfyngu o gwbl ar uchelgais ac ymroddiad unigolion, grwpiau a chymunedau ledled Cymru. Yn ystod pob blwyddyn o'r rhaglen, ac i mewn i 2019, cynhaliwyd digwyddiadau yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.

Yn y cyhoeddiad hwn fe gewch ymdeimlad o'r ystod enfawr o weithgareddau a gynhaliwyd ledled Cymru a thu hwnt i'n glannau. Mae'n cynnig blas o'r prif wasanaethau coffa, ymatebion arloesol a chynhwysol artistiaid, a'r gofal a'r gadwraeth ar gofebion rhyfel, yn ogystal â rhoi blas o'r ymchwil gan bobl ifanc a chymunedau, a'r arddangosfeydd, adnoddau digidol a deunydd addysgol a ddatblygwyd trwy gydol y coffáu.



Dymunaf dalu teyrnged i bawb a oedd yn rhan o drefnu a chynnal *Cymru'n Cofio* Wales Remembers 1914-1918. Talaf deyrnged i bawb ledled Cymru a ddangosodd ymrwymiad i sicrhau rhaglen goffa a oedd yn fyfyriol, yn barchus ac yn gynhwysol. Yn olaf, dyma dalu teyrnged i bawb a fu farw ac a ddioddefodd mewn rhyfel ofnadwy. Rydyn ni wedi dangos i chi, gobeithio, nad yw Cymru wedi anghofio.

Ni fydd Cymru byth yn anghofio.

**Y Gwir Anrhydeddus Mark Drakeford AS**
**Prif Weinidog Cymru**

# RHAGAIR
# SYR DEIAN HOPKIN



Pan ddechreuwyd *Cymru'n Cofio* Wales Remembers 1914-1918 yn 2013, amlinellwyd chwe amcan uchelgeisiol yn y Rhaglen Fframwaith a'r rheiny'n amrywio o goffáu canmlwyddiannau pwysig i ddatblygu rhaglen addysgol eang. Elfen ganolog yn nyheadau'r rhaglen, ac yn allweddol i'w llwyddiant, oedd datblygu partneriaethau cryf rhwng sefydliadau ledled Cymru er mwyn sicrhau bod unigolion a chymunedau yn cymryd rhan gymaint ag y bo modd. Yn wir, mae hyn wedi bod yn un o lwyddiannau trawiadol y rhaglen ac mae'r gyfrol goffa hon yn adlewyrchu ac yn amlygu'r bartneriaeth a'r cydweithredu hwnnw yn ogystal â dwyn i gof uchafbwyntiau niferus y canmlwyddiant.


Llwyddwyd i gadw diddordeb y cyhoedd yn y rhaglen goffa trwy gydol y cyfnod o bedair blynedd, a hynny'n cynnwys digwyddiadau canmlwyddiannau pwysig a'r rhaglenni diwylliannol rhagorol. Yn wir, flwyddyn ar ôl blwyddyn, mae cyfranogiad y cyhoedd yn y prosiectau a digwyddiadau coffáu wedi rhagori ar ddisgwyliadau pawb, a'r rhaglenni addysgol helaeth wedi sicrhau bod cenhedlaeth newydd o bobl ifanc wedi ennill gwybodaeth a dealltwriaeth amhrisiadwy am yr hyn ddigwyddodd gan mlynedd yn ôl sy'n dal i atseinio hyd heddiw.


Yn sgil ymdrechion y sefydliadau partner, gyda chefnogaeth gymeradwy Llywodraeth Cymru, Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol a chyllidwyr eraill, crëwyd etifeddiaeth fydd yn parhau. Mae creu cofebion cenedlaethol newydd, megis Cofeb y Cymry yn Langemark neu adnewyddu'r Ysgwrn – cartref Hedd Wyn – yn ganolfan ddiwylliannol, yn sicrhau parhad ymwybyddiaeth y cyhoedd o arwyddocâd y rhyfel a'i effaith.


Yn sgil cymaint o waith gwerthfawr trwy brosiectau mewn ysgolion a mudiadau cymunedol, trwy adnabod ac adalw dogfennau yn ogystal â thrwy raglen helaeth o ddelweddau gweledol, mae gennym gyfle nawr, trwy guradu a chynnal a chadw gofalus, i gynnal etifeddiaeth ddigidol gyfoethog.

Mae'r gyfrol goffa hon yn un cyfraniad olaf i ganmlwyddiant y Rhyfel gan helpu i sicrhau y bydd Cymru yn parhau i gofio.

**Yr Athro Syr Deian Hopkin**
**Cynghorydd Arbenigol Llywodraeth Cymru ar y Rhyfel Byd Cyntaf**









## *CYMRU'N COFIO* WALES REMEMBERS 1914-1918

Mae hanes Cymru yn gyfoethog a chymhleth. Mae canrifoedd y gorffennol wedi ffurfio ein cenedl a mireinio ein hunaniaeth ac yn cynnwys digwyddiadau ac iddynt arwyddocâd byd-eang a gafodd effaith enfawr ar ein cymunedau ninnau. Roedd y Rhyfel Byd Cyntaf yn amlwg yn un digwyddiad o'r fath ac yn 2013 gyda'r canmlwyddiant yn agosáu, cydnabu Llywodraeth Cymru yr angen i drefnu achlysuron coffáu priodol ac i gael unigolion a sefydliadau o Gymru yn rhan o hynny.

Cynhaliwyd ymgynghoriad ledled y wlad, gan arwain at ddatblygu fframwaith a ddaeth yn lasbrint ar gyfer *Cymru'n Cofio* Wales Remembers 1914-1918 a chwe blynedd o weithgarwch coffáu. Y nod oedd sicrhau y byddai adegau allweddol y Rhyfel Byd Cyntaf yn cael sylw cenedlaethol, gan alluogi pob cymuned yng Nghymru i ddod o hyd i'w ffordd ei hun o gofio.

Roedd cydweithio mewn partneriaeth yn allweddol wrth ddatblygu *Cymru'n Cofio* Wales Remembers 1914-1918, gyda Bwrdd Rhaglen yn arwain y rhaglen drwyddi draw. Roedd ystod eang o randdeiliaid yn aelodau'r Bwrdd hwnnw gan gynnwys cynrychiolwyr y llywodraeth, sefydliadau diwylliannol ac addysgol, y lluoedd arfog, sefydliadau crefyddol, y cyfryngau a chynrychiolwyr o'r gymuned. Byddai Bwrdd y Rhaglen yn cyfarfod o leiaf ddwywaith y flwyddyn i ysgogi, annog a thrafod syniadau coffáu y gallai Llywodraeth Cymru eu cefnogi.

Roedd yn rhaid i *Cymru'n Cofio* Wales Remembers 1914-1918 gyd-fynd â choffáu ehangach y Deyrnas Unedig ar yr un pryd hefyd â sicrhau hunaniaeth Gymreig benodol. Datblygodd Llywodraeth Cymru frand cryf a ddefnyddiwyd ar yr holl gyhoeddiadau, ar y wefan ac ar y cyfryngau cymdeithasol.







Uchod: Yn ystod pob blwyddyn o'r coffáu, cynhyrchodd *Cymru'n Cofio* Wales Remembers 1914-1918 gyhoeddiad blynyddol. Y delweddau a ddangosir yma yw clawr blaen pob cyhoeddiad

Mabwysiadwyd hyn gan sefydliadau partner a grwpiau cymunedol ar gyfer eu gweithgareddau hwythau – o arddangosfeydd celf mawr i ddigwyddiadau hanes lleol. Bu gan y cyfryngau cymdeithasol ran holl bwysig wrth gyfathrebu, gyda sianeli *Cymru'n Cofio* Wales Remembers 1914-1918 wedi denu dros 3,000 o ddilynwyr ar Twitter a dros 1,000 ar Facebook.

Roedd hi'n bwysig gosod y naws priodol o'r dechrau un, gan goffáu ac anrhydeddu, nid dathlu. Cadwyd y naws adfyfyriol hwn drwy gydol coffáu'r canmlwyddiant, ac mae i'w weld hefyd yn y cyhoeddiad hwn.

## COFFÁU LEDLED LLYWODRAETH CYMRU

Cydnabu Llywodraeth Cymru bwysigrwydd y coffáu a daeth nifer o wahanol adrannau yn rhan ohono, o Cadw yn cynnig cyllid i gefnogi cadwraeth cofebion rhyfel, i'r Adran Addysg a Sgiliau yn datblygu ystod o weithgareddau coffa ar gyfer pobl o bob oed.

Er mwyn sicrhau bod cynifer o bobl ifanc â phosibl yn elwa o amrywiaeth *Cymru'n Cofio* Wales Remembers 1914-1918, gallai ysgolion uwchradd yng Nghymru wneud cais am hyd at £1,000 i ddatblygu prosiectau creadigol ac arloesol i goffáu'r Rhyfel Byd Cyntaf. Derbyniodd 35 o ysgolion y grant, gan alluogi rhagor o bobl ifanc i ymgysylltu â diwylliant a threftadaeth. Yn ogystal, aeth cymru1914.org, sef prosiect a ariannwyd gan Jisc a Llywodraeth Cymru, ati i ddigideiddio dros filiwn o eitemau o ffynonellau gwreiddiol yn ymwneud â'r Rhyfel Byd Cyntaf, sef eitemau o lyfrgelloedd, casgliadau arbennig ac archifau Cymru. Roedd hyn yn cynnwys papurau newydd Cymru o'r cyfnod, mapiau hanesyddol, llawysgrifau a grëwyd yn ystod y rhyfel, yn ogystal â barddoniaeth, megis awdl 'Yr Arwr' gan Hedd Wyn.

## COFFÁU A'N SEFYDLIADAU DIWYLLIANNOL CENEDLAETHOL

Roedd ein sefydliadau diwylliannol cenedlaethol, sef Llyfrgell Genedlaethol Cymru ac Amgueddfa Cymru, yn rhan flaenllaw o *Cymru'n Cofio* Wales Remembers 1914-1918. Cawsant gyllid grant gan Lywodraeth Cymru dros oes y Rhaglen a bu iddynt gyfrannu eu hadnoddau eu hunain i gynnal amrywiaeth o arddangosfeydd, digwyddiadau, sgyrsiau, perfformiadau a gweithgareddau digidol newydd i gefnogi Llywodraeth Cymru wrth gyflawni'r Rhaglen Fframwaith. Denodd y digwyddiadau a'r gweithgareddau ddegau o filoedd o ymwelwyr mewn safleoedd ledled Cymru yn ystod y Rhaglen ac mae etifeddiaeth ddigidol barhaus wedi'i chreu o'r holl weithgareddau hyn.

Isod: Llyfrgell Genedlaethol Cymru
© Hawlfraint y Goron 2020



## COFFÁU LEDLED CYMRU

Ledled y wlad, bu unigolion a grwpiau wrthi'n cofio a choffáu. Aethpwyd ati i weld beth oedd yn bwysig i'w cymuned, p'un ai gofalu am eu cofeb ryfel leol, olrhain hanesion y rhai a gollwyd, neu ymchwilio i effeithiau'r Rhyfel ar eu hardal. Bu sefydliadau fel Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru yn ystyried gwahanol agweddau, gan gynnwys gwrthwynebiad i ryfel a safbwyntiau amrywiol ar ei darddiad a'i bwrpas, tra bod y Lleng Brydeinig yn bresenoldeb gweladwy ac arwyddocaol mewn gwasanaethau coffa yn genedlaethol ac yn lleol. Ar ben hynny, cafodd llawer o brosiectau gefnogaeth a chyllid hael gan Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol. Cyfrannodd hyn oll at goffadwriaeth gwirioneddol genedlaethol.

## COFFÁU LEDLED Y DEYRNAS UNEDIG

Roedd gweithio mewn partneriaeth ledled y Deyrnas Unedig yn elfen hanfodol arall wrth sicrhau coffâd cynhwysol. Mae'r enghreifftiau yn y cyhoeddiad hwn yn dangos ehangder a dyfnder y cysylltiadau a wnaed trwy gydol cyfnod y canmlwyddiant. Yn y DU, bu i'r Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon sefydlu Panel Cynghori'r DU, a Syr Deian Hopkin yn cynrychioli Cymru arno, gan helpu i sicrhau bod Cymru yn parhau i droedio'r un llwybr â'r dull gweithredu ledled y DU. Roedd hefyd yn bwysig sicrhau bod Cymru'n cymryd rhan mewn rhaglenni a gynhelid ledled y Deyrnas Unedig megis 14-18 NOW a Phartneriaeth Canmlwyddiant yr Amgueddfeydd Rhyfel Ymerodrol (IWM).

## PARTNERIAETH CANMLWYDDIANT Y RHYFEL BYD CYNTAF

Rhwng 2014 a 2018 llwyddodd Partneriaeth Canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf, dan arweiniad yr Amgueddfeydd Rhyfel Ymerodrol (IWM) a chyda chefnogaeth hael Cyngor Celfyddydau Lloegr a Culture 24, i ddwyn ynghyd filoedd o sefydliadau a miliynau o bobl ledled y byd i goffáu canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf.

Ymhlith cymuned fywiog Partneriaeth yr Amgueddfeydd Rhyfel Ymerodrol roedd cymdeithasau hanes lleol, llywodraethau rhyngwladol, orielau ac ysgolion, gan gynnwys 131 o sefydliadau a mudiadau amrywiol o bob rhan o Gymru. Ar y cyd â *Cymru'n Cofio* Wales Remembers 1914-1918, cynhaliwyd digwyddiadau coffáu o 2015 i 2018. Roedd y rhain yn ddigwyddiadau cymunedol, yn cynnig cyfle i rannu profiadau a gwersi a ddysgwyd a gweld lle gellid ychwanegu gwerth drwy weithio mewn partneriaeth. Roedd tua 100 o bobl wedi cymryd rhan ym mhob digwyddiad ac yn rhoi cyfle i sefydliadau a mudiadau fod yn gysylltiedig ag achlysuron ledled y DU i nodi canmlwyddiannau.

Roedd Partneriaeth y Canmlwyddiant wedi galluogi'r aelodau i ddefnyddio adnoddau na fyddai fel arall wedi bod ar gael iddynt, ac, o gofio effaith byd-eang y Rhyfel, wedi ymestyn cyrhaeddiad y rhaglenni ledled y byd. Er enghraifft yn 2016, ar adeg canmlwyddiant Brwydr y Somme, cafwyd dangosiadau o ffilm 1916 *The Battle of the Somme* mewn 17 lleoliad yng Nghymru, ac mewn mwy na 360 o leoliadau ledled y byd

Ni fyddai'r digwyddiad hwn, na llawer o rai eraill, wedi bod yn bosibl heb gefnogaeth a phartneriaeth llawer o sefydliadau ledled Cymru, a dymuna'r Amgueddfeydd Rhyfel Ymerodrol ddiolch i bawb am eu cydweithrediad.




Ar y dde: Amgueddfa Cymru © Hawlfraint y Goron 2020



## 14–18 NOW


14–18 NOW oedd rhaglen gelf y Deyrnas Unedig i nodi canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf. Gan gydweithio â phartneriaid yn y celfyddydau a threftadaeth, cafodd 420 o artistiaid, cerddorion, gwneuthurwyr ffilm, dylunwyr a pherfformwyr eu comisiynu i greu gweithiau celf newydd, wedi'u hysbrydoli gan y cyfnod 1914-1918.

Yng Nghymru llwyddodd y rhaglen 14–18 NOW i gyrraedd 1.5 miliwn o bobl trwy gyfres o weithiau celf newydd symudol a gafodd sylw mawr wrth iddynt adlewyrchu gwahanol agweddau ar y Rhyfel, a'i effaith gymdeithasol a diwylliannol. Cydweithiodd y rhaglen ag amrywiaeth o sefydliadau, gan gynnwys Opera Cenedlaethol Cymru i berfformio opera a gomisiynwyd yn arbennig, sef *In Parenthesis* gan Iain Bell a oedd yn seiliedig ar gerdd epig David Jones. Mae enghreifftiau eraill i'w gweld ledled y cyhoeddiad hwn.

Roedd y gweithgarwch hwn oll wedi ennyn cryn ddiddordeb ymhlith y cyhoedd. Amcangyfrifir, er enghraifft, i fwy na 200,000 o bobl ymweld â Chastell Caernarfon a'r Senedd yng Nghaerdydd i weld Pabis: *Weeping Window* gan yr artist Paul Cummins a'r dylunydd Tom Piper, gan deimlo grym y cerflun byd-enwog hwn. Roedd digwyddiadau a gosodweithiau eraill wedi denu niferoedd yr un mor fawr.

Gweler: www.1418now.org.uk

Ar y chwith: *In Parenthesis* gan Opera Cenedlaethol Cymru, 14-18 NOW © Bill Cooper
Isod: *Nawr yr Arwr / Now the Hero*, gan Marc Rees, 14-18 NOW © Warren Orchard






## CYMRU YN RHYNGWLADOL

Y tu hwnt i'r Deyrnas Unedig, roedd cysylltiadau agos eisoes rhwng Cymru a chymunedau ym Mametz, Ffrainc ac yn Langemark, Gwlad Belg, sef safleoedd dwy brif gofeb y Cymry. Cynhaliwyd gwasanaethau coffa mawr ger y cofebion hyn yn ystod cyfnod y coffáu, gan ddyfnhau'r cyfeillgarwch hwn ymhellach.

Datblygwyd perthynas gref â Llywodraeth Fflandrys, ac arweiniodd hyn at gyfres o weithgareddau ar y cyd yng Nghymru a Gwlad Belg yn 2017 er cof am ganmlwyddiant marwolaeth Hedd Wyn yn Passchendaele. Codwyd cofeb barhaol i'r Cymry yn Langemark, gan fod yn gyrchfan bwysig i genedlaethau'r dyfodol.

Mewn cydweithrediad â Llywodraeth Iwerddon, coffaodd Llywodraeth Cymru ganmlwyddiant gwersyll i garcharorion o'r Iwerddon yn Fron-goch ger y Bala a chanmlwyddiant suddo RMS *Leinster* ym Mae Dulyn. Roedd *Cymru'n Cofio* Wales Remembers wedi cyrraedd yr Unol Daleithiau hyd yn oed; er mwyn coffáu canmlwyddiant ers i'r UDA ymuno â'r Rhyfel Byd Cyntaf, rhoddodd Llysgenhadaeth yr UDA yn y Deyrnas Unedig gefnogaeth i arddangosfa fawr o luniau yn yr awyr agored ym Mae Caerdydd, sef *Meysydd y Gad, Tiroedd Heddwch: Y Doughboys 1917-18* gan yr artist Michael St Maur Sheil.

## GWYBODAETH AM Y CYHOEDDIAD HWN

Mae'r cyhoeddiad hwn yn sôn am gyfran fach o'r llu o ddigwyddiadau a gynhaliwyd. Er nad yw'n gofnod cyflawn o bell ffordd, mae'n cynnig detholiad gweledol a chynrychioliadol o'r digwyddiadau ac yn tynnu sylw at rai o'r prif achlysuron coffáu ym mhob blwyddyn. Mae pob pennod yn ymwneud â blwyddyn o raglen *Cymru'n Cofio* Wales Remembers 1914-1918 ac yn cynnwys erthyglau hirach ar ddigwyddiadau neu raglenni penodol ynghyd ag enghreifftiau o'r etifeddiaeth lenyddol gyfoethog y mae'r coffáu wedi esgor arni. Mae'n cyfleu blas ac amrywiaeth y gweithgarwch ac yn dangos bod Cymru – ledled y wlad gyfan a thu hwnt – wedi cofio.

Ar y chwith: Cofeb y Cymry yn Langemark. Llun wedi'i dynnu gan Eric Compernolle © Llywodraeth Cymru

Ar y dde: Prif Weinidog Cymru ar y pryd, y Gwir Anrhydeddus Carwyn Jones AS, yn gosod torch ar ran pobl Cymru wrth feddrod y Milwr Anhysbys ym Mynwent Genedlaethol Arlington, Virginia, Unol Daleithiau America [Ymweliadau'r Gweinidog, Chwef 2014] © Llywodraeth Cymru



# 2014

Dechreuodd y coffáu yn 2014, gan i'r rhyfel yn Ewrop ddechrau ym mis Awst 1914, a chanolbwynt y coffáu ganrif yn ddiweddarach oedd yr Wylnos Golau Cannwyll yn Eglwys Gadeiriol Llandaf ar 4 Awst. Roedd gweithgareddau eraill yn gysylltiedig â'r coffáu eisoes wedi dechrau - o'r gwaith a wnaethpwyd i ddatblygu cofeb i Gymru yn Fflandrys, i brosiectau a gefnogwyd gan Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol. Cynhaliwyd nifer o ddigwyddiadau, arddangosfeydd a gweithgareddau ledled Cymru a thu hwnt drwy gydol 2014.

Ar y dde: Cerflun maint llawn mewn clai o Ddraig Cofeb y Cymry yn Fflandrys, yn barod i'w gastio mewn efydd. © Ymgyrch Cofeb y Cymry yn Fflandrys / Castle Fine Arts Foundry Ltd.



# CADOEDIAD NADOLIG 1914: ARDDANGOSFA YNG NGHASTELL BODELWYDDAN

**Mae'n bosibl iawn mai un o ddigwyddiadau mwyaf ingol y Rhyfel Byd Cyntaf oedd Cadoediad y Nadolig yn 1914.**

Ddydd Nadolig y flwyddyn honno roedd Ail Fataliwn Troedfilwyr Silesia yn wynebu Cwmni A o Ail Fataliwn y Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig ar y ffrynt ym mhentref Frelinghien ar y ffin rhwng Ffrainc a Gwlad Belg. Yn ystod y bore, dechreuodd milwyr yr Almaen ddod i'r golwg, heb arfau, ar y tir rhyngddynt, ar dir neb, a chyn bo hir roedd milwyr y ddwy ochr yn cyfnewid dognau, sigârs a bathodynnau eu capiau. Rheolai'r Almaenwyr fragdy bach y pentref, a rhoesant gasgen o gwrw hyd yn oed. Mewn mannau arall cafwyd gemau pêl-droed a choelcerthi yn nhir neb a chyfnewidwyd bwyd ac eitemau eraill.

Parhaodd y cadoediad tan hanner nos ddydd Gŵyl San Steffan. Dechreuodd adroddiadau am y cadoediad ymddangos mewn papurau newydd cenedlaethol a rhyngwladol wythnos yn ddiweddarach, er mawr gynddaredd i'r cadlywyddion ar y ddwy ochr. Cofnodwyd y digwyddiad yn nyddiadur personol Capten Clifton Stockwell, rheolwr cwmni yn y bataliwn Cymreig; cofnododd tystion eraill fel Frank Richards ar ochr Prydain a Johannes Neumann ar ochr yr Almaen yr hyn a welsant.

Mae'r llythyrau a'r dyddiaduron hyn yn rhoi cipolwg hynod ddiddorol i ni am yr hyn a ddigwyddodd, gan ysgogi'r syniad o gael cyd-arddangosfa deithiol i nodi 100 mlynedd ers y digwyddiad hwn. Y canlyniad oedd Arddangosfa Cadoediad Nadolig ryngwladol. Y sefydliadau allweddol oedd yn rhan oedd Amgueddfa'r Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig yng Nghaernarfon a'r Arbeitskreis Sächsische Militärgeschichte e.V. (Grŵp Hanes Milwrol Sacsoni) yn Dresden. Cefnogwyd datblygiad yr arddangosfa yn ariannol gan Lywodraeth Cymru ac Ymddiriedolaeth Dulverton a hynny wedi golygu gallu cynnwys gwrthrychau hanesyddol o gasgliad Amgueddfa'r Ffiwsilwyr Cymreig ac Arbeitskreis Sacsoni ynghyd â deunydd ychwanegol o leoliadau eraill.





Uchod: Castell Bodelwyddan, Sir Ddinbych – y lleoliad cyntaf yng Nghymru i ddangos arddangosfa Cadoediad y Nadolig © Kevin Mason

Agorodd yr arddangosfa yn Amgueddfa Hanes Milwrol Wolkenstein yn Sacsoni ar 2 Awst 2014, gan deithio i leoliadau yng Ngwlad Belg a Ffrainc cyn cyrraedd Castell Bodelwyddan yn Sir Ddinbych, lle bu ar agor o fis Ionawr hyd fis Ebrill 2015.

Yr ethos a fabwysiadwyd yn yr arddangosfa oedd hyrwyddo dealltwriaeth gydymdeimladol am brofiadau'r rheiny oedd yn gysylltiedig â'r digwyddiad. Roedd deunydd yr arddangosfa yn adrodd y stori ddynol ac yn cynnwys cofroddion megis blychau rhoddion Nadolig y Dywysoges Mary a yrrwyd at holl aelodau'r lluoedd arfog fel 'arwydd bach o gariad a chydymdeimlad ar fore Nadolig'. Hefyd wedi'u cynnwys oedd y Liebesgaben (sef rhoddion cariad tebyg) a anfonwyd at filwyr yr Almaen gan gymdeithasau menywod, ysgolion a'r Groes Goch. Ymysg yr eitemau a arddangoswyd a oedd wedi goroesi ers Nadolig 1914 oedd cap maes Almaenig (Krätzchen) a gyfnewidwyd yn ystod y Cadoediad a Reichsrevolver Cadlywydd yr Almaenwyr. Rhoddwyd lle anrhydeddus yn yr arddangosfa i ddyddiadur y Capten Stockwell, wedi'i gynnwys trwy garedigrwydd ei ŵyr, Miles Stockwell.


Roedd arddangosfa Bodelwyddan yn cynnwys atgynhyrchiad o ffos debyg i un yn y Rhyfel ac roedd hwn yn gefndir addas i ymweliadau a gweithgareddau ysgolion. Cynigiwyd cyfle i ysgolion a cholegau weithio gydag arbenigwyr pwnc i archwilio themâu heddwch a chymod, wedi'u hysbrydoli gan ddigwyddiadau Cadoediad Nadolig 1914. Roedd modd gwneud cais am gymorth ariannol tuag at gostau trafnidiaeth i ymweld â'r arddangosfa er mwyn sicrhau fod cynifer â phosibl yn gallu ei gweld.

Roedd yr arddangosfa gydweithredol yn deyrnged addas i'r milwyr a ddaeth ynghyd i rannu eiliad o heddwch gyda'i gilydd.

Is-gadfridog Jonathon Riley
Dr Kevin Mason







Ar y chwith uchod: Krätzchen, sef cap maes Almaenig a gyfnewidwyd yn ystod Cadoediad Nadolig 1914 (Casgliad Amgueddfa'r Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig) © Kevin Mason

Ar y chwith isod: Liebesgaben: Enghreifftiau o 'Roddion Cariad' a roddwyd i filwyr yr Almaen yn ystod Nadolig 1914 © Kevin Mason

Ar y dde: Tiwnig swyddog digomisiwn y Ffiwsilwyr Cymreig o 1914 ac iddo wregys webin safonol (Casgliad Amgueddfa'r Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig) © Kevin Mason



# GWYLNOS DAN OLAU CANNWYLL I GOFFÁU DECHRAU'R RHYFEL

**Am 11 o'r gloch yr hwyr ar 4 Awst 1914, cyhoeddwyd rhyfel yn swyddogol gan Brydain Fawr yn erbyn yr Almaen. I nodi'r canmlwyddiant hwn, arweiniodd Prif Weinidog Cymru ar y pryd, y Gwir Anrhydeddus Carwyn Jones AS, y coffáu cenedlaethol mewn gwylnos yng ngolau cannwyll yn Eglwys Gadeiriol Llandaf. Daeth uwch arweinwyr Cymru o'r byd gwleidyddol, milwrol a chrefyddol i'r digwyddiad, yn ogystal â'u Huchelderau Brenhinol Dug a Duges Caerloyw. Roedd y gwasanaeth yn cynnig cyfle i fyfyrio a chofio am bawb a gollodd eu bywydau yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf - gartref neu ar faes y gad.**

Roedd y gwasanaeth wedi cynnwys darlleniad o'r gerdd 'Rhyfel' gan y bardd Hedd Wyn a gollodd ei fywyd ym Mrwydr Passchendaele yn 1917, ynghyd â darllen Neges Heddwch ac Ewyllys Da Urdd Gobaith Cymru. Daeth y gwasanaeth i ben wrth i weinidog o Eglwys Lutheraidd yr Almaen oleuo cannwyll. Am 11 yr hwyr clywyd cloch yr eglwys gadeiriol yn canu cnul i nodi'r foment brudd y cafodd rhyfel ei ddatgan 100 mlynedd cyn hynny.

Ar y chwith © Eglwys Gadeiriol Llandaf, Llywodraeth Cymru

# COFEB Y CYMRY YN LANGEMARK, FFLANDRYS

**Yn ystod ei ymweliad â Fflandrys, Gwlad Belg yn 2010, sylwodd Peter Carter Jones fod gan Awstralia, Canada a'r Alban gofebion cenedlaethol ond nad oedd cofeb genedlaethol ar gyfer Cymru. Bwriodd ati i arwain yr ymgyrch i gael cofeb, gyda chefnogaeth y wasg, pwyllgor ac apêl codi arian. Cyfrannodd unigolion a sefydliadau ledled Cymru, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Cafodd yr ymgyrch gefnogaeth Cymdeithas Passchendaele 1917 yng Ngwlad Belg, a rhoddodd Cyngor Langemark-Poelkapelle ger Ypres ddarn o dir ar ei gyfer ar Grib Pilckem lle cafodd cynifer o filwyr Cymru eu lladd neu eu hanafu.**

Awgrymodd Cymdeithas Passchendaele 1917 y byddai cromlech yn gofeb addas, ac yn garedig iawn rhoddwyd y cerrig mawr ar gyfer y strwythur yn rhodd gan chwarel Craig yr Hesg ger Pontypridd. Dyluniwyd draig efydd chwe throedfedd i'w gosod ar ben y cerrig gan y cerflunydd Cymreig Lee Odishow, sef y dyluniad buddugol mewn cystadleuaeth a drefnwyd gan Gyngor Celfyddydau Cymru. Mae plac llechen mewn tair iaith gan Malcom Grey o Dyddewi yn cwblhau'r gofeb.

Dadorchuddiwyd y gofeb ym mis Awst 2014 gyda dros 1,000 o bobl yn yr achlysur, gan gynnwys llawer o bwysigion a Chôr Rygbi Gogledd Cymru. Mae cannoedd o bobl, gan gynnwys Ei Uchelder Brenhinol y Tywysog Charles yn 2017, bellach wedi ymweld â'r gofeb a'r ardd, ac mae'n deyrnged barchus i'r holl filwyr o Gymru a gollodd eu bywydau yn y Rhyfel Byd Cyntaf.



Uchod: Cofeb y Cymry yn Langemark. Llun gan Eric Compernolle © Llywodraeth Cymru




# MARC DECAESTECKER: PERCHENNOG CAFFI YN FFLANDRYS

Marc Decaestecker, perchennog caffi Sportman, ac aelod gweithgar o Bwyllgor Coffa Cymru yn Langemark (Fflandrys). Cafwyd cefnogaeth aruthrol gan y bobl leol i goffáu canmlwyddiant Passchendaele a gynhaliwyd yn Langemark ym mis Gorffennaf 2017.

Ar y chwith: Marc yn ei gaffi. Llun gan Eric Compernolle © Llywodraeth Cymru




# ADNODDAU DYSGU AR HWB

**Rhwng 2014 a 2016 cynhyrchodd Llyfrgell Genedlaethol Cymru ac Amgueddfa Cymru adnoddau ar gyfer ysgolion yn ymdrin â 35 thema, a'r adnoddau hynny bellach wedi cael eu hagor dros 80,000 o weithiau ar Hwb.**

Defnyddiwyd eitemau gwreiddiol o gasgliadau'r ddau sefydliad i greu adnoddau dysgu dwyieithog am y Rhyfel Byd Cyntaf. Roedd y rhain yn cynnwys e-lyfrau, taflenni gwaith, cynlluniau gwersi, eitemau gwreiddiol gyda dehongliad, clipiau ffilm a chyflwyniadau rhyngweithiol. Roedd yr adnoddau yn cefnogi'r cwricwlwm yng Nghymru, ac fe'u targedwyd ar gyfer cyfnodau allweddol penodol mewn ysgolion cynradd ac uwchradd. Mae detholiad ohonynt ar gael trwy wefan Casgliad y Werin Cymru.

I weld yr adnoddau:
hwb.llyw.cymru
www.casgliadywerin.cymru

Ar y chwith: Poster recriwtio o'r Rhyfel Byd Cyntaf
© Llyfrgell Genedlaethol Cymru

# COFFÁU DRWY DREFTADAETH

## Roedd Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol yn awyddus i sicrhau y gallai pobl a chymunedau ledled y Deyrnas Unedig fod yn rhan o nodi canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf.

Lansiodd y Gronfa Dreftadaeth raglen grantiau cymunedol dan yr enw 'Y Rhyfel Byd Cyntaf: Ddoe a Heddiw' ym mis Mai 2013 gan roi cyfle i filoedd o grwpiau ledled y DU fynd ar drywydd straeon lleol a phersonol diddorol o gyfnod y rhyfel. Dyfarnwyd dros £1 miliwn i 126 o brosiectau dan arweiniad cymunedau yng Nghymru, gan fod ag o leiaf un ym mhob ardal awdurdod lleol. Crëwyd y cyfle i gymunedau astudio a myfyrio ar dreftadaeth y Rhyfel, ac i rannu hynny ag eraill gan fod y Rhyfel nid yn unig wedi cael effaith ar eu hardal hwy a bywydau eu cyndeidiau, ond hefyd ar y byd ers 1918.

Yng Nghymru, mae ystod eang o bobl wedi bod wrthi'n ymchwilio i straeon personol, gan gynnwys straeon y bobl y tu ôl i'r enwau ar gofebion rhyfel, neu'r rheiny na roddwyd eu henwau arnynt, neu ymchwilio i straeon am y Rhyfel a'i effaith, a'u rhannu trwy gyhoeddiadau, arddangosfeydd, ffilmiau, drama a'r cyfryngau cymdeithasol.

Ynghyd â'r grantiau cymunedol, roedd y Gronfa Dreftadaeth hefyd yn dal i roi cefnogaeth trwy ei rhaglenni grant mwy o faint. Yng Nghymru roedd hyn yn cynnwys y grant o £2.8 miliwn a ddyfarnwyd i Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri i ddatblygu'r Ysgwrn yn ogystal â chyllid i Ganolfan Materion Rhyngwladol Cymru i gynnal ei phrosiect Cymru dros Heddwch.

Dangosodd y gwerthusiad fod bron pob prosiect wedi gwella gwybodaeth a dealltwriaeth pobl am y Rhyfel Byd Cyntaf a bod mwy na hanner cyfranogwyr y prosiectau yn teimlo bod y gweithgareddau wedi ennyn mwy o barch ynddynt tuag at bobl eraill a'u diwylliannau. Mae hwn yn etifeddiaeth a all effeithio ar fywydau nawr ac yn y dyfodol. Mae'r Gronfa Dreftadaeth yn parhau i weithio gyda chymunedau i archwilio treftadaeth rhyfel a'i effaith ar bobl, gyda chyllid ar gael i ddarganfod a rhannu mwy o straeon.

Rhagor o wybodaeth: www.heritagefund.org.uk

CRONFA DREFTADAETH
HERITAGE FUND

# DIGIDEIDDIO'R LLYFR COFIO

## Un ffrwyth parhaol i raglen *Cymru'n Cofio* Wales Remembers 1914-1918 yw fersiwn ddigidol newydd o *Llyfr Cofio Cenedlaethol Cymru*, a hynny wedi trawsnewid y gallu i gael mynediad i'r gofeb bwysig hon o'r Rhyfel Byd Cyntaf.


Mae *Llyfr Cofio Cenedlaethol Cymru* yn glamp o lyfr sydd bron yn 50cm o uchder ac iddo dros 1,000 o dudalennau. Fe'i hysgrifennwyd yn y 1920au i gofnodi enwau 35,000 o filwyr, yn ddynion a merched o Gymru ynghyd ag aelodau o gatrodau Cymreig, a gollodd eu bywydau yn y Rhyfel Byd Cyntaf. Rhestrwyd yr unigolion yma fesul catrawd a bataliwn.

Cedwir y *Llyfr Cofio* mewn cell danddaearol a adeiladwyd yn arbennig yn y Deml Heddwch yng Nghaerdydd. Fe'i digideiddiwyd gan y Llyfrgell Genedlaethol ar y cyd â Chanolfan Materion Rhyngwladol Cymru fel rhan o brosiect Cymru dros Heddwch. Er mwyn ei gwneud yn haws canfod unigolion, datblygodd y Llyfrgell feddalwedd arbennig i roi modd i wirfoddolwyr adysgrifio'r cynnwys. Bu dros 100 o wirfoddolwyr wrthi'n adysgrifio ac yn tagio'r enwau – gweithred ddigidol i goffáu a chofio pob unigolyn ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Ochr yn ochr â'r prosiect digideiddio, crëwyd arddangosfa deithiol i'r *Llyfr Cofio* ymweld â 10 lleoliad ledled Cymru. Creodd gwirfoddolwyr a grwpiau cymunedol lleol ddeunyddiau arddangos am rai o'r unigolion y tu ôl i'r enwau o'u hardal hwy.

Nawr ei fod wedi'i ddigideiddio a'i gyhoeddi ar y we, mae gan bobl ar draws y byd fynediad at y miloedd o enwau y tu mewn i'r cloriau, gan sicrhau bod eu haberth yn dal i gael ei gofio.

Rhagor o wybodaeth: https://www.llyfrgell.cymru/darganfod/oriel-ddigidol/llawysgrifau/cyfnod-modern




Uchod: *Llyfr Cofio Cenedlaethol Cymru*, Llyfrgell Genedlaethol Cymru © Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru

# YSBRYDOLI'R YMDRECH: PRINTIAU'R RHYFEL BYD CYNTAF

**Yn yr arddangosfa *Ysbrydoli'r Ymdrech* yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd o fis Awst 2014 hyd at fis Ionawr 2015, cyflwynwyd cyfres printiau *The Great War: Britain's Efforts and Ideals* yn ei chyfanrwydd. Cyhoeddwyd y 66 o brintiau lithograffig hyn fel propaganda artistig gan Lywodraeth Prydain yn 1917, er mwyn ysbrydoli'r cyhoedd a oedd wedi cael digon ar ryfela ac i ailgynnau fflam yr ymdrech.**


Comisiynwyd y printiau gan Wellington House, adran yn Llywodraeth Prydain a sefydlwyd yn gyfrinachol i gynhyrchu propaganda. Cyfrannodd deunaw artist at y gyfres, a'r rheiny'n cynnwys rhai o enwau mwyaf blaenllaw'r cyfnod – yn eu plith Augustus John, George Clausen a Frank Brangwyn. Gan ei fod yn gomisiwn gan y llywodraeth, ni chafodd y cyfranwyr ryddid artistig llwyr. Cafodd pob artist ei bwnc penodol ei hun, ac roedd yn rhaid i bob delwedd fodloni rheoliadau sensoriaeth.



Rhannwyd y printiau yn ddau bortffolio, sef 'Delfrydau' ac 'Ymdrechion'. Cyfleu'r rhesymau dros frwydro, a gobeithion Prydain am y rhyfel oedd diben 'Delfrydau'. Mae'r delweddau hyn yn ddramatig a symbolaidd, fel *Rhyddid y Moroedd* a *Buddugoliaeth Democratiaeth*. Darlunio gwaith caled y bobl y mae'r ail bortffolio, yr 'Ymdrechion' fyddai'n helpu Prydain i wireddu ei 'Delfrydau'. Rhannwyd y portffolio 'Ymdrechion' yn naw pennawd pwnc, pob un yn portreadu gweithgaredd neu thema wahanol.

Cynhaliwyd yr arddangosfa gyntaf gan y Gymdeithas Celfyddyd Gain, Llundain, ym mis Gorffennaf 1917, cyn teithio orielau celf rhanbarthol ledled y Deyrnas Unedig, Ffrainc a'r Unol Daleithiau, lle cafodd y rhan fwyaf o'r portffolios eu harddangos a'u gwerthu.

Ar y chwith: *Rhyddid y Moroedd* – Frank Brangwyn © Amgueddfa Cymru
Ar y dde: *Y Wawr* – Augustus John © Amgueddfa Cymru





# THEATR YN Y GOEDWIG – COFIO COEDWIG MAMETZ

**Am bythefnos yn ystod haf 2014 trawsnewidiwyd coetir hynafol (Uwch Goedwig Llancaio Fawr) ger Brynbuga, Sir Fynwy, yn ffosydd a meysydd brwydr y Somme. Ysbrydolwyd y cynhyrchiad gan y gerdd 'Mametz Wood' gan yr awdur o Gymru, Owen Sheer, yn ogystal â defnyddio deunydd Cymraeg a Saesneg gan feirdd a welodd neu a fu'n ymladd yn un o frwydrau mwyaf gwaedlyd y Rhyfel Byd Cyntaf.**

Comisiynwyd y cynhyrchiad gan National Theatre Wales ar y cyd â 14-18 NOW, gan ddod â theatr safle-benodol i Gymru. Cafodd dros 4,000 o Gymry'r 38ain Adran (Gymreig) eu lladd neu eu hanafu yn y frwydr bum niwrnod honno.

Roedd y cynhyrchiad wedi plethu geiriau o ddyddiaduron milwyr â llinellau o gerdd Sheer, ac roedd cefndir tirwedd naturiol y goedwig wedi ychwanegu dwyster ingol i'r coffâd pwerus hwn am erchylltra'r Rhyfel.

*'...roedd cast mawr o actorion wedi ei wneud yn fyw ac yn angerddol, yn enwedig yn y rhan olaf yn y goedwig pan syllai wynebau'r milwyr marw o'r ffotograffau; yn ifanc am byth, wedi'u colli am byth.'*
Adolygiad yn *The Guardian*, 27 Mehefin 2014

Ar y chwith: *Mametz* gan National Theatre Wales, 14-18-NOW © Mark Douet


# Y LLYNGES FASNACHOL

**Yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf lladdwyd tua 17,000 o forwyr ar longau masnachol wrth geisio sicrhau fod gan y wlad a'r lluoedd arfog yr hanfodion i oroesi. Roedd mwy na 1,000 o'r rhain yn forwyr o Gymru.**

Cyn ac yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf, roedd morwyr masnach yn aelodau o'r 'Mercantile Marine', ond er anrhydedd i'r aberth a wnaethant, rhoddodd y Brenin Siôr V y teitl 'Llynges Fasnachol' (*Merchant Navy*) i'r gwasanaeth yn 1920.

Yn 2014 cyhoeddwyd *Llyfr Cofio* yn rhestru'r morwyr hynny o Gymru a gollodd eu bywydau. Mae copïau o'r llyfr ar gael yn Amgueddfeydd Brenhinol Greenwich, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd a nifer o awdurdodau lleol ledled Cymru.

Rhannwyd y wybodaeth yn y llyfr â Historypoints.org ac mae placiau Ymateb Cyflym wedi'u lleoli ger cofebion sy'n bodoli eisoes, sy'n rhoi mynediad i'r cyhoedd i Restr y Gwroniaid.




Ar y dde: *Llyfr Cofio'r* Llynges Fasnachol © Byron Jones

# Ai dros hyn?

'Ai dros hyn y bu i'r clai dyfu' Futility
'Fy nhestun yw Rhyfel a thosturi rhyfel - yn y tosturi y mae'r farddoniaeth.' Wilfred Owen

Hanes oedd rhyfel. Unwaith. Man nodedig -
Catraeth, Cilmeri, Bosworth, Cae Flodden -
gwŷr dienw'n gorwedd. Di-gariad neu'n gariadau;
eu crioedd am adref, mwd wedi eu mygu, cysegrwyd
gan feddau ynghudd dan ganrifoedd o wair.

Canrif. Y rhyfel i roi taw ar bob rhyfel,
galarnadau o enwau: Ypres, y Somme,
Camlas Sambre-Ouse, a'r tŷ yn Ors
lle lluniodd Owen ei lythyr dewr olaf
adref. Eto ei lais dreiddia o hyd
drwy ddichell cadau gan ddior distawrwydd:
"y gerdd a'i chur yw'r tosturi".

Canrif. Amser i'w cofio
wrth golofnau pentrefi ac ing mewn maen.
a'n henwau ni arnynt, enwau cyd-nabod,
gwŷr a aned yn ein trefi, bwthyn ar y bryn,
y fferm ochr draw'r cwm. Yno, y trigant
hyd byth, er dan bridd daear gwlad arall.

Rhyfel heddiw, anadl - gwenwyn, sgrechfeydd awyr,
heb amser i ganu'n iach nac estyn sws.
Drylliedig yw'r hen, y bregus a'r ifanc;
y plentyn a gariwyd o'r môr. Dinas yn sarn.
Gaza. Helmund. Aleppo. Homs
'Ai dros hyn y bu...?'

Gillian Clarke
Cyfieithiad gan Menna Elfyn
Comisiynwyd gan Llenyddiaeth Cymru ar gyfer digwyddiad
Estyn yn Ddistaw, 2019 a ariannwyd gan Llywodraeth Cymru

# 2015

Yn 2015, bu Cymru yn coffáu Ymgyrch Gallipoli a'r colledion difrifol a gafwyd yno, gyda nifer o ddigwyddiadau drwy'r flwyddyn yn canolbwyntio ar fywydau'r bobl a ddioddefodd neu yr effeithiwyd arnynt. Roedd pob marwolaeth neu anaf, pawb ddaeth adref ac y bu rhaid iddynt ailadeiladu eu bywydau, yn unigolion. Mae'r fenter ar-lein *Wynebau'r Milwyr a Gollwyd* yn ein hatgoffa o hyn, tra bod arddangosfeydd fel *Cred a Gweithred* yn dangos nad oedd pawb yn cytuno â'r rhyfel ac yn gorfod dod o hyd i'w ffyrdd eu hunain o ymateb.

Ar y dde: Milwyr Prydeinig wedi'u clwyfo yn mynd ar long ysbyty ym Mae Suvla, Gallipoli, 1915 © Yr Amgueddfeydd Rhyfel Ymerodrol (Q13388)





# GWARCHOD EIN COFEBION RHYFEL

**Mae cofebion rhyfel ledled Cymru yn rhan ingol o'n treftadaeth ac yn dal i fod â rhan bwysig wrth goffáu'r Rhyfel Byd Cyntaf. Maent yn mynegi'r golled, y galar a'r balchder a rennir gan gymunedau, ac yn ganolbwynt i'r coffáu gan fod eu lleoliad yn aml yn adlewyrchu'r rôl gyhoeddus honno'n uniongyrchol. Maent i'w cael ym mhobman ledled Cymru gan fod bod bron pob cymuned wedi anfon pobl i ymladd, a chynifer o'r rheiny wedi marw neu gael eu hanafu.**

Mae hyd at 5,000 o gofebion rhyfel yng Nghymru ac nid ydynt bob amser ar ffurf amlwg placiau neu gerfluniau; mae sawl parc coffa, ysbyty coffa a neuadd goffa, wedi'u hadeiladu trwy gefnogaeth y cyhoedd, a phob un ohonynt yn rhan o etifeddiaeth coffa'r cymunedau.

Ar ddechrau'r cyfnod coffáu, cyhoeddodd Cadw ganllawiau newydd gyda'r nod penodol o helpu cymunedau i ofalu am eu cofebion gan gynnig cyngor ac arweiniad ymarferol ar gyfer eu cadwraeth a'u hatgyweirio.

Lansiodd Cadw hefyd gynllun grant yn 2014 yn cynnig cefnogaeth ariannol ar gyfer gwaith cadwraeth. Nod y canllawiau a'r cynllun grantiau ill dau oedd diogelu ein cofebion rhyfel, gan helpu cymunedau i'w hadfer i gyflwr da ac i barhau i'w cadw felly, er mwyn sicrhau eu bod yn dal i fod â rôl fyw ar gyfer y dyfodol. Rhoddwyd 41 o grantiau gan Cadw, yn gyfanswm o bron i £230,000. Mae gofalu am y cofebion hyn yn ffordd o anrhydeddu'r miloedd o ddynion a menywod cyffredin o Gymru y cyffyrddodd y rhyfel â'u bywydau. Yn ddiweddar cafodd nifer o gofebion rhyfel eu rhestru, i gydnabod eu harwyddocâd. Ar y dudalen nesaf ceir hanes tair enghraifft yn unig o'r cofebion rhyfel sydd newydd eu rhestru yng Nghymru.




Lluniau ar y dde a chwith: Cofeb Ryfel Penyrorsedd © Hawlfraint y Goron: Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru



Uchod: Gwn Twyn y Garth, Powys © Hawlfraint y Goron (2018) Cadw, Llywodraeth Cymru

## COFEB GWN TWYN Y GARTH

Rhestrwyd Cofeb Gwn Twyn y Garth ym mis Tachwedd 2018 oherwydd ei ddiddordeb pensaernïol arbennig ac fel enghraifft brin ac anghyffredin iawn o gofeb ryfel. Dyma un o lond llaw o ynau rhyfel yn y Deyrnas Unedig sydd â stori gefndir ddiddorol wedi'i dogfennu'n dda.

Mae'r gwn mawr hwn o'r Rhyfel Byd Cyntaf yn un Almaenig ac fe'i gosodwyd yn ei lecyn dramatig ar ochr bryn ym Mhowys yn 1920 er cof am Christopher Williams-Vaughan a dynion lleol eraill a laddwyd yn ystod y rhyfel. Credir bod Swyddfa Ryfel Prydain wedi rhoi'r gwn i chwaer Williams-Vaughan.

Cludwyd y gwn i fyny llethrau serth Twyn y Garth gan gymunedau lleol Erwyd a Llandeilo Graban yn 1920. Erbyn 1999 roedd cyflwr y gwn wedi dirywio oherwydd ei leoliad agored ond cafodd ei adfer gan Gyngor Cymuned Castell-paen fel prosiect y mileniwm a'i ailosod ym mis Hydref 2000.

## COFEB RYFEL PENYRORSEDD

Rhestrwyd Cofeb Ryfel Penyrorsedd, Nantlle, Gwynedd gan Cadw ym mis Mehefin 2018. Mae'n anarferol gan ei bod yn dystiolaeth benodol i bwysigrwydd y diwydiant llechi yn y gymuned hon, a hynny i'w weld yn amlwg yng ngherfiadau cain y gofeb.

Codwyd y panel llechi mawr i goffáu'r chwarelwyr hynny o Chwarel Penyrorsedd a laddwyd yn y Rhyfel Byd Cyntaf ac mae'n cynnwys paneli sy'n darlunio gwaith chwarel ynghyd â golygfa o faes y gad.

## COFEB RYFEL GWENFÔ

Mae Cofeb Ryfel Gwenfô mewn parc coffa bach yng nghanol pentref Gwenfô ym Mro Morgannwg. Fe'i rhestrwyd yn 2017 yn sgil ei ddiddordeb pensaernïol arbennig fel cofeb ryfel anarferol sydd wedi'i chadw'n dda ac sy'n arddangos crefftwaith cain a defnydd arbennig o ddiddorol o ddeunyddiau lleol gan fod y garreg o chwarel Gwenfô. Mae'n anarferol am ei bod yn cofnodi enwau pawb a wasanaethodd yn y Rhyfel Byd Cyntaf, nid dim ond y rhai a laddwyd.

Julie Osmond
www.cadw.llyw.cymru

# COFIO GALLIPOLI

**Roedd 2015 yn nodi canmlwyddiant ymgyrch Gallipoli lle cafwyd rhai o'r brwydrau drutaf i gymunedau a chatrodau Cymru. Roedd yr ymgyrch yn ymgais i gael rheolaeth ar lwybr o Fôr y Canoldir i'r Môr Du, er mwyn rhoi mynediad i'n cynghreiriad o Rwsia trwy Gulfor y Dardanelles. Ond ni fu'r ymgyrch yn llwyddiant a chafwyd colledion enfawr i Luoedd y Cynghreiriaid gan gynnwys Awstralia a Seland Newydd, yn ogystal â Chymru. Erbyn diwedd ymgyrch Gallipoli, roedd dros 1,500 o ddynion wedi marw o Gyffinwyr De Cymru, y Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig, Iwmyn Ceffylau Cymru a'r Gatrawd Gymreig yn ogystal â llawer a oedd yn ymladd mewn catrodau eraill.**

Fel rhan o *Cymru'n Cofio* Wales Remembers 1914-1918 crëwyd arddangosfa deithiol a oedd yn adrodd hanes y Cymry yn Gallipoli a'r effaith a gafodd y gwrthdaro ar fywyd yng Nghymru a'i chymunedau. Roedd yr arddangosfa'n cynnwys straeon am y rheiny aeth yno, fel Hogiau Chwarel Penmaenmawr, a chefnder i'r chwiorydd Davies (a brynodd Neuadd Gregynog maes o law) a oedd ill dwy wedi teithio yn yr ardal gyda'i gilydd ond bedair blynedd ynghynt.

Agorwyd yr arddangosfa ddwyieithog yn Amgueddfa Penmaenmawr, Conwy gan y Prif Weinidog ar y pryd, y Gwir Anrhydeddus Carwyn Jones AS, ac ymwelodd yr arddangosfa hefyd â Thŷ Ladywell yn y Drenewydd, Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn Aberystwyth, Amgueddfa Gatrodol y Cymry Brenhinol yn Aberhonddu, Amgueddfa'r Milwr Cymreig yng Nghastell Caerdydd, a Neuadd Gregynog, Sir Drefaldwyn, a'r rhain wedi'u dewis i adlewyrchu'r prif ardaloedd lle hanai'r milwyr Cymreig. Cefnogwyd yr arddangosfa gan ddeunydd digidol ar wefan Casgliad y Werin, llyfryn coffa a deunyddiau addysgol.



Ar y dde: Cwmni Penmaenmawr, 6RWF (y Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig). Llun drwy garedigrwydd Dennis Roberts

Cefndir: Darn o wenithfaen o'r chwarel ym Mhenmaenmawr wedi'i adael ym mynwent Comisiwn Beddau Rhyfel y Gymanwlad, Lala Baba, Gallipoli i gofio am 'Hogiau'r Chwarel' na ddychwelodd adref. Llun drwy garedigrwydd Anne Pedley

# DAI A TOMI

**Roedd glowyr Cymru gyda'r cyntaf i ateb yr alwad pan gychwynnodd y Rhyfel yn 1914. A hwythau gan amlaf yn sosialwyr ac yn anghydffurfwyr radical, roedd y glowyr fel rheol yn amheus o ymgyrchoedd cenedlaetholgar. Serch hynny fe gawsant, fel miloedd eraill yn y cyfnod, eu cario gan don y brwdfrydedd dechreuol dros y Rhyfel. Listiodd y glowyr yn eu miloedd. Câi crefft a dewrder y gwŷr cadarn hyn, a oedd wedi hen arfer â chaledi a pheryglon y pyllau, eu profi i'r eithaf ar faes y gad.**




Roedd arddangosfa *Dai a Tomi* yn canolbwyntio ar storïau personol y glowyr a aeth i ryfel, yn arbennig y glowyr a wasanaethai fel 'Twnelwyr' ar y Ffrynt Orllewinol. Ym mhle bynnag yr ymladdai milwyr Prydain, roedd y Cymry yn eu plith, ac ym mhle bynnag yr ymladdai'r Cymry, roedd glowyr yn eu plith. Bu'r glowyr hyn yn ymladd brwydrau personol, dychrynllyd o dan y ffosydd. Cynhaliwyd yr arddangosfa hon yn Big Pit: Amgueddfa Lofaol Cymru rhwng mis Chwefror a mis Medi 2015 cyn symud i'r Amgueddfa Wlân Genedlaethol rhwng Medi 2015 ac Ionawr 2016.

Ar y chwith: Pwrs lledr a gyflwynwyd gan swyddogion glofa Forge Slope i David Evan Williams ar achlysur cael ei gomisiynu yn Lefftenant y Peirianwyr Brenhinol, Ebrill 1916 © Amgueddfa Cymru

# CRED A GWEITHRED – COFIO LLEISIAU GWAHANOL

**Wrth i ni gofio'r rheiny a gollodd eu bywydau neu a anafwyd yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf, mae hefyd yn bwysig cofio'r rheiny a wrthwynebai'r gwrthdaro oherwydd eu credoau. Yn dilyn gorfodaeth filwrol yn 1916, carcharwyd dros 900 o Gymry yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf am wrthwynebu'r gwrthdaro am resymau crefyddol, moesegol neu wleidyddol.**

Crëwyd arddangosfa deithiol gan Ganolfan Materion Rhyngwladol Cymru o'r enw *Cred a Gweithred* i ystyried amrywiaeth y safbwyntiau ar wrthdaro a heddwch, yn enwedig gwrthwynebwyr cydwybodol y Rhyfel Byd Cyntaf. Roedd yr arddangosfa yn rhan o'u rhaglen Cymru dros Heddwch ac roedd yn rhan bwysig o *Cymru'n Cofio* Wales Remembers 1914-1918. Ymwelodd â 14 o leoliadau ledled Cymru yn ystod 2016-18, ac ymgysylltu â thua 22,500 o bobl mewn mwy na 30 o ddigwyddiadau lleol. Yn ogystal, crëwyd pedwar adnodd dysgu i'r cwricwlwm, sydd ar gael trwy blatfform dysgu Hwb, er mwyn i bobl ifanc astudio safbwyntiau ar wrthdaro a rhyfel.




Ymhlith y sylwadau gan ymwelwyr â'r arddangosfa, dywedwyd 'Darn diddorol o hanes Cymru nad oeddwn i'n gwybod dim amdano' ac 'Arddangosfa addysgiadol iawn, wedi'i chynhyrchu'n dda, yn ddiduedd ac yn feddylgar.'

Bu Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru hefyd yn gweithio gyda'r hanesydd Dr Cyril Pearce i greu 'Map Heddwch' chwiliadwy o'r Cymry oedd yn wrthwynebwyr cydwybodol yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf, yn seiliedig ar ei gronfa ddata 'Cofrestr Pearce'. Gellir chwilio drwy'r adnodd newydd hwn ar-lein yn ôl enw, sir, tref neu reswm (dros wrthwynebu'r Rhyfel Byd Cyntaf), ac mae'n cynnig modd i ddatgelu hanes cudd gwrthwynebwyr cydwybodol o Gymru, a dod â nhw'n fyw. Mae cronfa ddata'r Deyrnas Unedig o dros 16,500 o enwau i'w chael ar y wefan Lives of the First World War.


I gael rhagor o wybodaeth: www.wcia.org.uk/cy/conscientiousobjectors/

Ar y chwith: Arddangosfa *Cred a Gweithred*, Ysgol Maesydderwen, Ystradgynlais. Lansio 'Gwrthwynebiad Ddoe a Heddiw' sef pecyn Cwricwlwm ar gyfer Diwrnod Gwrthwynebwyr Cydwybodol, 15 Mai 2018 © Craig Owen, Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru

Llun cefndir: Carreg Goffa'r Gwrthwynebwyr Cydwybodol, Gardd Heddwch Cymru. © Craig Owen, Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru



Uchod: Panel yn Amgueddfa’r Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig yn dangos rhai o wynebau’r milwyr a gollwyd, wedi’i ariannu gan Ffederasiwn Amgueddfeydd Cymru © Amgueddfa’r Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig



# WYNEBAU'R MILWYR A GOLLWYD

**Cynhaliodd Amgueddfa Catrawd y Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig yng Nghastell Caernarfon raglen gynhwysfawr o ddigwyddiadau i gofio canmlwyddiant gwasanaeth y Gatrawd yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf, gan gynnwys *Wynebau'r Milwyr a Gollwyd* a'r prosiect *Bring Them Home*.**

Yn y prosiect *Wynebau'r Milwyr a Gollwyd*, i anrhydeddu'r dynion a fu farw lluniwyd cronfa ddata yn llawn proffiliau o gynifer o'r dynion â phosibl.

Dechreuodd y gronfa ddata fel coffâd ffotograffig. Postiai Amgueddfa'r Ffiwsilwyr Cymreig ffotograffau ar y we o'r dynion a fu farw dramor ar faes y gad union 100 mlynedd i'r diwrnod y cwympon nhw. O hyn, lluniodd yr Amgueddfa bortffolio o wybodaeth am bob person, gan greu proffil personol o'r dynion y tu ôl i'r ystadegau. Mae'r ffigyrau yn drawiadol. Erbyn diwedd y Rhyfel, roedd dros 11,000 o ddynion yn y gatrawd wedi colli eu bywydau.

Gyda chefnogaeth ariannol gan raglen *Cymru'n Cofio* Wales Remembers 1914-1918, aeth Amgueddfa'r Ffiwsilwyr Cymreig ati i greu cronfa ddata y gellid chwilio drwyddi ar eu gwefan, i fod yn adnodd ymchwil di-dâl i bawb ei ddefnyddio. Mae'r Ymddiriedolwyr yn ddyledus iawn i grŵp bach o wirfoddolwyr ymroddedig a wnaeth y deyrnged addas hon yn bosibl. Mae hyn wedi creu gwaddol gweddus a phersonol iawn, ac ar hyn o bryd mae gan y gronfa dros 2,530 o ffotograffau a phroffiliau o'r Ffiwsilwyr Cymreig a fu farw.

*'Rydyn ni'n credu ein bod ni'n dod â'r Ffiwsilwyr Cymreig hyn yn ôl i gartref ysbrydol y Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig.'* Ymddiriedolwr yr Amgueddfa

*'Mae hwn yn syniad gwych ac mor briodol. Mae'n parhau i greu archif am deyrngarwch ac aberth ac anrhydedd. Rwy'n gobeithio y bydd rhagor ohonynt yn cael eu darganfod ac y bydd wynebau pawb a fu farw wrth wasanaethu yn cael eu gweld eto.'* Dilynwr ar Facebook

Rhagor o wybodaeth: www.rwfmuseum.org.uk/cym/faces-of-the-fallen/index.php

# BRING THEM HOME

**Cynhaliwyd digwyddiad coffa gweledol ar furiau Castell Caernarfon ar Ddydd Cofio'r Cadoediad yn 2015. Yr hyn a wnaeth Amgueddfa'r Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig oedd taflunio nifer y milwyr yn y Gatrawd a fu farw ar feysydd y gad yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf, yna eu henwau (dros 11,000 ohonynt), ynghyd â ffotograff o sawl un o'r dynion. Dechreuodd y tafluniad teimladwy gyda'r gân addas 'Bring Him Home' wedi'i chanu gan y tenor Alfie Boe, a chyhoeddwyr *Les Misérables* yn garedig iawn wedi rhoi eu caniatâd.**

Cynhaliodd yr Amgueddfa'r prosiect *Bring Them Home*, gyda chefnogaeth Cronfa Dreftadaeth y Loteri, er mwyn dangos maint y colledion a ddioddefodd un gatrawd yn unig yn y Rhyfel Byd Cyntaf, a straeon y dynion y tu ôl i'r rhifau. Er bod enwau'r rhai a fu farw yn gwasanaethu yn y Rhyfel wedi'u harysgrifio ar gofebion rhyfel ledled Cymru, lluniwyd y digwyddiad hwn i greu presenoldeb pwerus trwy ddod â'r dynion i gyd at ei gilydd mewn un lle. Ailadroddwyd y dangosiad yn 2016, 2017 a 2018, gan hefyd gynnwys ffotograffau newydd a oedd wedi dod i'r fei yn y cyfamser.



Ar y dde: Taflunio *Wynebau'r Milwyr a Gollwyd* ar furiau Castell Caernarfon 11 Tachwedd 2015
© Amgueddfa'r Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig

# @DYDDIADURKATE – TRYDAR O'R GORFFENNOL

**Drwy gydol 2015 roedd cyfrif @DyddiadurKate yn trydar (yn y Gymraeg) ddyddlyfr 1915 Kate Rowlands, merch ffarm o'r Sarnau ger y Bala. Ganrif yn ddiweddarach, mae ei chofnodion wedi rhoi golwg newydd i ni ar fywyd yng Nghymru yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf.**

Yn 1915 roedd Kate 'Kitty' Rowlands yn ferch ddi-briod, yn ei hugeiniau cynnar, ac yn byw gyda'i rhieni ar fferm fechan o'r enw Ty Hen ym mhlwyf Llanfor. O fewn cloriau ei dyddiadur, ceir cofnodion cryno o'i gweithgareddau dyddiol – tasgau ar y fferm a'r aelwyd, arferion tymhorol, sylwadau am y tywydd, cyfarfodydd di-ri yn y capel, a chymdogion yn mynd a dod. Hanes meicro sydd yma – hynt a helynt un gymuned fechan o fewn blwyddyn gythryblus ar dir mawr Ewrop.

Wrth bori'r tudalennau, fe ddaeth hi'n amlwg fod y cynnwys yn haeddu sylw pellach. Felly dyma ddechrau cyfrif Twitter @DyddiadurKate ar Ddydd Calan 2015. Am flwyddyn gron, bu tîm Amgueddfa Cymru yn trydar cynnwys y dyddiadur yn ddyddiol, gan gyrraedd cynulleidfa tu hwnt i unrhyw ystafell ddarllen neu ddarlithfa.

I gyd-fynd â'r cyfrif trydar, roedd @DyddiadurKate yn sbringfwrdd i flogio am bob math o bynciau yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf yn cynnwys iechyd cyhoeddus, recriwtio ym Meirionnydd, y Groes Goch a gwirfoddoli ar y Ffrynt Cartref, gofid am gynhyrchiant bwyd a gwersyll carcharorion Fron-goch. Roedd un enw neu ddigwyddiad yn y dyddiadur yn mynd â ni ar drywydd stori leol a oedd, yn amlach na pheidio, yn ddrych i stori genedlaethol ehangach.




Uchod: Cofnodion cryno'r dyddiadur © Amgueddfa Cymru

Canol: Clawr dyddiadur 1915 Kate Rowlands, Sarnau, Meirionnydd o gasgliad Amgueddfa Werin Cymru © Amgueddfa Cymru

Isod: Kate Rowlands yn 1969. Erbyn hyn, roedd hi wedi ymgartrefu yn Rhyduchaf © Amgueddfa Cymru

# Y RHYFEL MAWR A'R CYMOEDD

**Gweithiodd Llyfrgell Genedlaethol Cymru mewn partneriaeth ag eraill i gyflwyno arddangosfa ar-lein yn canolbwyntio ar effaith y Rhyfel Byd Cyntaf ar Ferthyr Tudful a Chwm Cynon.**

Roedd yr arddangosfa ar-lein yn manylu ar brofiad dirdynnol rhyfel yn y ffosydd ac yn dogfennu'r gwrthwynebiad i'r Rhyfel ac effaith y gwrthdaro ar fywyd sifil. Roedd y Ffrynt Cartref yn rhan bwysig o'r arddangosfa, ac edrychai ar sut y newidiodd y Rhyfel fywydau menywod a sut yr adroddwyd am ddigwyddiadau dadleuol fel streic y glowyr ym mis Gorffennaf 1915. Archwiliwyd barn pobl wahanol am y Rhyfel a digwyddiadau lleol megis dyfodiad grwpiau o ffoaduriaid o Wlad Belg, ynghyd â chydnabod bod gwrthwynebiad i'r Rhyfel yn nodwedd amlwg o fywyd yn lleol.

Dewiswyd cynnwys yr arddangosfa ar-lein o ddau adnodd digidol, sef casgliad digidol Casgliad y Werin a'r archif ddigidol 'Y Rhyfel Byd Cyntaf a'r Profiad Cymreig' cymru1914.org (cydweithrediad rhwng llyfrgelloedd, archifdai a chasgliadau arbennig Cymru) wedi'i ariannu gan Jisc.

Mae modd gweld yr arddangosfa ar-lein yn: merthyrww1.llgc.org.uk/

Ar y dde: Tudalen o'r *Aberdare Leader*, Gorffennaf 17, 1915. Trwy ganiatâd Llyfrgell Genedlaethol Cymru

# AIL-GREU'R GADAIR DDU



**Mae'r Gadair Ddu yn un o ddarnau dodrefn mwyaf eiconig Cymru, a hynny'n bennaf oherwydd y stori bersonol ac ingol sy'n gysylltiedig â hi a hanes y Rhyfel Byd Cyntaf. Mae'n enghraifft wych o grefftwaith dechrau'r 20fed ganrif, a'i cherfiadau addurnol yn cynnwys symbolau Cristnogol, Groegaidd a Cheltaidd. Fe'i dyluniwyd gan grefftwr o'r enw Eugeen Vanfleteren a oedd yn ffoadur o Wlad Belg.**

Mae'r Gadair Ddu wreiddiol, a enillwyd gan y bardd Hedd Wyn yn Eisteddfod Genedlaethol 1917 ar ôl ei farwolaeth, yn dal i fod yng nghartref Hedd Wyn yn yr Ysgwrn, ond fel rhan o *Cymru'n Cofio* Wales Remembers 1914-1918, gwnaed copi 3D o faint llawn y gadair er mwyn i ragor o bobl weld y gadair eiconig hon ac ymdeimlo â'r hyn y mae'n ei gynrychioli.

Yn 2013, sganiwyd y Gadair Ddu wreiddiol yn yr Ysgwrn gan ddefnyddio technoleg 3D, a hynny yn sgil partneriaeth rhwng Ysgol Beirianneg Prifysgol Caerdydd, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ac Amgueddfa Cymru. Cefnogodd Llywodraeth Cymru a phartneriaid eraill y prosiect. Roedd y gwaith sganio ac argraffu 3D yn cynnwys cwmnïau eraill a oedd wedi ailosod yr ugain darn ac yna ei chwblhau i gydweddu â thraul naturiol y gadair wreiddiol.

Dadorchuddiwyd atgynhyrchiad y Gadair yn y Senedd gan y Prif Weinidog ar y pryd, y Gwir Anrhydeddus Carwyn Jones AS, ym mis Ionawr 2015, ac ers hynny mae wedi cael ei arddangos ym Mrwsel ac ar draws Cymru, gan gynnwys yn Eisteddfod yr Urdd 2017, yr Eisteddfod Genedlaethol, Castell Aberteifi ac Amgueddfa Werin Cymru Sain Ffagan.

Ar y chwith: Y Gadair Ddu. Drwy garedigrwydd Jan Davies

# Enwau

O'r diwedd distawodd y gynnau. Trwy'r distawrwydd beichus
roedd sŵn y galaru'n eglurach. Trochwyd y byd
mewn dagrau a gwaed, ac ar ôl y fath ddifa eithafol,
roedd yr enwau ar goll drwy'r ddaear anwar i gyd,
cyfenwau dinod nad oedd yr un cofnod ohonynt
ac eithrio yng ngweddïau mamau yn oriau'r nos;
y miliynau o enwau a yrrid ar amlenni unwaith
o gartrefi gwâr i gyrraedd gorffwylltra'r ffos.

A gofynnodd rhai, 'Beth a wnawn â'r holl enwau hyn?
Byddai gadael y rhain yng ngwledydd estroniaid yn sen.
Mae'n rhaid inni gludo'u henwau i'w gwlad eu hunain,
hel yr holl enwau ynghyd oddi ar groesau o bren.'
Ac atebodd eraill, 'Cofnodwch ac achubwch eu haberth,
rhag angof, ymhob tref a phentref, trwy eu coffáu;
â chŷn, ysgythrwch eu henwau ar feini yn hytrach
nag ar ddarnau o bren, fel y bydd i'r enwau barhau.'

A bu'r seiri'n brysurach nag erioed, yn aredig y cerrig,
ac yn hau'r holl lythrennau fel hadau ar hyd pob maen,
nes i'r enwau finiocáu llafn y cŷn, fel y gallai dorri
rhagor a rhagor o enwau, gan ddifwyno'r graen;
ac â'u cynion aflonydd bu'r cerflunwyr hwythau yn naddu
delwau o filwyr mewn efydd a charreg â chŷn
a hogwyd ar galonnau mamau, y maen ymhob mynwes,
ac fel hyn y coffawyd y bechgyn nad aent fyth yn hŷn.

Ond gofynnodd rhywun, 'Beth am y mamau galarus,
y mamau a gysgai ym meddau eu meibion mud,
y mamau a roddodd eu henwau a'u hanadl i'w bechgyn?'
Ond roedd enwau eu meibion yn hawlio'r gofeb i gyd
ac nid oedd yr un mymryn o ofod i enwi'r mamau
er mai'r rhyfel a'u hawliodd hwythau, a pheri eu lladd
o dorcalon, o hiraeth creulon, a phob bedd fel crud,
trengi, heb i gŷn eu henwi ar y garreg nadd.

'Ond beth am y rhai a fynnai eu difa eu hunain yn
hytrach na difa eraill ar feysydd y tân, y rhai a
ddewisodd y rhaff yn hytrach na'r uffern lle rhwygid
yr hogiau yn ddarnau, yn ysgyrion mân, a'r tadau a
holltodd arddyrnau, o ddwyn oddi arnynt, eu meibion
yn anterth eu dyddiau, nes i'w dyddiau droi'n staen?
Hyn, yn annoeth o ddewr, a ofynnodd eraill,
ond lle i'r un enaid llwfr nid oedd ar y maen.

A gofynnodd rhywun, 'Beth am y Duw a'n gadawodd
drwy gydol yr Armagedon, drwy'r blynyddoedd blin,
y Duw a fu farw'n y rhengoedd, y Duw a lofruddiwyd yn
nydd dadwneud y cenhedloedd, a'n gwareiddiad yn grin?'
A daeth rhywun ag ateb: 'Ei gofeb yw'r ddaear i gyd,
nid oes maen digon mawr i'w enw, fel y cedwir yn fyw,
ei enw, fel yr enwau eraill, ac oherwydd hynny,
bydded y beddau oll yn gofeb i Dduw.'

Ac felly y bu. Gweddnewidiwyd pob tref a phentref;
codwyd cofebau i feibion y mamau mud;
diogelwyd yr enwau am byth, diogelwyd y galar;
un gofeb oedd y ddaear gyfan, un cofadail o fyd,
a'r enwau, y miloedd o enwau, yr enwau diddiwedd,
roedd y rheini yn gaeth yn y meini, yr holl enwau rhad
yn glòs, yn frawdgarwch ar gerrig, ond yr enwau eraill
ar goll drwy'r ddaear i gyd, heb yr un coffâd.

Alan Llwyd

Comisiynwyd gan Llenyddiaeth Cymru ar gyfer digwyddiad
Estyn yn Ddistaw, 2019 a ariannwyd gan Llywodraeth Cymru

# 2016

Yn 2016, canolbwynt *Cymru'n Cofio* Wales Remembers 1914-1918 oedd coffáu Brwydr y Somme. Gartref yng Nghymru ac ym Mametz yn Ffrainc, roedd gwasanaethau a gwylnosau yn nodi dechrau'r frwydr ac yn cofio'r colledion erchyll. Roedd digwyddiadau ac arddangosfeydd yn edrych ar agweddau eraill ar y rhyfel hefyd wedi parhau gydol y flwyddyn. Roedd yr arddangosfa *Merched Caneri* yn Amgueddfa Genedlaethol y Glannau yn tynnu sylw at ran menywod yn y rhyfel, a'r gosodwaith *Weeping Window* yng Nghastell Caernarfon wedi denu miloedd o ymwelwyr i weld y pabïau seramig.

Milwyr o Gymru ym Mametz © Dr Jonathan Hicks



# CYMRU A BRWYDR Y SOMME

**Mae Brwydr y Somme wedi dod yn gyfystyr â dioddefaint mawr, yn enwedig wrth feddwl am y nifer echrydus o filwyr Prydeinig a ddioddefodd ar ddiwrnod cyntaf yr ymladd ar 1 Gorffennaf 1916 (38,230 o filwyr wedi'u hanafu neu ar goll, a 19,240 wedi'u lladd). Parhaodd yr ymladd am bum mis a chollwyd mwy na 1,300,000 o filwyr ar y ddwy ochr. Cyfeirir yn aml at y frwydr hon wrth sôn am oferedd y Rhyfel.**

Roedd 27 bataliwn o Gymru wedi cymryd rhan yn yr ymgyrch anferthol hon, ar ôl misoedd o gynllunio, hyfforddi a pharatoi manwl. Yn ogystal â'r dynion a wasanaethai yn y catrodau Cymreig, roedd Cymry hefyd yn gwasanaethu yng nghatrodau eraill y Fyddin Brydeinig ac yng nghanghennau gwasanaethau eraill. Roedd menywod o Gymru hefyd yn gwasanaethu yn ardal y Somme fel nyrsys, gyrwyr a staff ffreutur. O ganlyniad, prin iawn oedd y trefi a'r pentrefi yng Nghymru nad oedd digwyddiadau ofnadwy'r pum mis hynny wedi effeithio arnynt.

Dyma sut y disgrifiodd swyddog anhysbys eiliadau olaf is-lefftenant Alan Sheriff Roberts, 20 oed, swyddog yn y Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig:

*'O dan y coed a'r llwyni gwelsom sawl bachgen a oedd wedi colli pob gobaith o gael eu canfod, wedi ymgartrefu yn y man cystuddiedig hwnnw i farw. Mewn un cornel, wrth droed coeden, daethom o hyd i Roberts. O'i glwyfau gallwn weld ar unwaith na allem wneud dim drosto. Penliniais wrth ei ymyl, agor ei goler, tynnu ei gap a rhoi fy llaw ar ei dalcen clir. Wrth deimlo cyffyrddiad, agorodd ei lygaid, ac o fy adnabod rhoddodd wên wan, a sibrwd mewn llais ysgafn, "Capten." Mewn ffordd anobeithiol ceisiais wneud rhywbeth drosto, ond nid oedd eisiau dim arno. Roedd mewn poen echrydus, ond yn rhyfedd iawn edrychai mor ddigynnwrf rywsut. Roedd yr anadl werthfawr yn mynd yn wannach a gwannach a'i wyneb yn mynd yn fwyfwy disglair, gan ddatblygu yn y diwedd i fod mor glir a gwag nes bod bron yn annaearol.'*



Ar y dde: Is-lefftenant Alan Sheriff Roberts, Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig © Dr Jonathan Hicks



Pan ddaeth y Rhyfel Byd Cyntaf i ben, aeth llawer o deuluoedd i weld y man lle bu farw eu hanwyliaid. Mae cyfrif personol gan un teulu o Gymru yn dangos y torcalon a achoswyd gan y frwydr hir hon.

Lladdwyd is-lefftenant Adrian Barrett o'r Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig ar 10 Gorffennaf 1916, yn ddim ond 20 oed, wrth arwain ei ddynion mewn ymosodiad ar Goedwig Mametz, y goedwig fwyaf ar y Somme. Yn 1920 ymwelodd ei fam â'r ardal lle bu farw, ac yn ddiweddarach ysgrifennodd hyn:

*'O'r diwedd, ar ôl misoedd, blynyddoedd hyd yn oed, rwyf wedi ymweld â Choedwig Mametz. Rwyf wedi ei gweld hi droeon yn fy mreuddwydion. Rwyf wedi meddwl a meddwl am y lle, a'i darlunio i mi fy hun – y man lle claddwyd fy mab. Roeddwn i eisiau gweld y coed Ffrengig, yr olygfa olaf honno y byddai llygaid glas fy mab wedi'i gweld. Rwyf wedi gweld y cyfan, ac yn wir, mae'n hyfryd. Mae natur wedi gwneud ei gorau i feddalu creithiau caled y Rhyfel.'*

Cymerodd hi fwy o amser i Helen Wheadon o Stryd Arabella yng Nghaerdydd gael symud ymlaen. Ni chafodd ei hysbysu tan 1930 bod gweddillion ei mab wedi cael eu darganfod a'u hadnabod yng nghanol Coedwig Mametz. Adroddwyd ar 11 Gorffennaf 1916 fod y Preifat John Bryant Collins o'r 15fed Adran Gymreig ar goll. Claddwyd ef ym Mynwent Ffordd Serre ac o'r diwedd roedd ei fam yn gwybod yn union ymhle roedd ei mab yn gorwedd.

Mae straeon o Frwydr y Somme yn dal i ddod i'r fei, ac yn yr wylnos goffa dros nos yn Eglwys Gadeiriol Llandaf ar 30 Mehefin 2016 talwyd teyrnged i'r aberth a wnaed ganddynt oll.

Dr Jonathan Hicks

Uchod: Is-lefftenant Adrian Barrett, Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig © Dr Jonathan Hicks

# CYMDEITHAS Y FFRYNT GORLLEWINOL: DE CYMRU

**Bu cangen De Cymru o Gymdeithas y Ffrynt Gorllewinol yn rhan bwysig o raglen *Cymru'n Cofio* Wales Remembers 1914-1918.**

Cymerodd Cangen De Cymru yr awenau i drefnu cofio canmlwyddiant brwydr Coedwig Mametz a ddigwyddodd yn ystod ail wythnos Brwydr y Somme. Yn y frwydr honno lladdwyd ac anafwyd dros 4,000 o filwyr yr 38ain Adran (Gymreig).

Cynhaliwyd y Gwasanaeth Coffa Cenedlaethol ar 7 Gorffennaf 2016 wrth gofeb y ddraig goch yng Nghoedwig Mametz yn Ffrainc ac roedd Prif Weinidog Cymru ar y pryd, y Gwir Anrhydeddus Carwyn Jones AS, pwysigion eraill a dros 1,000 o aelodau o'r cyhoedd yn bresennol. Dilynwyd y gwasanaeth gan gyngerdd ym masilica Albert gyda Chôr Meibion Treorci.

Ynghyd â'r digwyddiad coffa hwn, bu cangen De Cymru yn brysur trwy gydol cyfnod y canmlwyddiant yn rhoi sgyrsiau i grwpiau cymunedol, yn helpu grwpiau lleol i sefydlu neu adnewyddu cofebion, yn cynnal ymchwil dros aelodau'r cyhoedd ac yn trefnu ymweliadau blynyddol â Ffrainc a Gwlad Belg lle mae'r gangen wedi meithrin cysylltiadau ag unigolion a grwpiau.

Rhagor o wybodaeth:
www.westernfrontassociation.com/branches/united-kingdom/wales-south/



Ar y dde: Cangen De Cymru o Gymdeithas y Ffrynt Gorllewinol. Band y Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig yn gorymdeithio heibio © Phil Davies

# MAMETZ: ALED RHYS HUGHES A DAVID JONES

**Yn ystod Brwydr Coedwig Mametz ddechrau mis Gorffennaf 1916 cafodd bron i 4,000 o filwyr o'r 38ain Adran (Gymreig) eu lladd, eu clwyfo neu eu datgan ar goll. Yn 1937 y goedwig hon oedd canolbwynt cerdd arbrofol David Jones 'In Parenthesis', sef hanes ei brofiadau dirdynnol ei hun yn y frwydr.**

Gan mlynedd yn ddiweddarach, mae tystiolaeth weladwy o'r frwydr ofnadwy a'r colli bywydau echrydus yn dal i'w gweld yn y coed, gyda chregyn bwledi ac esgidiau yn dadelfennu yn yr isdyfiant, a siapiau'r bynceri a'r ffosydd yn amlwg. Ysbrydolwyd y ffotograffydd Aled Rhys Hughes gan y dirwedd bwysig hon yn hanes Cymru, yn ogystal â gwaith arloesol David Jones, a bwriodd ati i geisio ateb y cwestiwn: a yw'r dirwedd hon yn cofio'r hyn a ddigwyddodd yma gan mlynedd yn ôl?

O fis Gorffennaf i fis Rhagfyr 2016 yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru dangoswyd arddangosfa o ffotograffau Aled o Goedwig Mametz heddiw, sef *Mametz: Aled Rhys Hughes a David Jones*. Dangoswyd eitemau o archif David Jones ochr yn ochr â'r delweddau trawiadol hyn o'r goedwig sydd yn dal i ddangos olion y frwydr.



Ar y dde: Arddangosfa *Mametz: Aled Rhys Hughes a David Jones*, Llyfrgell Genedlaethol Cymru 2016
© Aled Rhys Hughes

# GWYLNOS DROS NOS YNG NGOLAU CANNWYLL I GOFIO BRWYDR Y SOMME

**Cynhaliwyd gwasanaeth coffa cenedlaethol yn Eglwys Gadeiriol Llandaf i nodi canmlwyddiant dechrau Brwydr y Somme, wedi'i ddilyn gan wylnos dros nos yng ngolau cannwyll a gwasanaeth coffa wrth Gofeb Ryfel Genedlaethol Cymru ym Mharc Cathays, Caerdydd, ar 1 Gorffennaf 2016.**

Daeth mwy na 150 o bobl i'r gwasanaeth coffáu ac i ddechrau'r wylnos dros nos ar 30 Mehefin, gyda nifer ohonynt yn aros trwy'r nos. Cafwyd gweddïau a darlleniadau yn ystod y nos gan amrywiol arweinwyr a phwysigion yn ogystal â disgyblion o Goleg Cymunedol Tonypandy. Cafodd llusern ffos y Rhyfel Byd Cyntaf ei goleuo a'i gwarchod gan bersonél ar wasanaeth. Bu aelodau o'r Fyddin, y Llynges Frenhinol, y Llu Awyr Brenhinol a'r Lleng Brydeinig Frenhinol oll yn rhan o'r wylnos, a arweiniwyd gan y Prif Weinidog ar y pryd, y Gwir Anrhydeddus Carwyn Jones AS.

Yn y bore, cynhaliwyd gwasanaeth coffa am 7 o'r gloch, ac yna cafwyd distawrwydd dwy funud am 7.28am, i nodi'r eiliadau cyn 7.30am pan aeth y don gyntaf o ddynion dros yr ymyl ac i mewn i un o'r brwydrau mwyaf gwaedlyd yn hanes Prydain.

Ar y dde: Gwasanaeth Coffa Cenedlaethol i nodi dechrau canmlwyddiant Brwydr y Somme yn Eglwys Gadeiriol Llandaf, Caerdydd © Gwasanaeth Newyddion Cymru





# CREU COFFÂD SINEMATIG – FFILM JOURNEY'S END

**Yn 2016, defnyddiwyd Cymru fel cefndir ar gyfer addasiad ffilm newydd o ddrama o'r 1928, *Journey's End*, gan y dramodydd RC Sherriff. Gwnaed cryn dipyn o'r brif ffotograffiaeth yn ystod gaeaf 2016 gan ddefnyddio lleoliadau a chriwiau o Gymru, ynghyd â defnyddio Stiwdios Pinewood yng Nghaerdydd fel lleoliad allweddol i ail-greu setiau o'r ffosydd ymochel.**

Rhoddwyd cefnogaeth ariannol sylweddol i'r ffilm nodwedd hon gan Gronfa Fasnachol Llywodraeth Cymru (trwy'r Gyllideb Buddsoddi yn y Cyfryngau). Agorodd y ffilm yn y Deyrnas Unedig yn 2018 gyda sioe arbennig yng Nghaerdydd, gan mlynedd union ar ôl y digwyddiadau a ddarlunnir yn y ffilm. Ymddangosodd hefyd yng Ngŵyl Ffilm Ryngwladol Toronto 2017 a Gŵyl Ffilm Llundain y BFI yn 2017.

Cafodd y ffilm dderbyniad da gan y beirniaid ac fe'i gwerthwyd yn rhyngwladol i Tsieina, Ewrop, America Ladin a Gogledd America, ac mae ar gael ar Netflix mewn nifer o wledydd ledled y byd, gan gynnwys y Deyrnas Unedig, trwy'r platfform ffrydio ar alw.



Ar y chwith: Asa Butterfield (fel Lefftenant Raleigh) ar leoliad yn Hen Gastell y Bewpyr a ddefnyddiwyd i bortreadu pencadlys Catrawd Dwyrain Surrey ger St Quentin, Ffrainc ym mis Mawrth 1918 © Steffan Hill/Journey's End Film Ltd

Uchod: Asa Butterfield (fel Lefftenant Raleigh) yn cyrraedd Parc Tredegar a ddefnyddiwyd i gynrychioli Depo Byddin Prydain, Amiens, Ffrainc © Journey's End Film Ltd

# PABIS: WEEPING WINDOW YNG NGHASTELL CAERNARFON

**Castell Caernarfon oedd y lleoliad cyntaf yng Nghymru i arddangos yr enwog Pabis: *Weeping Window* a welwyd gyntaf yn Nhŵr Llundain yn 2014. Miloedd o babïau seramig coch wedi'u gwneud â llaw oedd y cerflun hwn, yn llifo fel rhaeadr o ben Tŵr Gwylio'r castell i'r llawr islaw. Roedd yr arddangosfa ddramatig hon i'r llygaid wedi denu tyrfaoedd mawr wrth i dros 120,000 o bobl ymweld â Chastell Caernarfon yn ystod mis Hydref a mis Tachwedd 2016 i'w gweld. Menter ar y cyd ydoedd rhwng 14-18 NOW, Cadw, Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru, Amgueddfa'r Ffiwsilwyr Brenhinol Cymreig, a rhaglen *Cymru'n Cofio* Wales Remembers 1914-1918.**

Yn ystod cyfnod arddangos y gosodiad *Weeping Window* yn y Castell, roedd Amgueddfa'r Ffiwsilwyr Cymreig wedi sefydlu Gardd Goffa dros dro gyda chymorth Cymdeithas y Cymrodyr lleol er budd y Lleng Brydeinig. Codwyd dros £57,000 ar gyfer Apêl y Pabi a gosodwyd dros 11,000 o groesau pabi pren i gynrychioli pobl o 53 gwlad o bob cwr o'r byd yn ogystal â chynrychioli credinwyr pob prif grefydd ac anghredinwyr. Agorwyd yr Ardd gan Arglwydd Raglaw Gwynedd i gyd-fynd ag Arddangosfa Mametz a digwyddiadau coffa Amgueddfa'r Ffiwsilwyr Cymreig.

Dywedodd Shirley Williams, Swyddog Addysg Amgueddfa'r Ffiwsilwyr Cymreig, *'Mae cael y Weeping Window yma yng Nghaernarfon wedi bod yn anhygoel. Mae'n symbol anhygoel o bwerus i gofio ac fe gafodd gryn argraff ar ymwelwyr, y gymuned a'r grwpiau ysgol yr ydw i wedi cynnal gweithgareddau cysylltiedig ar eu cyfer yn y Castell.'*

Rhagor o wybodaeth:
www.1418now.org.uk/commissions/poppies/about/



Pabis: *Weeping Window* gan yr artist Paul Cummins a'r dylunydd Tom Piper – Castell Caernarfon © 14-18 NOW

# MEWN UN DIWRNOD: WE'RE HERE BECAUSE WE'RE HERE

**Ar 1 Gorffennaf 2016, rhwng 7 y bore a 7 yr hwyr, gwisgodd dros 1,400 o wirfoddolwyr mewn iwnifform hanesyddol o gyfnod y Rhyfel Byd Cyntaf ac yna ymddangos yn annisgwyl mewn lleoliadau cyhoeddus ledled y Deyrnas Unedig, sef mewn gorsafoedd rheilffordd, canolfannau siopa, marchnadoedd a thraethau, gan gynnwys llawer yng Nghymru. Crëwyd y prosiect gan yr artist Jeremy Deller, enillydd Gwobr Turner, mewn cydweithrediad â Rufus Norris, Cyfarwyddwr y Theatr Genedlaethol yn Llundain. Llwyddodd *We're here because we're here* i gyrraedd dros 30 miliwn o bobl yn y Deyrnas Unedig mewn un diwrnod.**



Roedd y cyfranogwyr yn ein hatgoffa am y 19,240 o ddynion a laddwyd ar 1 Gorffennaf 1916, diwrnod cyntaf Brwydr y Somme, gyda phob cyfranogwr cyfoes yn cynrychioli milwr penodol. Rhoddwyd cardiau i aelodau'r cyhoedd yn nodi enw a chatrawd y milwr yr oeddent yn ei gynrychioli, ynghyd ag oedran y milwr (os oedd hynny'n hysbys) pan fu farw ar 1 Gorffennaf 1916. Er nad oeddent wedi siarad yn ystod eu hymddangosiad, bob yn hyn a hyn canai'r cyfranogwyr '*We're here because we're here*', cân a gâi ei chanu yn y ffosydd yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf.

Roedd y perfformiad cyhoeddus yn cynnwys dros 27 o sefydliadau gan gynnwys National Theatre Wales ac fe'i comisiynwyd yn arbennig gan 14-18 NOW, sef rhaglen gelf y Deyrnas Unedig ar gyfer Canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf.

Dywedodd Med Rendell, gwirfoddolwr yn Aberystwyth: '*Roedd yn brofiad na fyddaf byth yn ei anghofio. Roeddwn i'n teimlo mor agos at bobl eraill y diwrnod hwnnw, y bobl oedd yn cymryd rhan fel fi a'r cyhoedd. Dyma, i mi, oedd y ffordd bwysicaf i bwysleisio'n hollol glir faint o fywydau a gollwyd yn y Rhyfel Byd Cyntaf.*'

Rhagor o wybodaeth:
www.1418now.org.uk/commissions/were-here-because-were-here/

Ar y dde: 14-18 NOW - *We're here because we're here* gan Jeremy Deller a Rufus Norris, yr Wyddfa © Mark Douet

# N'AD FI'N ANGOF: CARDIAU POST Y RHYFEL BYD CYNTAF

**Roedd yr arddangosfa hon yn arddangos amrywiaeth o gardiau post o gasgliadau Amgueddfa Cymru, sef cardiau post a gafodd eu creu, eu hysgrifennu a'u hanfon yn ystod y Rhyfel. Daeth ysgrifennu ac anfon cardiau post yn ffordd bwysig i filwyr a'u teuluoedd gadw mewn cysylltiad. Roedd derbyn ychydig linellau o'r Ffrynt mor werthfawr ac yn codi morâl perthnasau pryderus gartref.**

Ar anterth y Rhyfel, yn syfrdanol roedd 19,000 o sachau post y dydd yn croesi'r Sianel i ardal y brwydro. Câi cardiau a llythyrau o'r ffrynt eu sensro er mwyn osgoi datgelu cyfrinachau milwrol. Byddai'r awdurdodau yn darllen dros 370,000 o eitemau post bob dydd.

Roedd y cardiau post yn yr arddangosfa yn dangos amrywiaeth y casgliad. Mae rhai yn gofroddion heb eu postio; mae gan eraill negeseuon ingol mewn llawysgrifen o'r rheng flaen. Cynigiai'r casgliad gipolwg i brofiadau bob dydd y dynion a'r menywod cyffredin yr oedd y Rhyfel wedi cyffwrdd â'u bywydau – o gardiau brodio wedi'u masgynhyrchu a'u hanfon o Ffrainc, i bortreadau ffotograffig o filwyr a lluniau sentimental o gariadon wedi'u gwahanu.

Wedi'u hysbrydoli gan y cardiau post a anfonwyd o'r galon yn ystod y Rhyfel, cynhaliodd Amgueddfa Genedlaethol y Glannau hefyd weithdai creadigol lle gallai pobl wneud eu cardiau eu hunain gan ddefnyddio technegau brodwaith neu liwio syml.

Uchaf ar y chwith: Cerdyn post o'r enw 'La Journee du Pas-de-Calais' sydd â darlun o ddau filwr mewn ffos ac un arall mewn byncer.

Uchaf ar y dde: Cerdyn post wedi'i frodio a anfonwyd at Doris Langdon o Sain Ffagan gan filwr yn gwasanaethu yn Ffrainc.

Isod ar y chwith: Cerdyn Post Gwasanaeth yn y Maes – wedi'i argraffu gyda negeseuon amlddewis a lle i'w lofnodi. Fe'i haddurnwyd â rhuban sidan coch, gwyn a glas.


Isod ar y dde: Cerdyn post o'r enw 'La Journee du Pas-de-Calais' sydd â darlun o ddau filwr, un mewn ffos a'r llall mewn byncer. Mae neges wedi'i hysgrifennu â llaw ar y cefn, gyda stamp chweochrog sensor arno. Fe'i hanfonwyd gan filwr yn Ffrainc at Miss Edith Smart, gwesty'r Heathcock, Llandaf, Caerdydd, ar 20 Awst 1916.

Pob delwedd © Amgueddfa Cymru








NOTHING is to be written on this side except the date and signature of the sender. Sentences not required may be erased. If anything else is added the post card will be destroyed.

[Postage must be prepaid on any letter or post card addressed to the sender of this card.]

I am quite well.

I have been admitted into hospital
{sick / wounded} and am going on well.
and hope to be discharged soon.

I am being sent down to the base.

I have received your {letter dated ___ / telegram " ___ / parcel " ___}

Letter follows at first opportunity.

I have received no letter from you
{lately. / for a long time.}

Signature only }

Date ___

(500) Wt. W1566/R1619. 000,000. 6/17. H. C. & L., Ltd.


(F93.16/2)

CARTE POSTALE

Correspondance | Adresse

Imp. Lafontaine. 27, Rue Froideveaux, Paris. Visa N° 131



(send a few cigs)

Dear Neil,
hoping to just a line in the very best of health. I am going on quite alright. I have no time to write a letter. This is a card I bought on Flag day in France. I am not having a bad time. I hope the biz. is going on alright. No more this time and love to all. x x x x x x x x

Miss Edith Smart
Heathcock Hotel
Llandaff
Cardiff
South Wales



# GOBAITH CANERI? MENYWOD Y MIWNISHONS

**Yn hydref 2016 cynhaliwyd arddangosfa yn Amgueddfa Genedlaethol y Glannau, Abertawe i olrhain hanes y menywod a gyflogwyd yn y ffatrïoedd arfau yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf. Rhoddwyd yr enw 'Menywod y Miwnishons' neu 'Ferched Caneri' arnynt, ac er bod eu gwaith yn galed a pheryglus, daeth hefyd â rhyddid newydd iddynt wrth gael gweithio tu allan i'r cartref a chymryd rhan mewn chwaraeon fel pêl-droed.**

Roedd y ddyletswydd i ymladd ar faes y gad wedi arwain at brinder yn nifer y dynion medrus oedd ar gael i weithio yn y ffatrïoedd ledled Prydain. Yn sgil hynny, aethpwyd ati i recriwtio menywod i weithio ym myd diwydiant; gan amlaf nid oedd y menywod hyn wedi gweithio cyn hynny, neu roeddent yn gweithio fel morwynion neu mewn swyddi isel nad oedd angen sgiliau.

Arweiniodd prinder arfau a'r Argyfwng Sieliau yn 1915 at greu adran newydd yn y Llywodraeth, a David Lloyd George oedd y Gweinidog Arfau cyntaf. Ef sy'n cael y clod am sicrhau bod mwy o arfau yn cael eu cyflenwi ar gyfer y Rhyfel.

Y ffatrïoedd arfau rhyfel oedd prif gyflogwr menywod ar y pryd, gyda'r diwydiant yn cyflogi dros 900,000 ohonynt. Er eu bod yn gwneud yr un gwaith â'r dynion, ac yn aml yn gweithio 12 awr ar y tro, dim ond hanner cyflog y dynion a gaent. Erbyn mis Mehefin 1917, roedd y ffatrïoedd a gyflogai fenywod yn cynhyrchu dros 50 miliwn o sieliau'r flwyddyn, ac erbyn diwedd y Rhyfel, roedd byddin Prydain wedi saethu tua 170 miliwn ohonynt.

Yn y Ffatri Ffrwydron Gwladol ym Mhen-bre ger Porth Tywyn, roedd y menywod yn gweithio gyda TNT, sy'n sylwedd gwenwynig iawn. Mae'n cynnwys asid picrig a oedd yn troi lliw croen y menywod yn felyn llachar, a hynny'n esbonio'r llysenw 'merched caneri' a roddwyd arnynt.

Yn ystod y Rhyfel hefyd dechreuodd menywod gymryd rhan mewn campau megis pêl-droed a chriced. Sefydlwyd timau pêl-droed mewn ffatrïoedd arfau ar hyd a lled Prydain a'r Llywodraeth yn annog hynny er lles eu hiechyd ac i'w helpu i gadw'n heini i weithio yn y ffatrïoedd.

Adroddwyd straeon personol rhai o'r menywod yn yr arddangosfa hon a deithiodd o amgylch rhai o safleoedd eraill Amgueddfa Cymru.

Cap ac oferôl cotwm trwm o ddeunydd caci a gâi eu gwisgo gan fenyw a weithiai mewn ffatri arfau. Y lleoliad a'r gwisgwr yn anhysbys.
Rhoddwyd i Amgueddfa Cymru yn 1919. © Amgueddfa Cymru

# Y CYSYLLTIAD ANARFEROL RHWNG IWERDDON A FRON-GOCH

**Ym mis Mehefin 1916 carcharwyd tua 1,800 o Wyddelod mewn gwersyll carcharorion yn Fron-goch ger y Bala, ar ôl cael eu dal gan Fyddin Prydain yn dilyn Gwrthryfel y Pasg. Roeddent yno tan fis Rhagfyr 1916 pan ddaeth David Lloyd George yn Brif Weinidog. Cyn hynny, roedd y gwersyll yn gartref i garcharorion rhyfel o'r Almaen.**

Trefnodd y carcharorion wersi ymysg ei gilydd ar hanes Iwerddon, a dysgu Gwyddeleg a'r Gymraeg, ynghyd â gwersi ar ymladd a milwriaeth, a daeth y gwersyll yn adnabyddus fel 'prifysgol y chwyldro'. Ar ôl cael eu rhyddhau, dychwelodd llawer o'r dynion adref yn benderfynol o ddod â rheolaeth Prydain yn Iwerddon i ben, gan roi rôl anarferol ond holl-bwysig i Fron-goch yn hanes Iwerddon, Cymru a Phrydain.

I nodi'r canmlwyddiant, cydweithiodd Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri â Phwyllgor Treftadaeth Fron-goch, Casgliad y Werin, Amgueddfa Genedlaethol Iwerddon a Llyfrgell Genedlaethol Iwerddon i ganfod, digideiddio a chyhoeddi deunydd yn ymwneud â'r carcharu. Roedd hyn yn cynnwys gosod paneli mewn tair iaith a defnyddio technoleg ddigidol Cultural Beacons. Yn ogystal, trefnodd Rhwydwaith Ymchwil Iwerddon-Cymru symposiwm academaidd dan y teitl *Ystyron Iwerddon a Chymru 1916* i archwilio arwyddocâd Fron-goch.

Bu disgyblion o Ysgol Bro Tryweryn (sydd wedi'i hadeiladu ar safle'r hen wersyll carcharorion) yn gweithio gyda'r bardd Myrddin ap Dafydd a'r cyfansoddwr Robat Arwyn i gyfansoddi cerddi a chaneuon yn dehongli straeon y carcharorion, gan eu perfformio mewn diwrnod agored a gynhaliwyd yn yr ysgol. Mynychwyd yr arddangosfa gan Lysgennad Iwerddon i'r Deyrnas Unedig ar y pryd, sef Daniel Mulhall, ac roedd hefyd yn gyfle i drigolion lleol a pherthnasau'r carcharorion o Iwerddon rannu eu gwybodaeth am y carcharu, a'i effaith bersonol a gwleidyddol, ymysg ei gilydd a chyda chenhedlaeth newydd.

Roedd Gŵyl Gregynog 2016: Éire yn coffáu'r carcharu, gyda'r cyfansoddwr Gwyddelig Sam Perkin wedi creu *Freakshow* ar gyfer Triawd Piano Fidelio, wedi'i ysbrydoli gan Syrcas y Llygod Mawr y mae Lyn Ebenezer yn ei disgrifio yn ei lyfr *Fron-Goch Camp 1916*. Cafodd *Freakshow* ei ddangos am y tro cyntaf yng Ngregynog ym Mehefin 2016 gyda'r perfformiad cyntaf yn Iwerddon yn Nulyn ym mis Rhagfyr 2016. Mae rhaglen ddogfen fach am *Freakshow* ar YouTube.

Rhaglen ddogfen *Freakshow*: www.youtube.com/watch?v=aqiYpZEbc-I
Casgliad y Werin: https://www.casgliadywerin.cymru/



Ar y dde: Perfformiad cyntaf *Freakshow* Sam Perkin yng Ngŵyl Gregynog gan Driawd Fidelio
© Gŵyl Gregynog

# Y Gwyliwr

*i Gwilym Williams*

Picsileiddir mil o fylchau
lle cwyd wynebau dan y don.

*Dringa haul dros fryniau*
*at groesbren ddu.*

*sy'n sgleinio dy lygaid*
*nôl mewn iddi,*

*gan anadlu trefi, pentrefi, dinasoedd;*
*galar a lynir â sment ar wal.*

*Pethau plufiog wedi'u gosod mewn corneli*
*yn syllu nôl arnom.*

*Mae dy gerddi'n adrodd*
*am dy gariad at y lonydd hyn:*

*briallu, mieri, cen,*
*mwsog, bedw'n prifio.*

*Wrth gerdded i'r ysgol,*
*carchar i grwt â phennau gliniau du*

*fe gnoaist ar bensil*
*nes i'r dannedd gwrdd â'r canol.*

*Yna daeth rhywbeth*
*i fritho'i uchelgais:*

*cyfryngu'r natur mewnol*
*drwy emyn a sgrifennwyd*

*gan dân, aelwyd, a golau.*
*Patrymau ar ddŵr*

*yn datgloi cyfaredd perthyn,*
*yn creu hafan mewn llyfrau.*

*Mae peiriant y galon yn dweud wrthym*
*fod mwy na hyn.*

*Ond os gallwn, dychwelwn*
*gan ymaflyd â'r hiraeth.*

*Gwewyr ein dynoliaeth,*
*ei sgerbwd allanol,*

*yn gwarthnodi ein byd,*
*drwy gecian gweddïau di-ri.*

Ac eto rwyt *ti*, *fi*, *nhw*, yn credu
mewn rhywbeth mwy:

Pan welaf athrofa y werin
yn uno fy nghenedl i gyd.

*Rhywbeth sydd tu hwnt i'r hunan*
*sy'n creu lle ar gyfer meddwl -*

*tu hwnt i'r caledwedd*
*sy'n britho ein ffurfafen.*

Ac mewn pentre,
mae menyw'n dweud wrth blentyn:

Gofynnodd am baraffîn
i drochi'r llau oedd dros ei gorff i gyd.

O dan helygen noethodd ei hun,
cyn y gellid ei gyffwrdd.

Nerys Williams
Cyfieithiad Cymraeg gan Ifor ap Glyn
Comisiynwyd gan Llenyddiaeth Cymru ar gyfer digwyddiad
Estyn yn Ddistaw, 2019 a ariannwyd gan Llywodraeth Cymru

# 2017

Roedd Trydedd Frwydr Ypres (Passchendaele) heb amheuaeth yn un o frwydrau gwaethaf y Rhyfel Byd Cyntaf, ac i Gymru cafwyd colled symbolaidd y bardd eiconig Hedd Wyn ar ddiwrnod cyntaf y brwydro. Yn 2017, cynhaliwyd gwasanaeth coffa mawr ar safle Cofeb y Cymry yn Langemark, Fflandrys i nodi'r canmlwyddiant. Yng Nghymru, ailagorwyd yr Ysgwrn, cartref Hedd Wyn, i'r cyhoedd yn dilyn rhaglen ailddatblygu mawr. Drwy gydol 2017, roedd llenyddiaeth yn nodwedd amlwg o'r coffáu, a digwyddiadau wedi'u cynnal mewn partneriaeth ag Iwerddon a Fflandrys.

Ar y dde: Yr Ysgwrn, adeilad rhestredig Gradd II* a adeiladwyd yn 1830 © Purcell UK





# CADW'R AELWYD, CADW'R COF

**Yn swatio ar lethrau Cwm Prysor ger Trawsfynydd yng nghanol Parc Cenedlaethol Eryri, mae'r Ysgwrn yn gofeb heddychlon i genhedlaeth o ddynion ifanc a gollwyd yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf. Mae'r Ysgwrn yn cynrychioli'r genhedlaeth honno a aeth i'w tynged yn ifanc, ond mae hefyd yn obaith am heddwch ac ewyllys da ac wedi esgor ar un o brif straeon diwylliant Cymru, sef stori Ellis Humphrey Evans, sy'n fwy adnabyddus fel Hedd Wyn, gan mai yma oedd fferm a chartref ei deulu.**

Lladdwyd Hedd Wyn ar ddiwrnod cyntaf Brwydr Passchendaele yn 1917, ychydig wythnosau yn unig cyn cyhoeddi ei fod wedi ennill uchelgais ei fywyd, a'r anrhydedd mwyaf a ddyfernir i feirdd Cymru, sef ennill Cadair yr Eisteddfod Genedlaethol, am ei gerdd 'Yr Arwr'. Roedd yn 30 oed. Yn y seremoni yn yr Eisteddfod ym Mhenbedw rhoddwyd gorchudd du dros ei gadair wag a'r enw arni ers hynny yw'r Gadair Ddu. Cadwyd y Gadair Ddu yn yr Ysgwrn ers 1917, ac nid yn unig y mae'n symbol o oferedd rhyfel, y mae hefyd yn symbol o'r holl gadeiriau gwag mewn cartrefi ledled Cymru yn dilyn y Rhyfel Byd Cyntaf.

Diogelwyd y stori gan deulu Hedd Wyn am dros ganrif. Yn y blynyddoedd yn dilyn ei farwolaeth, rhoesant groeso cynnes i ymwelwyr a oedd yn awyddus i weld y Gadair Ddu ac i weld bywyd y cartref a'r amgylchedd a ysbrydolodd ei farddoniaeth. Addewid a wnaeth dau nai Hedd Wyn, sef Ellis a Gerald Williams, i'w nain, mam y bardd, oedd y byddent yn parhau i gadw'r drws ar agor ac yn 2012, gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru a Chronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol, daeth Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn geidwad ar yr Ysgwrn. Mae'r Awdurdod yn parhau i weithio gyda Mr Gerald Williams i sicrhau bod y safle'n cael ei warchod a'i adfer yn sensitif er budd cenedlaethau'r dyfodol, gan barhau hefyd i fod yn fferm waith.

Cefnogwyd datblygiad £3.7m yr Ysgwrn gan Lywodraeth Cymru a Chronfa Goffa'r Dreftadaeth Genedlaethol gan ei gwblhau mewn pryd i gofio canmlwyddiant ei farwolaeth ym mis Gorffennaf 2017.

Aethpwyd ati'n sensitif i wneud y gwaith adnewyddu a newidiadau angenrheidiol (megis gosod dŵr, gwresogi a thrydan arbed ynni yn y ffermdy) heb danseilio'r agosatrwydd a geir yno nag amharu ar gasgliad dodrefn ac arteffactau'r teulu. Roedd cadw natur gartrefol y ffermdy yn holl bwysig: cadw'r rhes o hetiau yn hongian ar y trawstiau, y llythrennau wedi'u cerfio ar y fegin a'r llyfrau sydd ar yr aelwyd. Gellid yn rhwydd golli'r manylion annwyl hyn ac anodd iawn fyddai eu hadfer.

Syml fu'r driniaeth i rannau eraill yr adeiladau er mwyn dod â nhw'n ôl yn fyw ond yn cadw eu cymeriad a'u hadeiladwaith gwreiddiol. Mae'r dull hwn wedi'i gydbwyso â'r angen i roi'r profiad gorau posibl i ymwelwyr. Bellach mae llofft y ffermdy a'r adeiladau amaethyddol wedi eu troi yn fannau arddangos, a mynediad wedi'i sicrhau i bawb i bob rhan o'r adeiladau.

Mae'r Ysgwrn bellach yn amgueddfa achrededig ac yn atyniad ymwelwyr sydd wedi ennill sawl gwobr yn genedlaethol ac yn rhyngwladol. Gwaith oes oedd gofalu am yr Ysgwrn i deulu Hedd Wyn a braint i ni yw parhau i gadw'r drws ar agor.

Naomi Jones, Pennaeth Treftadaeth Ddiwylliannol, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Rhagor o wybodaeth: www.yrysgwrn.com/

'*Mae'n lle hynod ddiddorol i fynd i'w weld, ac yn brofiad ingol. Roedd y staff yn wybodus iawn ac yn hapus i ateb cwestiynau. Popeth yn hamddenol braf yno. Doedd dim byd yn ormod o drafferth. Gwych.'* (Dyfyniad ar wefan Tripadvisor)

Ar y chwith: Cegin yr Ysgwrn © Andrew Lee

# COFFÁU TRYDEDD FRWYDR YPRES (PASSCHENDAELE)

## Mewn Gwasanaeth Coffa Cenedlaethol rhoddwyd cyfle i Gymru gofio colledion Trydedd Frwydr Ypres (Passchendaele), pan laddwyd neu anafwyd 3,000 o ddynion. Cynhaliwyd y gwasanaeth ar 31 Gorffennaf 2017 ar safle Cofeb y Cymry yn Langemark, Fflandrys.

Roedd hyn yn nodi canmlwyddiant ymgyrch 38ain Adran (Gymreig) ym Mrwydr Crib Pilckem. Y dyddiad hwn hefyd oedd canmlwyddiant marwolaeth Hedd Wyn, a fu farw ger safle Cofeb y Cymry. Roedd y coffâd wedi dilyn gwasanaeth y Deyrnas Unedig ym mynwent Tyne Cot ac fe'i mynychwyd gan Ei Uchelder Brenhinol Tywysog Cymru, y Prif Weinidog ar y pryd y Gwir Anrhydeddus Carwyn Jones AS, Gweinidog-Arlywydd Fflandrys a phwysigion eraill o Wlad Belg, yr Almaen ac Iwerddon. Roedd dros 1,000 o aelodau'r cyhoedd yn bresennol, gan gynnwys llawer o bobl leol o Langemark.

Gosodwyd torchau wrth fedd Hedd Wyn yng Nghoedwig Artillery, ac wrth fedd Francis Ledwidge, y bardd Gwyddelig a fu farw ar yr un diwrnod.

Yn ystod y gwasanaeth darllenodd Chris Coleman, rheolwr tîm pêl-droed Cymru ar y pryd, addewid gan ddynion a menywod y byd chwaraeon yng Nghymru.

**In the name of the sportsmen and women of Wales,**
**From our different fields of play,**
**We remember those who toiled on these fields.**
**In the name of all who have struggled to compete against the elements**
**We remember those who endured the harsh wind and rain of these fields.**

**In the name of all those who have upheld the honour**
**And dignity of our nation on different fields,**
**In peace and in war,**
**We remember those who paid the ultimate sacrifice on these fields.**



**Remembering their suffering and sacrifice,**
**We pledge together as a modern and diverse nation**
**In life and in sport,**
**To honour them.**

*Gorau Chwarae Cydchwarae.*
Y Parchedig Ganon Aled Edwards OBE

Uchod: Gwasanaeth Passchendaele 2017 © Llywodraeth Cymru

# GWEITHDAI ADDYSGOL HEDD WYN

**Cydweithiodd Gwasanaeth Addysg Llyfrgell Genedlaethol Cymru gydag Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri i gynnal gweithdai i ddisgyblion ysgolion cynradd ar fywyd a gwaith Hedd Wyn.**

Cynhaliwyd y gweithdai yn yr Ysgwrn ac mewn ysgolion yng Nghilgwri a sawl lleoliad ar hyd y llwybr y cludwyd y Gadair Ddu ar ei thaith o'r Eisteddfod ym Mhenbedw i gartref y bardd yn Nhrawsfynydd. Roedd y gweithdai yn cynnwys llyfryn am ddim i bob disgybl ysgol a pherfformiad wedi'i gomisiynu yn arbennig am Hedd Wyn gan gwmni theatr Mewn Cymeriad / In Character. Cafwyd cefnogaeth gan Sefydliad ScottishPower i'r prosiect addysgol hwn.

Cynhaliwyd digwyddiadau ychwanegol yn Eisteddfod yr Urdd Pen-y-bont ar Ogwr lle arddangoswyd copi 3D o'r Gadair Ddu.

Ar y dde: Sioe Hedd Wyn gan Mewn Cymeriad, yr Ysgwrn, 2017 © Llyfrgell Genedlaethol Cymru







## ARDDANGOSFA A FFILMIAU DIFFODD YR AWEN

**Yn 2017, lluniodd Llyfrgell Genedlaethol Cymru arddangosfa *Diffodd yr Awen* ac ynddi cafwyd ffilmiau byrion Cymraeg a dwyieithog yn cyflwyno dehongliadau modern o gerddi Hedd Wyn ac Edward Thomas, sef dau fardd a fu farw yn y Rhyfel Byd Cyntaf.**

Dathlai'r arddangosfa eu bywydau, eu gwaith a'u hetifeddiaeth, yn ogystal ag arddangos llawysgrif wreiddiol awdl 'Yr Arwr' a enillodd y Gadair i Hedd Wyn. Edrychai'r arddangosfa ar effaith y rhyfel ar Edward Thomas trwy archwilio ei archif helaeth, a hwnnw'n cynnwys llythyrau a anfonodd at ei wraig, Helen, yn disgrifio bywyd ar y ffrynt, ynghyd â drafftiau o'i gerddi a'i ddyddiadur olaf un a oedd yn dal yn ei boced pan fu farw.

Ffilmiau Diffodd yr Awen: Hedd Wyn: www.youtube.com/watch?v=LKcUycZ3ciQ
Edward Thomas: www.youtube.com/watch?v=GZ-VJGrEjV4


Awdl Yr Arwr.
gan Ellis Evans (Hedd Wyn) Trawsfynydd

I

Yr Eneiniog

Wylo anniddig dwfn fy mlynyddoedd,
Aml gwewyr glywyd ar lwm greigleoedd,
Canys merch y drycinoedd – oeddwn gynt,
Gwyn ym mawrwynt ag oerni moroedd.

Dioer wylwn am na welwn f'anwylyd –
Tywysog meibion gwlad desog mebyd,
Pan nad oedd un henfyd hyd-ein dyddiau
Ac i'w rhuddem hafau cerddem hefyd.

Un hwyr pan heliodd niwl i'r pantylau,
Rwydi o wead dieithr y duwiau,
Mi wybûm weld y mab mau yn troi'n rhydd
O hen fagwyrydd dedwydd ei dadau.

Y llanc a welwn trwy'r gwyll yn cilio,
I ddeildre hudol werdd Eldorado
Oll ol bu'r coed yn wylo; a hentydd
Yn rhawch annedwydd yn ucheneidio.

# DIGIDEIDDIO AWDL HEDD WYN 'YR ARWR'

**Yn deyrnged addas i Hedd Wyn, aeth Llyfrgell Genedlaethol Cymru ati i greu ffacsimili o lawysgrif wreiddiol awdl 'Yr Arwr', sef yr un yr anfonodd y bardd i'r Eisteddfod o bentref Fléchin yng ngogledd Ffrainc ym mis Gorffennaf 1917, a hynny dan y ffugenw 'Fleur-de-lis'. Mae'n cynnwys nodiadau, sylwadau a chywiriadau'r beirniaid ar ymyl y tudalennau.**

Roedd creu'r ffacsimili yn gyfuniad o dechnoleg fodern a sgiliau traddodiadol. Wedi i staff digideiddio'r Llyfrgell greu delweddau cydraniad uchel, aeth y tîm cadwraeth ati i dorri a gorffen yr eitem, ac ail-greu pob difrod, twll a chrych er mwyn i'r copi edrych yn union fel y gwreiddiol.

Teithiodd y ffacsimili i ysgolion ar draws gogledd Cymru yn ogystal ag i Benbedw.

Gellir gweld y copi digidol ar-lein: cymru1914.org

Ar y chwith: 'Yr Arwr' gan Hedd Wyn, Llyfrgell Genedlaethol Cymru
© Yr Eisteddfod Genedlaethol

# Y GADAIR WAG: COFFÁU DRWY FARDDONIAETH GREADIGOL

**Sioe farddoniaeth amlgyfrwng gan Ifor ap Glyn, Bardd Cenedlaethol Cymru oedd *Y Gadair Wag*. Darluniai hanes Hedd Wyn, Bardd y Gadair Ddu, gan archwilio natur colled, ffiniau a hunaniaeth.**

Cyflwynwyd y sioe gan Llenyddiaeth Cymru ac fe'i hariannwyd gan *Cymru'n Cofio* Wales Remembers 1914-1918. Bu ar daith yn gyntaf yn 2017, sef 100 mlynedd union ers Trydedd Frwydr Ypres (Passchendaele). Bu farw miloedd o filwyr o Gymru yn y frwydr honno gan gynnwys Hedd Wyn, a hynny cyn iddo glywed ei fod wedi ennill Cadair Eisteddfod Genedlaethol Penbedw. Noddwyd ail daith yn 2019 gan yr Ysgwrn a *Cymru'n Cofio* Wales Remembers 1914-1918, mewn partneriaeth â Chanolfan S4C Yr Egin.


Ifor ap Glyn oedd yn perfformio'r sioe, Ian Rowlands yn ei chyfarwyddo, a'r gelf ddigidol gan Jason Lye-Phillips. Defnyddiwyd ffilm a thechnegau arbrofol i ddod â lleisiau a delweddau i'r llwyfan yn effeithiol.


Ymwelwyd ag 11 lleoliad yng Nghymru, dau yn Iwerddon ac un yn Llundain, a pherfformiwyd y sioe i dros 1,200 o bobl.

*'Gwledd i'r llygad a'r glust! Perfformiad ddaeth â mawredd bywyd a gwaith Hedd Wyn yn fyw i ddisgyblion y chweched dosbarth – a hynny ar nos Wener!'* Pennaeth Cyfadran Ieithoedd, Ysgol Brynrefail, Llanrug

Isod ar y chwith: Bardd Cenedlaethol Cymru Ifor ap Glyn yn perfformio yn sioe *Y Gadair Wag* © Keith O'Brien

Isod ar y dde: *Y Gadair Wag* (y bardd Sian Northey sydd yn y llun) © Keith O'Brien





# BARDDONIAETH COLLED

**Roedd *Cymru'n Cofio* Wales Remembers 1914-1918 wedi comisiynu Llenyddiaeth Cymru i gynnal cyfres o ddigwyddiadau coffa yng Nghymru, Fflandrys ac Iwerddon. Bu cyfnewidfa breswyl ar gyfer awduron, a'r bardd Nerys Williams wedi treulio cyfnod yn Passa Porta (tŷ rhyngwladol llenyddiaeth ym Mrwsel), a'r awdur o Antwerp, Peter Theunynck wedi bod yng Nghanolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd yng Ngwynedd.**





Cafwyd noson o farddoniaeth, cerddoriaeth a thrafodaeth yn Passa Porta gyda beirdd a cherddorion o Gymru a Fflandrys. Comisiynwyd Ifor ap Glyn, Bardd Cenedlaethol Cymru i ysgrifennu sioe farddoniaeth amlgyfrwng ac aeth *Y Gadair Wag* ar daith o amgylch Cymru ac Iwerddon. Cynhaliwyd noson farddoniaeth hefyd yn Nulyn yn ogystal â gweithdy ar gyfer disgyblion ysgolion uwchradd dwyrain Dulyn.

Daeth dirprwyaeth o Senedd Fflandrys dan arweiniad eu Llefarydd, Jan Peumans, hefyd i ymweld â Chymru. Cynhaliwyd digwyddiad coffa yn y Senedd yng Nghaerdydd, a chyfnewidwyd rhoddion. Cyflwynodd y Llywydd a'r Gweinidog dros Ddiwylliant, Twristiaeth a Chwaraeon baentiad i bobl Fflandrys gan yr arlunydd Cymraeg enwog Osi Rhys Osmond o'r enw 'Chinook' o'i gyfres Hawk and Helicopter 2010, a chyflwynodd Llefarydd Senedd Fflandrys yntau gadair a ddyluniwyd gan fyfyrwyr coleg prifysgol Thomas More i'r Cymry.

Trefnodd Prifysgol Caerdydd symposiwm ar yr hanes yr oedd Cymru a Fflandrys yn ei rannu yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf yn Adeilad Pierhead, Bae Caerdydd. Agorwyd y symposiwm gan Lywydd y Cynulliad a Llefarydd Senedd Fflandrys.

Mae'r gadair a ddyluniwyd gan y myfyrwyr yn eistedd ar ben plinth wedi'i weithgynhyrchu gan Simon O'Rourke Ltd, ac wedi'i wneud o bren coeden dderw o'r Ysgwrn.

Isod ar y chwith: Noson Barddoniaeth Colled yn Passa Porta, Brwsel gyda Nerys Williams, Patrick McGuinness, Bardd Cenedlaethol Cymru Ifor ap Glyn, Geert Buelens a Phrif Weithredwr Llenyddiaeth Cymru Lleucu Siencyn © Llenyddiaeth Cymru / Geoffrey Fritsch Photographie

Uchod ar y chwith: Paentiad y 'Chinook' wedi'i arddangos yn y digwyddiad yn y Senedd © Llenyddiaeth Cymru / Geoffrey Fritsch Photographie

# ADFER CASGLIAD EDWARD THOMAS

**Canolbwyntiodd Archifau a Chasgliadau Arbennig Prifysgol Caerdydd ar y bardd Edward Thomas, a fu farw ym Mrwydr Arras yn 1917. Rhoddwyd sylw i'w casgliad o'i bapurau, a chynhaliwyd cynhadledd ac arddangosfa ryngwladol a oedd yn cynnwys rhai o lyfrau nodiadau gwerthfawr Edward, a hwythau cyn hynny wedi bod yn rhy fregus i'w trin.**

Cafodd y llyfrau nodiadau eu hatgyweirio a'u hadfer gan Archifau Morgannwg yn sgil arian gan Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cadwraeth Llawysgrifau. Denodd yr arddangosfa gyhoeddusrwydd cenedlaethol, a chyfwelwyd staff yr archif gan Wales Arts Review a'r BBC, ochr yn ochr ag academyddion ac awduron cyfoes blaenllaw y dylanwadwyd arnynt gan waith Thomas, gan gynnwys Gwyneth Lewis, Bardd Cenedlaethol cyntaf Cymru.

Cynhaliodd yr adran Archifau a Chasgliadau Arbennig ddigwyddiadau oddi ar y safle gan gynnwys gweithdy ysgrifennu creadigol, sesiwn darllen barddoniaeth meic agored, ac arddangosfa dros-dro gyda chyllid gan Llenyddiaeth Cymru. Cynorthwyodd â modiwl Llenyddiaeth Saesneg newydd ar archifau llenyddol, a'r myfyrwyr wedi creu ffilmiau byrion yn seiliedig ar ddeunydd yn y casgliad. Datblygodd staff becynnau adnoddau addysgu ar themâu penodol ar gyfer ysgolion, a chynnal gweithdai archifau gyda Llenyddiaeth Cymru i ddisgyblion Cyfnod Allweddol 4 o Ysgol Fitzalan Caerdydd. Lluniodd y disgyblion gyflwyniadau grŵp, a'u cyflwyno gydag archifydd mewn digwyddiad cyhoeddus yn y Senedd.



Ar y dde: Y bardd rhyfel Edward Thomas © Archifau a Chasgliadau Arbennig Prifysgol Caerdydd

# PABIS: WEEPING WINDOW YN Y SENEDD

**Anrhydedd i'r Senedd oedd cael arddangos y gosodwaith pabis eiconig, sef Pabis: *Weeping Window* gan yr artist Paul Cummins MBE a'r dylunydd Tom Piper MBE, rhwng 8 Awst a 24 Medi 2017. Roedd hyn yr un pryd â chanmlwyddiant Brwydr Passchendaele lle collodd nifer o Gymry eu bywydau. Yn ystod y saith wythnos hyn ymwelodd dros 49,000 o bobl â'r Senedd i weld y rhaeadr o babïau seramig, y miloedd ohonynt wedi'u gwneud â llaw. Roedd y gosodwaith cyn hynny wedi bod yng Nghastell Caernarfon (gweler tudalen 56) yn 2016.**

Ynghyd â gosodwaith y *Weeping Window*, trefnodd y Senedd weithgareddau ychwanegol mewn partneriaeth â Chanolfan Materion Rhyngwladol Cymru a'u rhaglen Cymru dros Heddwch, gan gynnwys rhaglen allgymorth i ysgolion ac i'r cyhoedd.

Yn y Senedd hefyd y cynhaliwyd yr arddangosfa hynod deimladwy *Merched, Rhyfel a Heddwch* gan Ganolfan Materion Rhyngwladol Cymru, gyda'r newyddiadurwr lluniau enwog Lee Karen Stow. Roedd yr arddangosfa yn cynnwys portreadau a gomisiynwyd yn arbennig yn adrodd straeon menywod o Gymru yr oedd y Rhyfel wedi effeithio arnynt.

Mae dyfyniadau gan y rhai a ddaeth i weld y gosodwaith yn cynnwys:

*'Mae bron yn teimlo fel petai'r cerflun yn dod o'r nefoedd ei hun trwy'r Cynulliad ac allan eto.'*

*'Mae celf yn ffordd mor bwerus a chadarnhaol i egluro i'r cenedlaethau iau beth ddigwyddodd.'*

Ar y dde: Arddangosfa'r Pabis: *Weeping Window* yn y Senedd ym mis Awst a Medi 2017 © Cynulliad Cenedlaethol Cymru





# Y DIWYDIANT GWLÂN DAN GWMWL DU

**Datblygodd yr Amgueddfa Wlân Genedlaethol arddangosfa deithiol a oedd yn canolbwyntio ar hynt a helynt y diwydiant gwlân ac effaith gwisg Gymreig ar y Corfflu Cymreig newydd, y disgwylid iddo recriwtio hyd at 50,000 o ddynion.**

Gan fod prinder affwysol o ddillad iwnifform i filwyr Byddin Prydain yn niwedd 1914, penderfynwyd atgyfnerthu hunaniaeth genedlaethol y Corfflu Cymreig drwy agor tendr i felinau gwlân Cymru am lifrai o 'Frethyn Llwyd' traddodiadol er mwyn creu iwnifform newydd.

Roedd dirfawr angen y contractau hyn ar wneuthurwyr gwlân Cymru gan fod y diwydiant yn dirywio oherwydd anfodlonrwydd gweithwyr a chystadleuaeth gan felinau mwy o faint yng ngogledd Lloegr. Ond roedd problemau cynnar yn y cyflenwadau; rhaid oedd anfon y lliain Cymreig i Fryste i'w orffen cyn ei anfon yn ôl i Gaerdydd, a hyn oll wedi ychwanegu at y gost a'r amser i lunio'r wisg gyflawn, yn enwedig o'i chymharu â deunydd caci rhatach.

Oherwydd y gost ychwanegol, a'r diffyg capasiti ar y dechrau i gyflenwi digon ohonynt, roedd y contractau i wneuthurwyr gwlân Cymru yn llawer llai na'r disgwyl, yn gyfanswm o ddim ond 8,440 o wisgoedd iwnifform, er bod perchnogion y melinau wedi buddsoddi mewn offer newydd gan ragweld archebion mwy o faint.

Archwiliai'r arddangosfa hon gyfyng gyngor y melinau gwlân wrth chwilio am gontractau yn ystod y rhyfel i gadw'r melinau ar agor, a'r defnydd o hunaniaeth genedlaethol Gymreig wrth recriwtio.

Ar y chwith: Milwyr, ac yn eu plith mae David Emlyn Jones, gwehydd ym Melin yr Ogof Cwmpengraig a laddwyd yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf © Amgueddfa Cymru

# COFIO’R PLISMYN YN Y RHYFEL

**Yn 2014 dechreuodd heddlu De Cymru brosiect i gofio plismyn o luoedd y gorffennol ym Morgannwg, Caerdydd, Abertawe, Merthyr a Chastell-nedd a oedd wedi gwasanaethu yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf.**

Ers hynny mae naw llyfryn wedi’u cynhyrchu yn adrodd eu straeon. Yn ogystal, crëwyd dwy arddangosfa barhaol yn y Ganolfan Dreftadaeth ym Mhencadlys yr Heddlu ym Mhen-y-bont ar Ogwr.

Mae un yn canolbwyntio ar yr heddlu a’r Rhyfel yn gyffredinol. Mae’r llall yn cynnwys eitemau sy’n gysylltiedig â Richard (Dick) Thomas. Hanai’r heddwas hwn o Forgannwg a chwaraeai rygbi yn rhyngwladol dros Gymru, ac fe’i lladdwyd yng Nghoedwig Mametz ym mis Gorffennaf 1916.

Yn ogystal, cynhaliwyd arddangosfa hynod lwyddiannus, wedi’i gweld gan dros 100,000 o bobl, yn Amgueddfa’r Firing Line yng Nghastell Caerdydd yn ystod 2017 a 2018. Roedd hon yn ymwneud ag Ernest Rollings, heddwas yng Nghastell-nedd. Bu ef yn rhan o ymosodiad ar bencadlys Almaenig yn Framerville yn Ffrainc gan ganfod dogfennau cyfrinachol yr Almaen. Dywedwyd bod y rhain mor bwysig fel eu bod wedi cyflymu diwedd y Rhyfel.




Ar y dde: Arddangosfa *Ernest Rollings* yn Amgueddfa’r Firing Line Castell Caerdydd
© Heddlu De Cymru

# Arwyr

## Er cof am Ellis H. Evans (1887-1917), y bugeilfardd Hedd Wyn

Amser maith yn ôl,
a hynny cyn fy ngeni,
adroddwyd hanes brenin mawr
o'r enw Kuva Likenye.

Gyda dagrau yn ei lygaid,
ymbiliodd Kuva ar ysbrydion ei hynafiaid
fe glywson nhwthau ei lais,
ei alarnadu,
a daethant ato dan ganu:

"Mae'r djembe'n diasbedain
a'r gong rhyfel yn atseinio
yn datgan argoelion drwg.

Blant Rhyfel, ystyriwch ei neges,
mae amser ymladd wedi dod,
cyfarfyddwn yn ymyl y ffin."

Gyda'r ysbrydion, fe gododd Kuva fur, neu kortoh;
tu draw i'r kortoh,
chwyrnai peiriant rhyfel yr Almaen.

Amser maith yn ôl,
cyn i awel y bore gusanu 'ngwyneb,
ymladdwyd rhyfel mewn gwlad bell.
Ac yr oedd (chwedl Owen), yn

"dywyll drwy'r cwareli niwlog
a'r golau trwchus gwyrdd
megis islaw môr o wyrdd"

Ac yn enw'r "old lie"
yn eu miloedd buont farw

A Hedd Wyn a aeth,
ar siwrnai ddi-droi'n-ôl.

Tu hwnt i'r gorwel,
crynai bechgyn
a merched ifainc,
rhag yr hyn allai ddod
o ochr draw'r mur.

Roedd mamau mewn sachliain
yn symud wysg eu cefnau
gan godi casys bwledi gwag.

Yn y frwydr hon,
yn y Rhyfel Mawr hwn,
dim ond cynrhon sydd ar eu hennill.

Amser maith yn ôl,
adroddwyd chwedlau am filwyr meirw
a gladdwyd mewn gwledydd pellennig
a'u heneidiau ar dramp,
yn crefu am un daith olaf adre;
bu Hedd Wyn yno,
ar goll.

Cafwyd hyd iddynt gyda'r wawr, yn farw,
eu cyrff ar wasgar yma ac acw,
a thyllau yn eu helmedau;

un milwr, â'i lygaid ar agor,
fel petai'n olrhain ei angau ei hun -
roedd llythyr yn ei law dde.

Eric Ngalle Charles

Cyfieithiad Cymraeg gan Ifor ap Glyn
Comisiynwyd gan Llenyddiaeth Cymru ar gyfer digwyddiad
Estyn yn Ddistaw, 2019 a ariannwyd gan Llywodraeth Cymru

# 2018

Yn 2018, aeth pwyslais y coffáu at flwyddyn olaf y rhyfel ac yn benodol y Cadoediad ar ddiwedd y brwydro. Gan ymuno â gweddill y DU, ein Gwasanaeth Cenedlaethol yn Eglwys Gadeiriol Llandaf ar 11 Tachwedd oedd conglfaen y coffáu yn ystod y diwrnod.  Roedd y gweithgareddau eraill yn parhau gydol y flwyddyn, gan gynnwys arddangosfeydd, digwyddiadau artistig, a gwaith ymchwil, gan ychwanegu at ein dealltwriaeth a chynnig ffyrdd newydd o goffáu.

Ar y dde: Eglwys Gadeiriol Llandaf, Caerdydd © Croeso Cymru





# CANRIF ERS Y CADOEDIAD

**Roedd dydd Sul 11 Tachwedd 2018 yn nodi canmlwyddiant diwedd y Rhyfel Byd Cyntaf ac felly dyma ddyddiad allweddol yn rhaglen *Cymru'n Cofio* Wales Remembers 1914-1918.**

Mae Dydd y Cofio yn coffáu'r cadoediad a lofnodwyd rhwng Lluoedd y Cynghreiriaid a'r Almaen ac a ddaeth i rym ar yr 'unfed awr ar ddeg ar yr unfed diwrnod ar ddeg ar yr unfed mis ar ddeg' yn 1918. Daethpwyd i gytundeb heddwch ffurfiol pan lofnodwyd Cytundeb Versailles y flwyddyn ganlynol.

Yn 2018 arweiniwyd y diwrnod hwn o fyfyrio a chofio gan y Gwir Anrhydeddus Carwyn Jones AS, Prif Weinidog Cymru ar y pryd. Dechreuodd ef y diwrnod trwy fynychu'r Gwasanaeth Coffa Cenedlaethol wrth Gofeb Ryfel Genedlaethol Cymru lle gosododd dorch ar ran pobl Cymru er cof am bawb a gollodd eu bywydau yn ystod y ddau Ryfel Byd ac ym mhob gwrthdaro wedi hynny.

Yn ddiweddarach yn y dydd, ymunwyd ag ef gan uwch arweinwyr dinesig, gwleidyddol a milwrol, a chynrychiolwyr ffydd o bob rhan o Gymru mewn Gwasanaeth Diolchgarwch Cenedlaethol a gynhaliwyd yn Eglwys Gadeiriol Llandaf. Mynychwyd y gwasanaeth hwn hefyd gan Eu Huchelderau Brenhinol Iarll ac Iarlles Wessex. Roedd gwasanaeth Cymru yn un o bedwar gwasanaeth o'r fath a gynhaliwyd ledled y Deyrnas Unedig ar brynhawn 11 Tachwedd ac fe'i darlledwyd yn fyw ar deledu a radio BBC Cymru ac S4C.

Roedd y gwasanaeth hwn yn gyfle i bawb a oedd wedi chwarae rhan yn rhaglen *Cymru'n Cofio* Wales Remembers 1914-1918 i ddod ynghyd, i ddiolch ac i fyfyrio ar aberth pob un a gollodd eu bywydau neu a gollodd anwyliaid, gartref neu dramor, yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf.

Yn ystod y gwasanaeth darllenodd Mari Wyn Jones, myfyrwraig o Ysgol Maes Garmon yr Wyddgrug, y gerdd a ysgrifennwyd yn arbennig ganddi ar gyfer yr achlysur ('Yr Enaid Byw' / 'My Living Soul'). Dewiswyd cerdd Mari i gynrychioli Cymru mewn cystadleuaeth gan yr elusen Brydeinig Never Such Innocence a ddechreuodd fel prosiect celf i goffa'r Rhyfel Byd Cyntaf a rhoi llais i blant a phobl ifanc ar ryfel a gwrthdaro. (Mae'r gerdd wedi'i chynnwys ar ddiwedd y bennod.)

Cludwyd baneri'r Lleng Brydeinig Frenhinol yng ngorymdaith *Llyfr Cofio Cenedlaethol Cymru* at Allor y Drymiau. Mae *Llyfr Cofio Cenedlaethol* y Rhyfel Byd Cyntaf yn cynnwys enwau 35,000 o filwyr a gollodd eu bywydau yn y rhyfel hwnnw, yn ddynion a menywod, ynghyd ag aelodau o Gatrodau Cymru. Daethpwyd â'r Llyfr o'i gartref yn y Deml Heddwch yng Nghaerdydd i Landaf ac mae'n atgof ingol am bawb a gollodd eu bywydau er mwyn i ni fedru byw mewn heddwch.

Cyhoeddwyd Neges Heddwch ac Ewyllys Da pobl ifanc Cymru gan Nia Haf ac Ethan Williams o Urdd Gobaith Cymru, y mudiad ieuenctid Cymraeg. Offrymwyd gweddïau gan gynrychiolwyr Fforwm Cymunedau Ffydd Cymru a'r weddi olaf oedd Gweddi Heddwch wedi'i thraddodi yn Almaeneg gan Annette Despres o Eglwys Lutheraidd De a Gorllewin Cymru.

Yn dilyn canu anthemau cenedlaethol, daeth y Gwasanaeth Diolchgarwch i ben ar ôl i Brif Weinidog Cymru ar y pryd ddarllen darn o araith a roddwyd gan y Prif Weinidog David Lloyd George ar 23 Tachwedd 1918 pan gyfeiriodd at ei dasg allweddol o 'wneud Prydain yn wlad addas i arwyr fyw ynddi'.

Canodd clychau'r Eglwys Gadeiriol i nodi canmlwyddiant Cadoediad 1918.

Ar y chwith: Gwasanaeth Diolchgarwch, Eglwys Gadeiriol Llandaf, Caerdydd, Dydd y Cadoediad 2018 © Llywodraeth Cymru



# TUDALENNAU'R MÔR

**Roedd *Tudalennau'r Môr* yn brosiect celf gyhoeddus wedi'i guradu gan y gwneuthurwr ffilmiau sydd wedi ennill Oscar, Danny Boyle, a hynny ar gyfer 14-18 NOW, sef rhaglen gelf y Deyrnas Unedig ar gyfer canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf. Yn y prosiect hwn lluniwyd dwsinau o bortreadau mawr o unigolion o'r Rhyfel ar draethau yn y Deyrnas Unedig ac yn Iwerddon. Yng Nghymru, crëwyd portreadau ym Mae Colwyn, Ynyslas yng Ngheredigion, Freshwater West yn Sir Benfro, a Bae Abertawe. Roedd aelodau'r cyhoedd hefyd yn gallu defnyddio templedi stensil parod i greu portreadau o nyrsys, milwyr a gweithwyr arfau rhyfel.**

Ymgasglodd pobl ar y traethau i roi diolch symbolaidd ac i ffarwelio â'r miliynau o ddynion a menywod a adawodd ein glannau byth i ddychwelyd neu a laddwyd neu a anafwyd ym Mhrydain ei hun.

Dyma'r portreadau a wnaed yng Nghymru:

Ellis Humphrey Evans (Hedd Wyn) – a laddwyd ar ddiwrnod cyntaf Brwydr Passchendaele ar 31 Gorffennaf 1917.

Richard Davies, o'r Borth – Llyngheswr Brenhinol wrth gefn ar y llong breifat *Evangel* a ddefnyddiwyd at ddibenion milwrol; suddodd yn 1917 ger Aberdaugleddau ar ôl taro ffrwydryn wedi'i adael gan long danfor Almaenig.

Dorothy Mary Watson, Abertawe – gweithiai Dorothy mewn ffatri gwneud arfau rhyfel yn Llanelli pan laddwyd hi gan ffrwydryn yn 17 oed yn 1917.

Yr Uwchgapten Charles Alan Smith Morris, o Ben-y-bont ar Ogwr a Phorthcawl – gan ei fod ar goll yn dilyn brwydr ar Ffrynt y Gorllewin yn 1917 tybiwyd ei fod wedi marw; daethpwyd i ddeall yn ddiweddarach iddo gael ei ddal gan Fyddin yr Almaen, er iddo farw yn ddiweddarach o'r dwymyn.

Rhagor o wybodaeth: www.pagesofthesea.org.uk

Ar y chwith: *Tudalennau'r Môr* gan Danny Boyle, Bae Colwyn, 14-18 NOW © Andy Sayle


y LLONGWR
Rhwng
UC65
MISS
Ellen

# PROSIECT LLONGAU-U 1914-18: COFFÁU’R RHYFEL AR Y MÔR

**Roedd *Prosiect Llongau-U 1914-1918: Coffáu’r Rhyfel ar y Môr* yn bartneriaeth dwy flynedd a gefnogwyd gan Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol, Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru, Prifysgol Bangor a’r Gymdeithas Archaeoleg Forwrol.**

Roedd y prosiect wedi cysylltu cymunedau Cymru â hanes y rhyfel ar yr arfordir trwy greu delweddau arloesol o weddillion 17 o longau môr Prydeinig sy’n gorwedd ar wely’r môr oddi ar arfordir Cymru, sef llongau wedi’u suddo gan longau-U yn y Rhyfel Byd Cyntaf. Roedd y prosiect yn adrodd y straeon sydd wedi’u hanghofio am y bobl oedd yn gysylltiedig â nhw, gan gyfrannu at faes na fu digon o ymchwil iddo cyn hyn.

Cynhaliodd y Ganolfan Gwyddorau Môr Cymhwysol ym Mhrifysgol Bangor arolwg geoffisegol o’r môr a chasglwyd data cydraniad uchel ar yr 17 llongddrylliad. Roedd gwaith arolwg ychwanegol gyda’r Gymdeithas Archaeoleg Forwrol yn cynnwys lluniau fideo o dan y dŵr o bump o’r llongddrylliadau, ac yna cyfunwyd y rhain â data arall i greu modelau digidol rhyngweithredol 3D i’w defnyddio ar y wefan ac mewn arddangosfa deithiol.

Aeth yr arddangosfa ar daith i 18 amgueddfa forwrol yng Nghymru yn 2018 a 2019. Cynhaliodd pob un o’r amgueddfeydd hyn raglen o ddigwyddiadau cymunedol i ymgysylltu â phobl o bob oed a chefndir gan fynd ati i archwilio, datgelu ac adrodd straeon y bobl a wasanaethodd ar y 17 llong, yn ogystal â’r rheini yr effeithiwyd arnynt yn sgil suddo’r llongau. Cydweithiwyd â 21 o bartneriaid cymunedol ledled Cymru, gyda llawer ohonynt yn canolbwyntio ar gynnal gweithgareddau ymgysylltu ac allgymorth trwy’r celfyddydau, a hwy oedd yn penderfynu ar y gweithgaredd perthnasol.

Cyfrannwyd bron i 2,000 o ddiwrnodau gwirfoddolwyr at y prosiect, ac yn ogystal â bod yn rhan o raglen *Cymru’n Cofio* Wales Remembers 1914-1918 roedd hefyd yn rhan o ddathliadau Blwyddyn y Môr 2018 yng Nghymru. Yn ogystal, cynhaliwyd cynhadledd ddeuddydd ym mis Tachwedd 2018 i arddangos a thrafod ymchwil y prosiect.

Gweler: www.prosiectllongauu.cymru



Ar y chwith: Aeth clwb ‘Criw Celf’ ati i gynllunio a chreu gosodwaith ar gyfer arddangosfa yn Storiel, Bangor. Dan arweiniad yr artist Tess Urbanska, roedd y gosodwaith yn coffáu’r llongau a gollwyd ar y môr o amgylch arfordir Gwynedd oherwydd llongau-U yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf. Llong ysbrydion oedd y gosodwaith, ynghyd â photeli ac ynddynt negeseuon yn cynrychioli’r môr a’r bywydau a gollwyd. Crëwyd y gosodwaith gan dîm o dair merch yn eu harddegau. © Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru

Ar y dde: Yn y darn hwn gwelir darnau o Efengyl Sant Ioan (a roddwyd i filwyr yn y Rhyfel Byd Cyntaf) yn arnofio gydag olew a gwaed yn nŵr y môr. © Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru



# NAWR YR ARWR / NOW THE HERO – THEATR YMDROCHOL YN ABERTAWE



**Roedd *Nawr yr Arwr l Now the Hero* yn gynhyrchiad theatr ymdrochol a lwyfannwyd yn Abertawe yn 2018. Yn cymryd rhan ynddo roedd 228 o artistiaid, 137 o berfformwyr cymunedol, dros 300 o wirfoddolwyr, a 25 o bartneriaid cyflwyno. Denwyd 18,000 o ymwelwyr i'w berfformiadau ac i Nawr am Fwy, sef gŵyl fach o ddigwyddiadau diwylliannol a gynhaliwyd ochr yn ochr â'r cynhyrchiad. Roedd y cynhyrchiad hefyd yn rhan o raglen 14-18 NOW y Deyrnas Unedig ac yn ddigwyddiad agoriadol Gŵyl Ryngwladol Abertawe 2018.**

Crëwyd *Nawr yr Arwr \ Now the Hero* gan Marc Rees, a daeth yr ysbrydoliaeth ar ei gyfer o sawl ffynhonnell gan gynnwys y gerdd ganoloesol 'Y Gododdin' a Phaneli'r Ymerodraeth Brydeinig, sef cyfres o baentiadau gan Frank Brangwyn a luniwyd yn wreiddiol ar gyfer Tŷ'r Arglwyddi i anrhydeddu meirwon y Rhyfel Byd Cyntaf ac sydd bellach wedi'u harddangos yn Neuadd Brangwyn yn Abertawe. Roedd y cynhyrchiad amlddisgyblaethol, aml-synhwyraidd ac aml-leoliad hwn wedi archwilio taith epig a oedd yn cysylltu hanes y Celtiaid, y Rhyfel Byd Cyntaf a gwrthdaro yn yr 21ain ganrif, gan symud o draeth Bae Abertawe i Neuadd Brangwyn. Trwy gydol y cynhyrchiad cafwyd naratif am ryfel a heddwch.

Uchod ac ar y chwith: *Nawr yr Arwr \ Now the Hero,* rhan o 14-18 NOW, Abertawe © Warren Orchard

Roedd y sgôr gerddorol yn cynnwys libreto gan Owen Sheers wedi'i ganu gan y côr byd-enwog Polyphony wrth iddynt berfformio yng Nghymru ac yn Gymraeg am y tro cyntaf. Yn ogystal, crëwyd GRAFT gan yr artist Owen Griffiths, sef gardd a gweithdy cymunedol newydd yn Amgueddfa Genedlaethol y Glannau lle tyfwyd y planhigion bwytadwy a ddarlunnir yn y paneli ac a gafodd eu gweini mewn cawl i'r gynulleidfa.

Rhagor o wybodaeth: www.nawryrarwr.cymru

Dyfyniadau gan rai a gymerodd ran yn y cynhyrchiad:

*'Roedd Nawr yr Arwr/Now the Hero yn brofiad cwbl drawsnewidiol i mi. ... Roedd cyfeillgarwch aruthrol ymhlith y grŵp amrywiol o bobl a oedd yn gysylltiedig â'r cynhyrchiad... roedd yn gyfle anhygoel i fyfyriwr celf dibrofiad 17 oed fel fi: un wnaeth aildanio fy nghreadigrwydd ac fy ngosod yn gadarn ar lwybr gyrfa yn y celfyddydau cydweithredol.'* George

*'Dydw i ddim yn arfer bod yn sentimental ond mae wedi bod yn anrhydedd cael bod yn rhan o berfformiad mor anhygoel oedd â neges mor bwysig. Diolch am y cyfle i fod yn rhan ohono.'* Dienw

Dyfyniadau gan aelodau'r gynulleidfa:

*'Mae cael y lle a'r amser i fyfyrio ar y digwyddiadau hanesyddol hyn yn bwysig iawn ac mae hynny'n rhywbeth wnes i'n sicr ei wneud heddiw'.*

*'Wedi dod gyda fy ffrindiau ac roeddwn dan emosiwn drwy'r holl brofiad ac yn falch iawn, iawn ei fod yn Abertawe.'*

*'Rhywbeth sy'n mynd i aros gyda mi, am byth rwy'n credu.'*

# TEYRNGED GERDDOROL GAN GERDDORION IFANC O GYMRU

**Mae 'Sorrows of the Somme' yn ymateb cerddorol gwefreiddiol i ysgrifau Cymraeg, Saesneg ac Almaeneg am y frwydr i ennill Coedwig Mametz a'r 4,000 o filwyr Cymru a gollodd eu bywydau neu a glwyfwyd yn nyddiau cyntaf Brwydr y Somme. Perfformiwyd y cynhyrchiad cerddorol newydd hwn gan bobl ifanc ym mis Hydref 2018 yng Nghanolfan y Mileniwm yng Nghaerdydd.**

Arweiniodd Brwydr y Somme at golledion a dioddefaint aruthrol yn enwedig ymysg cenhedlaeth ifanc o Gymry. Mewn teyrnged addas, perfformiwyd y cynhyrchiad 'Sorrows of the Somme' gan Gôr Cenedlaethol Ieuenctid Cymru, Cerddorfa Genedlaethol Ieuenctid Cymru a C.Ô.R. Roedd y gefnogaeth gan Gelfyddydau Cenedlaethol Ieuenctid Cymru wedi cyd-fynd yn arbennig â'r gwaith corawl a cherddorfaol newydd hwn gan y cyfansoddwr Brian Hughes a gomisiynwyd ar gyfer *Cymru'n Cofio* Wales Remembers 1914-1918. Roedd y darn hefyd yn cynnwys ysgrifau gan Dr Rowan Williams, Archesgob Caergaint.

Wedi'i pherfformio gan genhedlaeth heddiw o bobl ifanc, roedd 'Sorrows of the Somme' yn ddigwyddiad a oedd wedi ein hatgoffa o fregusrwydd ac ysbryd y Cymry a gollwyd yn y Rhyfel Byd Cyntaf.



Ar y dde: Côr a Cherddorfa Genedlaethol Ieuenctid Cymru yn rhoi perfformiad cyntaf 'Sorrows of the Somme' © Côr a Cherddorfa Genedlaethol Ieuenctid Cymru

# PABI'R COFFÁU

**Ar gyfer canmlwyddiant y Cadoediad yn 2018, ehangodd Amgueddfa Cymru arddangosfa deithiol fechan o'r enw *Pabi'r Coffáu* i fod yn arddangosfa fawr yn archwilio sut y daeth y pabi yn symbol cofio ar ôl y Rhyfel Byd Cyntaf, ynghyd â chyflwyno hanes y planhigyn hwn a'i fioamrywiaeth.**

Ers miloedd o flynyddoedd mae'r pabi wedi cael ei gysylltu'n agos ag iacháu a marwolaeth, gan fod yn ysbrydoliaeth i feirdd ac artistiaid. Mae rhyfeloedd wedi'u hymladd dros y pabi gwyn a'r opiwm a gynhyrchai, ac mae gwrthdaro hyd heddiw yn ei sgil. Yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf, morffin – sy'n deillio o opiwm – oedd y poenladdwr cryfaf a oedd ar gael, ac fe'i defnyddid yn helaeth ar faes y gad.

Roedd pabi coch yn olygfa gyffredin ar feysydd brwydrau'r Rhyfel, ac yn sgil hynny daeth yn symbol coffáu poblogaidd maes o law. Mae rhai pobl yn dewis gwisgo'r pabi heddwch gwyn, a werthwyd gyntaf yn 1933, neu'r pabi porffor mwy diweddar sy'n coffáu'r anifeiliaid a laddwyd mewn rhyfeloedd.

Roedd *Pabi'r Coffáu* yn annog ymwelwyr i feddwl am golled ac iacháu. Wrth wraidd yr arddangosfa roedd Ffynnon y Cofio, sef popïau papur i ymwelwyr ysgrifennu eu myfyrdodau ar effaith y Rhyfel Byd Cyntaf a rhyfeloedd dilynol ar eu teuluoedd, ynghyd â nodi sut roeddynt yn ymgysylltu ag etifeddiaeth y Rhyfel. Rhoddwyd bron i 15,000 o bopïau papur yn y ffynnon yn ystod yr arddangosfa, ac mae rhai dyfyniadau wedi'u cynnwys yma.




Uchod: Arddangosfa *Pabi'r Coffáu* yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, 2018
© Amgueddfa Cymru

*'Mae heddwch a chariad yn gwella'r byd. Cofiwch am y rhai a gollodd eu bywydau a'r rheiny sy'n dal i golli eu bywydau mewn rhyfeloedd yn yr 21ain ganrif.'*

*'Fe wnaeth fy hen Ewythr William Hobbs, 19 oed, foddi yn y môr yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf. Roedd yn dod o'r Barri, De Cymru.'*

*'Byddaf yn cofio am byth aberth pawb a ymladdodd y Rhyfel er mwyn i ni fedru byw fel yr ydyn ni heddiw. Ni fyddant yn mynd yn angof.'*

# AR Y MÔR A'R ARFORDIR

**Roedd cryn dipyn o weithgaredd yn nyfroedd Cymru yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf, gan gynnwys llongau masnach, y Llynges Frenhinol a sifiliaid. Ceir tair enghraifft yma.**

Roedd y llongwr William Williams VC, DSM a'r Bar, yn dod o Amlwch, Ynys Môn ac roedd yn gwasanaethu fel llongwr wrth gefn i'r Llynges Frenhinol pan ddyfarnwyd medal Croes Fictoria (VC) iddo am ei ran yn suddo cwch tanfor o'r Almaen a oedd wedi ymosod ar long-Q o'r enw HMS *Pargust* yng nghefnfor yr Iwerydd ar 7 Mehefin 1917. Roedd llongau-Q yn llongau masnach wedi'u haddasu i'w harfogi â gynnau cudd er mwyn denu llongau-U i godi i'r wyneb i ymosod ac yna gallai'r gynnau wrthymosod arnynt hwythau. Yn ystod seremoni yn Amlwch i nodi canmlwyddiant yr ymosodiad yn 2017, dadorchuddiwyd carreg goffa newydd i anrhydeddu ymdrechion William Williams.

Tua diwedd y Rhyfel cafwyd dwy golled forwrol fawr ym Môr Iwerddon ac ar arfordir Cymru, a hynny o fewn dyddiau i'w gilydd.

Ar 4 Hydref 1918 cafodd llong fasnach o Japan, *Hirano Maru*, ei suddo i'r de o Iwerddon gan gwch danfor o'r Almaen, er bod confoi yn ei hebrwng. Roedd y llong ar ei ffordd i Yokohama o Lerpwl. Roedd dros 300 ar fwrdd y llong, ond dim ond 29 a oroesodd. Claddwyd deg o forwyr o Japan yn Angle, Sir Benfro. Yn ystod coffâd canmlwyddiant 2018 dadorchuddiwyd obelisg newydd ym mynwent Eglwys y Santes Fair, Angle, ar 4 Hydref 2018. Mynychwyd y seremoni goffa gan Ei Uchelder Brenhinol Dug Caerloyw a phwysigion o Japan a'r ardal leol. Mae'r gofeb yn cynnwys arysgrif mewn tair iaith, sef yn Japanaeg, Cymraeg a Saesneg.

Wythnos yn ddiweddarach, ar 10 Hydref 1918, roedd y llong bost frenhinol RMS *Leinster* ar ei ffordd i Gaergybi, yn cludo dros 700 o deithwyr sifil, criw, personél milwrol a gweithwyr post. Cafodd y llong ei thorpido gan long danfor Almaenig a chollwyd dros 500 o fywydau, gan gynnwys pobl o Iwerddon, Prydain, Canada, yr Unol Daleithiau, Awstralia a Seland Newydd. Dyma'r golled waethaf ym Môr Iwerddon. Ym mis Hydref 2018, cynhaliwyd digwyddiad coffa yn Dún Laoghaire wedi'i fynychu gan y Prif Weinidog ar y pryd, y Gwir Anrhydeddus Carwyn Jones AS, ynghyd â digwyddiad coffa yng Nghaergybi wedi'i fynychu gan yr Arglwydd Dafydd Elis-Thomas AC, y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth.




Y dudalen gyferbyn: Y llongwr William Williams VC © Casgliad Kenneth Williams, drwy garedigrwydd Amgueddfa Cymru

Ar y dde: Grŵp medalau'r llongwr William Williams VC, gan gynnwys ei Groes Fictoria © Amgueddfa Cymru



# CANMLWYDDIANT YR RAF

**Crëwyd y Llu Awyr Brenhinol (yr RAF) ar 1 Ebrill 1918, a hynny drwy uno Gwasanaeth Awyr y Llynges Frenhinol a'r Corfflu Hedfan Brenhinol i greu gwasanaeth ar wahân a fyddai'n brwydro yn erbyn ymosodiadau awyr yr Almaen ar ddinasoedd yn y Deyrnas Unedig. Yn ystod 2018, nododd yr RAF ei ganmlwyddiant yn ogystal â choffáu diwedd y Rhyfel Byd Cyntaf, ac aeth ati i greu rhaglen canmlwyddiant o ddigwyddiadau ledled Cymru i anrhydeddu a chofio'r 100 mlynedd blaenorol, yn amrywio o orymdeithiau ac awyrennau'n hedfan heibio, i arddangosfeydd hanesyddol a digwyddiadau STEM a hanes gyda phlant ysgol.**




Gan mai David Lloyd George, Prif Weinidog Cymru, a wnaeth y penderfyniad pwysig i greu'r RAF yn llu awyr annibynnol cyntaf y byd, addas iawn oedd cydnabod a dathlu hyn mewn digwyddiad yn Amgueddfa David Lloyd George yn Llanystumdwy yn y Gogledd, drwy awyrennau'r RAF yn hedfan heibio ac arddangosfeydd. Cyflwynodd yr RAF flodeugerdd o ddogfennau hanesyddol yn ymwneud â chreu'r RAF i Amgueddfa Lloyd George, ynghyd â chreu Gardd Goffa Canmlwyddiant yr RAF yno.

Ar y chwith: Pennaeth y Staff Awyr, y Prif Farsial Awyr Syr Stephen Hillier ac Arglwydd Raglaw Gwynedd, Mr Edmund Bailey, yn agor Gardd Goffa'r Llu Awyr Brenhinol yn Amgueddfa David Lloyd George yn Llanystumdwy © Hawlfraint y Goron /y Weinyddiaeth Amddiffyn

# NEGES HEDDWCH AC EWYLLYS DA IEUENCTID CYMRU

**Dechreuodd ieuenctid Cymru anfon Neges Heddwch i'r byd dros y radio yn 1922 fel modd i'r bobl ifanc rannu eu dyheadau, eu gobeithion a'u breuddwydion ar gyfer y dyfodol gyda phobl ifanc eraill ledled y byd. Mae'r neges wedi'i darlledu ar 18 Mai (Diwrnod Ewyllys Da) bob blwyddyn ers hynny, dan arweiniad Urdd Gobaith Cymru ers 1955.**

Rhwng 2015 a 2019, bu Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru, yr Urdd ac UNA Exchange yn cydweithio â'i gilydd i ddigideiddio'r negeseuon heddwch o 1922 hyd heddiw, yn ogystal â chofnodi'r atebion a gafwyd o wledydd tramor. Lansiwyd pecyn dysgu ar gyfer ysgolion yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd 2018, sydd ar gael ar Hwb, gyda phrosiectau ysbrydoledig i ennyn diddordeb cenhedlaeth newydd o bobl ifanc i fynegi'r dyfodol y maent am ei weld, dyfodol heb frwydro ynddo.

**Neges Heddwch ac Ewyllys Da 2018**

Thema: pwysigrwydd pobl ifanc yn gallu lleisio eu barn am y pethau sy'n eu poeni a bod rhywun yn gwrando arnyn nhw.

Neges: Mae gan bawb lais: ein gobaith yw bod gan bawb yr un cyfle i ddefnyddio'r llais hwnnw.

Neges heddwch ieuenctid Cymru oedd un o dros 90 o brosiectau a oedd yn archwilio Hanesion Heddwch Cudd o gyfnod y Rhyfel Byd Cyntaf hyd heddiw, gyda chefnogaeth Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol o dan arweiniad Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru – gan weithio gyda dros 100 o grwpiau cymunedol, ac yn cynnwys 860 o wirfoddolwyr ledled Cymru rhwng 2014 a 2019.

Rhagor o wybodaeth:
Hwb: hwb.gov.wales
Urdd: www.urdd.cymru/cy/neges-heddwch-eleni/
WCIA: www.wcia.org.uk/cy/peace-heritage/


Munition Workers
at
Messrs Gilbertson
Pontardawe
TRENT

# 1918: DYCHWELYD I HEDDWCH

**Datblygodd Amgueddfa Genedlaethol y Glannau arddangosfa deithiol newydd a oedd yn canolbwyntio ar ddiwydiannau yng Nghymru ac effaith y cyfnod ar ôl y Rhyfel ar gymunedau, gweithwyr a diwydiant.**

Rhwng 1914 a 1918 roedd tua 273,000 o ddynion o Gymru yn y Fyddin, y Llynges a'r Llu Awyr. Lladdwyd tua 40,000 ohonynt a dychwelodd y gweddill adref i ddyfodol ansicr ac economi ansefydlog. Roedd degau o filoedd o ddynion a menywod hefyd yn gweithio yn niwydiannau Cymru yn cyflenwi glo, dur, metelau ac arfau ar gyfer ymdrech y rhyfel.

Parhaodd effaith y Rhyfel am flynyddoedd lawer ar ôl iddo ddod i ben. Astudiai'r arddangosfa hon sut roedd cwmnïau wedi mynd ati i goffáu gwasanaeth rhyfel ac aberth eu gweithwyr, a sut roedd y Rhyfel Byd Cyntaf wedi llunio diwydiannau Cymru yn y 1920au.

Ar y chwith: Menywod a gyflogwyd i ddadlwytho haearn crai o wagenni rheilffordd yng Ngwaith Dur Pontardawe. Erbyn i'r Rhyfel ddod i ben ym mis Tachwedd 1918, menyw oedd un o bob deg o weithwyr dur. © Amgueddfa Cymru



# DATHLU MENYWOD A HAWL MERCHED I BLEIDLEISIO

**Cafodd y Rhyfel Byd Cyntaf effaith anferthol ar fenywod ledled Cymru, ar y pryd a thrwy newidiadau mewn cymdeithas wedi hynny. Cafodd y Rhyfel effaith bersonol ar lawer yn sgil colli brodyr, meibion, gwŷr neu berthnasau eraill, ond mae eu hymdrechion hwythau yn haeddu cydnabyddiaeth hefyd. Dechreuodd menywod weithio mewn swyddi na chaent fynd iddynt cyn y Rhyfel, gan ddatblygu hyder a sgiliau a fyddai'n eu hannog i geisio rhyddid mewn meysydd eraill, yn enwedig mewn gwleidyddiaeth a bywyd cyhoeddus.**

I lawer o ferched, roedd y gwaith rhyfel yn aml yn beryglus ac yn talu'n wael, yn enwedig i'r rheiny a weithiai mewn ffatrïoedd arfau rhyfel yng Nghymru, gan beryglu eu hiechyd a'u bywydau. Teithiodd rhai menywod dramor i weithio yn yr ysbytai maes ledled Ewrop, yn aml mewn amodau echrydus. Roedd menywod Cymru hefyd wedi bod â rhan fawr mewn nifer o ymgyrchoedd, yn enwedig dros heddwch a'r hawl i bleidleisio.

Er mai prif nod Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1918 oedd cefnogi ymdrechion dynion y dosbarth gweithiol, rhoddodd hefyd y bleidlais i fenywod am y tro cyntaf. Treblodd hyn nifer yr etholwyr wrth roi'r bleidlais i ddynion dros 21 oed (neu 19 oed a hŷn os oeddent wedi gwasanaethu yn y Rhyfel), ac i fenywod dros 30 oed (cyn belled â'u bod naill ai'n berchennog eiddo, neu'n briod â pherchennog eiddo). Cafodd menywod yr hawl i bleidleisio ar yr un sail â dynion ddeng mlynedd yn ddiweddarach yn 1928.

Ariannodd Llywodraeth Cymru ystod o weithgareddau a mentrau i goffáu hawl menywod i bleidleisio a'u cyfraniad i'r Rhyfel. Roedd hyn yn cynnwys grantiau i 12 o amgueddfeydd, grwpiau cymunedol a sefydliadau'r trydydd sector ar gyfer eu digwyddiadau hwy yn cofio am y bleidlais. Roedd rhwydwaith fewnol Llywodraeth Cymru, Menywod Ynghyd, wedi dathlu 100 mlynedd ers Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1918 drwy gynnal cyfres o ddigwyddiadau yn ystod 2018 gan gynnwys darlithoedd gwadd, gorymdaith yng Nghaerdydd a gweithgaredd gwaith celf torfol.

Lansiodd Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru ei brosiect 100 Menyw Gymreig, wedi'i noddi gan Lywodraeth Cymru, i ddathlu bywydau 100 o fenywod gwych – 50 ohonynt o'r gorffennol a 50 o ferched ysbrydoledig sydd wrthi'n nawr yn dylanwadu ar Gymru. Elfen bwysig oedd creu cerflun o un o'r menywod hyn. Cyhoeddwyd mai Betty Campbell, y fenyw ddu gyntaf i fod yn brifathrawes yng Nghymru, oedd yr enillydd a bydd ei cherflun yn cael ei godi yn Sgwâr Canolog Caerdydd. Gweithiodd Llywodraeth Cymru mewn partneriaeth â Chwarae Teg a Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru i ariannu placiau porffor i lawer o'r 100 o ferched a gafodd cydnabyddiaeth fel rhan o'r prosiect hwn.

Gweler: www.100menywodcymreig.cymru

Ar y chwith: Margaret Mackworth, Arglwyddes Rhondda, a oedd yn weithgar gyda'r ymgyrch dros sicrhau'r bleidlais i fenywod a hefyd ar restr '100 Menywod Cymreig'. Ffotograffydd yn anhysbys, ond gwyddir nad oes hawlfraint ar y llun. Mae'r gwreiddiol ym meddiant A.V. Morgan sydd wedi rhoi caniatâd i'w ddefnyddio yn ôl Wiki Commons. CC BY-SA. Source: https://commons.wikimedia.org/wiki/File:MARGARET_MACKWORTH,_VISCOUNTESS_RHONDDA.jpg



# DIOLCH Y LLENG BRYDEINIG FRENHINOL

**Mae'r Lleng Brydeinig Frenhinol yng Nghymru yn ymfalchïo ei bod wedi cydweithio â *Cymru'n Cofio* Wales Remembers 1914-1918 i gydfyfyrio ar y Rhyfel Byd Cyntaf a chydgoffáu'r Rhyfel yng Nghymru a thu hwnt.**

Cydweithiodd y Lleng gyda nifer o bartneriaid a sefydliadau i roi ffocws adfyfyriol ac apelgar i'r Cofio. Roedd rhywfaint o'r cydweithio hwn ar lefel genedlaethol (Cofebion y Cymry ym Mametz yn 2016 a Langemark yn 2017) a nifer dirifedi yn lleol gyda changhennau ac aelodau ledled Cymru. Ymgysylltodd y Lleng â chynulleidfaoedd amrywiol gan gynnwys ysgolion cynradd ac uwchradd, grwpiau cadetiaid, cymunedau Du a Lleiafrifoedd Ethnig a'r boblogaeth yn gyffredinol. Roedd coffâd Cofio 2018 yn 'ddiolch' i bawb a oedd wedi gwasanaethu, aberthu a gweithio i newid ein byd, ynghyd â dangos pa mor berthnasol yw'r Cofio i genedlaethau a chynulleidfaoedd newydd.

Ar y chwith: Cerflun Cofio Pob Dyn, Stryd Fawr, Caerdydd, Ebrill 2015 © Lleng Brydeinig Frenhinol
Uchod: Y Logo Diolch © Lleng Brydeinig Frenhinol

# Yr Enaid Byw

*Disgwyl arswyd, disgwyl angau,*
*Disgwyl anfad ac anafau;*
*Wedi oriau o ddiflastod,*
*Brwydr waedlyd ddaw'n annatod.*

*Colli hyder a cholli ffydd,*
*Colli gobei fy hun*
*Pan ddaw'r gelynion dros y bryn*
*A ninnau'n sefyll yno'n syn.*

*Profi'r gwaed a phrofi'r gwallgof*
*Profi'r pryder ddaw yn angof;*
*Yr arfau'n rhuo hyd y wawr:*
*Gwn mai uffern yw fy myd nawr...*

*Cofio'r bechgyn, cofio ffrindiau,*
*Cofio'r hunllef o flinderau;*
*Mi gefais innau ras fy Nuw -*
*Ond marw bydd fy enaid byw.*

Gan Mari Wyn Jones

# 2019

Cyhoeddwyd y Cadoediad yn 1918, ond roedd yr ymgyrch am heddwch yn parhau, ac effaith a chanlyniadau'r rhyfel i'w gweld am sawl blwyddyn wedyn. Gan gofio hyn, roedd gweithgareddau *Cymru'n Cofio* Wales Remembers 1914-1918 yn parhau yn 2019, gyda'r pwyslais yn symud at effaith y rhyfel ar unigolion, cymunedau a'r wlad gyfan, gan amrywio o ddigwyddiadau lleol fel terfysgoedd hiliol Caerdydd a lleoliadau eraill yn y De, i ran David Lloyd George yng Nghynhadledd Heddwch Paris ac oblygiadau rhyngwladol y gynhadledd honno.

Ar y dde: Capten Richard Lloyd George, Mrs Owen Thomas, Prif Weinidog Prydain David Lloyd George, ei wraig Margaret a'r Brigadydd Owen Thomas yn Llandudno ar ôl araith gan y Prif Weinidog am y Rhyfel Mawr © Amgueddfeydd Rhyfel Ymerodrol (Q 54471)



# ESTYN YN DDISTAW: DYDD O FYFYRIO AR FARDDONIAETH RHYFEL A HEDDWCH YNG NGHYMRU

**A hithau'n ffurf gelfyddydol sydd ar gael i bawb, mae barddoniaeth wedi bod yn allweddol wrth ddogfennu ac archwilio effeithiau dinistriol rhyfeloedd dros yr oesoedd. Mae gan farddoniaeth hefyd y pŵer i ddod â phobl at ei gilydd, i bontio cenedlaethau a diwylliannau, i greu cysylltiadau cryfach â'n gilydd ac i wneud synnwyr o'r byd o'n cwmpas. Roedd hyn oll yn wir am Estyn yn Ddistaw, sef dydd o fyfyrio ar farddoniaeth rhyfel a heddwch yng Nghymru a gynhaliwyd yn y Senedd ar 19 Chwefror 2019. Trefnwyd y diwrnod gan Llenyddiaeth Cymru, dan nawdd Mark Drakeford AC, Prif Weinidog Cymru, ac fe'i hariannwyd gan *Cymru'n Cofio* Wales Remembers 1914-1918.**

Gweledigaeth Mark Drakeford AC, Prif Weinidog Cymru, oedd cynnal diwrnod a oedd yn agored i bawb ac a fyddai'n ymgysylltu cynulleidfa gyfoes â barddoniaeth ar thema rhyfel a heddwch ac awduron cyfnod y Rhyfel Byd Cyntaf. Cyfunwyd hyn â chred Llenyddiaeth Cymru fod llenyddiaeth yn grymuso, yn gwella ac yn cyfoethogi bywydau, gan greu rhaglen diwrnod i fyfyrio. Cafwyd perfformiadau, darlleniadau, darlithoedd comisiwn a chyflwyniadau oedd yn adlewyrchu amrywiaeth cymdeithas Cymru gydag awduron o bob cwr, oedran a chefndir yn rhannu'r llwyfan.

Comisiynodd y prosiect waith creadigol gwreiddiol i goffáu'r Rhyfel Byd Cyntaf a bydd y gweithiau creadigol hynny wedyn yn dod yn rhan o waddol *Cymru'n Cofio* Wales Remembers 1914-1918. Un o uchafbwyntiau'r diwrnod oedd clywed y cerddi hyn yn cael eu hadrodd gan yr awduron Gillian Clarke, Alan Llwyd, Eric Ngalle Charles, Nerys Williams a Bardd Cenedlaethol Cymru, Ifor ap Glyn. Comisiynwyd tair darlith hefyd, a chafwyd trafodaethau difyr a dadlennol gan Phil Carradice, Nerys Williams ac Aled Eirug.

Comisiynwyd aelodau o'r colectif barddol Cywion Cranogwen i greu perfformiad aml-gyfrwng, gwreiddiol, *O Ysbaid i Ysbaid*. Cyfunodd y beirdd Beth Celyn, Manon Awst a Sara Borda Green gelf weledol, cerddoriaeth a cherddi i archwilio safbwyntiau gwahanol o gyfnodau o ryfel a heddwch o bersbectif merched o Gymru, gan gynnwys y mamau a'r gwragedd a gafodd eu gadael ar ôl a'r merched a ymgyrchodd dros heddwch a chydraddoldeb.





Yn yr wythnosau oedd yn arwain at y diwrnod, cynhaliwyd dau brosiect allestyn gyda phobl ifanc – un gydag Ysgol Uwchradd Fitzalan, Caerdydd dan ofal yr awdur Jafar Iqbal ac mewn partneriaeth â chasgliad Edward Thomas yn Archifau Prifysgol Caerdydd, a'r llall gyda disgyblion o Ysgol Calon Cymru, Llanfair-ym-Muallt dan ofal y beirdd Rufus Mufasa ac Elan Grug Muse. Galluogodd y prosiectau hyn i bobl ifanc ddysgu am farddoniaeth rhyfel cyn mynd ati i greu a chyflwyno eu gwaith gwreiddiol eu hunain wedi eu hysbrydoli gan lenyddiaeth y Rhyfel Byd Cyntaf. Cafwyd perfformiadau ystyriol a dirdynnol gan ddisgyblion o'r ddwy ysgol yn ystod digwyddiad Estyn yn Ddistaw.

Bu'r gynulleidfa hefyd yn ystyried trallod rhyfeloedd cyfoes gyda pherfformiad ysgytwol Ali Sizer y bardd a'r canwr Cwrdaidd, a sgwrs Luca Paci o PEN Cymru, y mudiad sy'n hybu llenyddiaeth ac yn amddiffyn rhyddid mynegiant.

Dan arweiniad Mark Drakeford AC, y Prif Weinidog, darllenodd Aelodau'r Cynulliad Rhun ap Iorwerth, Suzy Davies, Dafydd Elis-Thomas, Carwyn Jones, Adam Price a Kirsty Williams eu hoff gerddi hwy ar thema rhyfel a heddwch.

Daeth llawer o wleidyddion a chynulleidfa ehangach ynghyd y noson honno i wylio sioe farddoniaeth *Y Gadair Wag* gan Ifor ap Glyn a oedd yn edrych ar hanes a gwaith Hedd Wyn.

Meddai'r Prif Weinidog am y diwrnod: '*Roedd y diwrnod yn gyfle euraidd i fyfyrio ar farddoniaeth a llenyddiaeth gyfoethog Cymru, ar effeithiau rhyfel ac ar bwysigrwydd heddwch. Roedd yn fraint cymryd rhan mewn achlysur mor feddylgar ac effeithiol*.'

Gellir darllen y cerddi a'r darlithoedd comisiwn ynghyd â gweld lluniau o'r diwrnod ar wefan Llenyddiaeth Cymru.

Rhagor o wybodaeth: www.llenyddiaethcymru.org

Ar y chwith: Disgyblion o Ysgol Calon Cymru yn perfformio yn ystod diwrnod Estyn yn Ddistaw © Sioned Birchall / Llenyddiaeth Cymru

Uchod: Y beirdd Rufus Mufasa ac Elan Grug Muse yn ystod diwrnod Estyn yn Ddistaw © Sioned Birchall / Llenyddiaeth Cymru



# CANRIF ERS Y TERFYSGOEDD HIL

**Roedd 2019 yn ganmlwyddiant pwysig yng nghalendr cysylltiadau hiliol wrth i Gymru gofio canmlwyddiant terfysgoedd hil 1919 - rhan ingol o hanes Cymru a newidiodd gwrs cysylltiadau cymunedol.**

Ar ôl i'r Rhyfel Byd Cyntaf ddod i ben, dechreuodd terfysgoedd mewn porthladdoedd môr ledled y Deyrnas Unedig. Sbardunwyd y terfysgoedd hyn gan amgylchiadau economaidd anodd, yn enwedig o ran cyflogaeth a thai.

Glasgow oedd y cyntaf i weld trais, a hynny ym mis Ionawr 1919, ac yna South Shields ym mis Chwefror, gyda lefelau difrifol o drais yn Llundain rhwng Ebrill ac Awst. Yng Nghymru cafwyd terfysgoedd yng Nghasnewydd a'r Barri, ac yng Nghaerdydd lladdwyd tri dyn o ganlyniad i'r terfysgoedd. Effeithiodd y terfysgoedd ar ardaloedd fel Butetown lle mae cymunedau Caribïaidd, Somalïaidd ac Yemeni wedi'u hen sefydlu yno.

Fel rhan o *Cymru'n Cofio* Wales Remembers 1914-1918, cynhaliwyd seminar yn yr Eglwys Norwyaidd ym Mae Caerdydd i drafod hanes y terfysgoedd yn ogystal â'r goblygiadau tymor hwy. Roedd y gynulleidfa yn cynnwys aelodau o'r gymuned a disgynyddion pobl yr effeithiwyd arnynt yn uniongyrchol gan y terfysgoedd. Cafwyd anerchiadau gan y Prif Weinidog, y Gwir Anrhydeddus Mark Drakeford AS, Jane Hutt AS, y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip, a Syr Deian Hopkin, Cadeirydd *Cymru'n Cofio* Wales Remembers. Ymhlith y siaradwyr eraill roedd sylfaenydd Windrush Cymru Elders, aelodau o Race Council Cymru a Gaynor Legall, Cadeirydd y Gyfnewidfa Dreftadaeth a Diwylliant, y cynghorydd benywaidd BME cyntaf yng Nghymru. Llywiwyd y digwyddiad gan Mrs Uzo Iwobi OBE, Prif Weithredwr Race Council Cymru.

Ar y chwith: Basn y Rhath, Dociau Caerdydd. © Hawlfraint y Goron: Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru 2020

Ar y dde: Trigolion Butetown ar drip mewn cerbyd a dynnwyd gan geffyl, 1920au © Amgueddfa Cymru

Dywedodd y Prif Weinidog ei fod yn benderfynol fod yn rhaid i ni ddysgu gwersi o'r gorffennol er mwyn diogelu'r dyfodol ac na ddylai terfysgoedd o'r fath ddigwydd eto mewn unrhyw ran o Gymru. Atgyfnerthodd y neges bod Cymru, fel cenedl, yn falch o amrywiaeth ei chymunedau, yn ddiolchgar am gyfraniadau cynifer, ac yn hyderus y bydd etifeddiaeth cenedlaethau'r gorffennol gyda'i gilydd yn chwarae rhan allweddol wrth lunio ei dyfodol.



# ARDDANGOSFEYDD A BLOG WYTHNOSOL YNG NGHEREDIGION

**Roedd Archifau Ceredigion wedi coffáu'r Rhyfel Byd Cyntaf trwy greu arddangosfa a blog wythnosol a oedd yn adlewyrchu effeithiau'r Rhyfel yn Sir Aberteifi. Dechreuwyd ar yr adrodd wythnosol ym mis Awst 2014 gan ddefnyddio ystod eang o ffynonellau, gan gynnwys archifau cyhoeddus a phreifat ac adroddiadau papurau newydd lleol. Roedd y Cynorthwyydd Archifau Margaret Jones wedi curadu arddangosfeydd oedd yn union yr un fath yn Llyfrgell Aberystwyth ac yn Swyddfeydd y Cyngor yn Aberystwyth. Anfonwyd copïau o'r arddangosfa i lyfrgelloedd eraill y sir, a blogiwyd y deunydd yn ddwyieithog hefyd i gynulleidfa ehangach.**



Roedd Steven John, crëwr gwefan West Wales War Memorial Project, wedi annog staff yr archif i ddefnyddio'r wybodaeth arni, ac yn eu tro roeddent hwythau'n cyflenwi deunydd newydd iddo yntau o'u hymchwil.

Mae ffynonellau cyfoes yn ei gwneud yn glir iawn bod canlyniad y Rhyfel yn rhan arwyddocaol iawn o'r stori, felly mae'r arddangosfa a'r blog yn parhau ad hoc.

Gweithiodd y gwasanaeth yn galed i barhau â'r ymrwymiad ac mae'r canlyniadau'n rhoi cipolwg hynod ddiddorol i'r profiad o fyw drwy'r Rhyfel mewn un ardal.

I ddarllen rhagor: ww1ceredigion.wordpress.com

Ar y chwith: Canfu menywod o bob dosbarth ryddid newydd yng ngwaith y Rhyfel. Ena Parry o Blas Llidiardau, Llanilar a'i ffrindiau yn cael hoe o waith amaethyddol. Dim dyddiad ond tua 1915 © Delwedd gan Archifdy Ceredigion (ADX.710.6)

# DAVID LLOYD GEORGE

**Daeth David Lloyd George (1863-1945) yn Brif Weinidog Prydain ym mis Rhagfyr 1916, ar ôl bod yn Ganghellor y Trysorlys, yn Weinidog Arfau ac yn Ysgrifennydd Gwladol dros Ryfel. Gwasanaethodd fel Prif Weinidog tan 1922 gan oruchwylio hanner olaf y Rhyfel Byd Cyntaf. Mae llawer yn ei ystyried fel y gwleidydd Cymreig mwyaf llwyddiannus erioed. Yn 1945 derbyniodd y teitl Iarll Lloyd-George o Ddwyfor, ddeufis cyn ei farwolaeth.**



Lluniodd Llyfrgell Genedlaethol Cymru arddangosfa ddigidol newydd yn coffáu bywyd a gwaith David Lloyd George, yn enwedig ei gyfraniad i wleidyddiaeth Prydain. Mae'r arddangosfa hon yn rhoi modd i bobl ledled y byd weld y nifer o adnoddau sylweddol yn ymwneud â David Lloyd George a gedwir yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, a dod i wybod mwy am fywyd proffesiynol a phersonol un o feibion enwocaf Cymru.

Mae'r eitemau yn cynnwys ffotograffau, ffilmiau, tapiau sain, llythyrau, dyddiaduron, deunydd print, effemera a gweithiau celf. Mae'r Llyfrgell yn gartref i archifau pwysig amdano sy'n cynnwys papurau ei deulu; archif ei frawd William George; papurau Dr Thomas Jones (Dirprwy Ysgrifennydd y Cabinet); casgliad ei ysgrifennydd personol AJ Sylvester; casgliad y Fonesig Olwen Carey Evans a llythyrau Megan Lloyd George (ei ferched); papurau Frances Stevenson (ei ail wraig); ac archif yr apêl i godi cofeb i Lloyd George yn Llundain.

I weld yr arddangosfa ddigidol, ewch i: www.llyfrgell.cymru/ardal-arddangosfeydd-digidol

Chwith: Syr Douglas Haig a'r Cadfridog Joffre yn siarad â Lloyd George gydag Albert Thomas yn edrych arnynt © Llyfrgell Genedlaethol Cymru



# ENWI AWYREN YR RAF I ANRHYDEDDU LIONEL REES, VC

**Fel rhan o weithgareddau canmlwyddiant y Llu Awyr Brenhinol (RAF100), enwodd yr RAF awyren BAe 146 ar ôl Capten Lionel Rees, Prif Swyddog Sgwadron (Brenhinol) Rhif 32. Ganed Lionel Rees yng Nghaernarfon a dyfarnwyd Croes Fictoria iddo yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf. Hwn oedd y tro cyntaf i'r RAF enwi awyren fel hyn ers dros 50 mlynedd.**

Dyfarnwyd Croes Fictoria i'r Capten Grŵp Lionel Rees VC am ei weithredoedd ar y 1af o Orffennaf 1916, diwrnod cyntaf Brwydr y Somme. Ar ei ben ei hun bach ymosododd ar nifer o awyrennau'r gelyn, gan saethu dwy ohonynt i lawr a gyrru'r gweddill yn ôl y tu ôl i linellau'r gelyn, a hynny er ei fod wedi cael ei saethu yn ei glun yn ystod y frwydr.

Cynhaliwyd seremoni enwi arbennig yn RAF y Fali ar Ynys Môn ym mis Mehefin 2019, gyda thair cenhedlaeth o deulu'r Rees yn bresennol, ynghyd â swyddogion presennol yr RAF a phwysigion lleol. Roedd y digwyddiad hefyd yn cynnwys awyrennau'n hedfan dros Gaernarfon, yn ogystal ag arddangosfa hanesyddol am fywyd Rees yn Swyddfeydd Cyngor y dref.

Teithiodd aelodau o deulu'r Rees o'r Bahamas a'r Unol Daleithiau i fod yn bresennol gan i Rees ymfudo i'r Bahamas yn y 1930au a dychwelyd yno ar ôl ymladd yn yr Ail Ryfel Byd. Priododd a chael tri o blant cyn marw yn 1955. Mae ei fedal VC bellach yn rhan o gasgliad Ashcroft yn yr Amgueddfeydd Rhyfel Ymerodrol, Llundain.

Ar y chwith: Capten Lionel Rees © y Weinyddiaeth Amddiffyn / Hawlfraint y Goron

# DAVID LLOYD GEORGE A CHYNHADLEDD HEDDWCH PARIS

**Gan mai ef oedd Prif Weinidog Prydain ar y pryd a phennaeth dirprwyaeth yr Ymerodraeth Brydeinig, roedd gan David Lloyd George ran hollbwysig yng Nghynhadledd Heddwch Paris, a honno wedi dod i ben gyda chytundebau â phob un o'r pwerau a drechwyd, gan gynnwys yn fwyaf arbennig Cytundeb Versailles gyda'r Almaen. Fe'u llofnodwyd ar 28 Mehefin 1919, gan ddod â'r Rhyfel Byd Cyntaf i ben yn swyddogol ac arwain at greu Cynghrair y Cenhedloedd.**

Yn 2019, cynhaliodd nifer o sefydliadau partner *Cymru'n Cofio* Wales Remembers 1914-1918 ddigwyddiadau, sgyrsiau, gweithgareddau ac arddangosfeydd ar yr ymdrech i gael heddwch ar ôl y Rhyfel Byd Cyntaf. Sonnir am nifer fechan isod.

Bu disgyblion Ysgol Llanystumdwy yn rhedeg Amgueddfa Lloyd George am ddiwrnod, fel rhan o #DiwrnodMeddiannu, sef diwrnod pan oedd amgueddfeydd, orielau, tai hanesyddol, archifau a lleoliadau treftadaeth yn gwahodd pobl ifanc i wneud swyddi'r oedolion. Croesawodd y disgyblion ymwelwyr i'r Amgueddfa, gan ddangos copi personol Lloyd George o ddrafft Cytundeb Versailles, dangos sut brofiad y byddai Lloyd George wedi'i gael yn ddisgybl yn Ysgol Llanystumdwy, a thywys ymwelwyr o amgylch Highgate, y cartref lle magwyd Lloyd George ynddo.

Roedd Gŵyl Gregynog 2019: Gweledigaeth yn cynnwys sgyrsiau i goffáu etifeddiaeth y teulu David, Gwendoline a Margaret Davies. Roedd eu gwaddol yn cynnwys sefydlu Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol ym Mhrifysgol Aberystwyth a'r Deml Heddwch ac Iechyd yng Nghaerdydd. Sylfaen eu gweledigaeth oedd cydnabod 'yr angen i ystyried holl bobloedd y byd fel un'.

Cafodd Gwobrau Heddychwyr Ifanc newydd eu creu gan Ganolfan Materion Rhyngwladol Cymru a'u cyflwyno yn Eisteddfod Gerddorol Ryngwladol Llangollen ym mis Gorffennaf 2019.

Gyda chefnogaeth *Cymru'n Cofio* Wales Remembers 1914-1918, aeth Amgueddfa Cymru ati i wella'r ardal o amgylch cerflun David Lloyd George yng Ngerddi Gorsedd, Caerdydd trwy osod panel dehongli yn egluro cyfraniad Lloyd George i fywyd cenedlaethol Cymru. Cefnogwyd y prosiect gan bartneriaid allweddol – Cyngor Caerdydd, Amgueddfa Lloyd George, Cyfeillion Amgueddfa Lloyd George a Cadw.

Rhoddodd *Cymru'n Cofio* Wales Remembers 1914-1918 gefnogaeth i ddiogelu etifeddiaeth Lloyd George, gan alluogi Amgueddfa Lloyd George i asesu arwyddocâd ei chasgliadau unigryw i lywio eu defnydd yn y dyfodol. Bydd hyn yn galluogi'r Amgueddfa i wella a hyrwyddo mynediad cyhoeddus i'r casgliad.

Ar y dde: Palas Versailles yn ystod Cynhadledd Heddwch Paris 1919
© Llyfrgell Genedlaethol Cymru



# COED YN FFAGLAU: CYSYLLTU'R RHYFEL BYD CYNTAF Â CHOEDWIGOEDD CYMRU

**Roedd 2019 yn ganmlwyddiant Deddf Coedwigaeth 1919. Sefydlodd y ddeddf hon goedwigoedd cyhoeddus ledled Cymru a'r Deyrnas Unedig, gan ymateb i'r lleihau fu ar gyflenwad coed y wlad yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf. I nodi'r garreg filltir hon, aeth Cyfoeth Naturiol Cymru ati i greu prosiect Coedwig Canmlwyddiant.**

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cydweithio gyda chymunedau ledled y wlad i blannu coed fydd yn ffaglau tân byw. Mae'r Ffaglau Coed hyn yn grwpiau o 1 i 100 o goed sydd wedi'u dewis ar sail eu dail lliwgar gan y byddent yn ffrwydro yn lliw fflamau bob hydref. Disgwylir i'r plannu gymryd rhwng tair i bum mlynedd i'w gwblhau.

Mae dau bwrpas i'r Ffaglau Coed: yn gyntaf, maent yn gydnabyddiaeth symbolaidd weladwy trwy gydol y flwyddyn o gyflawniadau coedwigwyr ddoe a heddiw yng Nghymru. Yn ail, maent yn coffáu caledi a cholledion y Cymry yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf trwy efelychu'r Ffaglau Goleuni symbolaidd a gafodd eu goleuo ledled y Deyrnas Unedig ar Ganmlwyddiant Dydd y Cadoediad yn 2018.

Wrth i'r coed aeddfedu, byddant yn ffaglau tân byw ar adeg Dydd y Cadoediad, ac yn etifeddiaeth barhaol sy'n cysylltu'r Rhyfel Byd Cyntaf â Chyfoeth Naturiol Cymru, yr hen Gomisiwn Coedwigaeth yng Nghymru, a dyfodol tir ac amgylchedd ein gwlad.



Ar y dde: Clare Pillman, Prif Weithredwr Cyfoeth Naturiol Cymru, a Dafydd Elis-Thomas AS, Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth, yn plannu coeden dderwen ddigoes frodorol yn seremoni cysegru Coedfa Garwnant – Cyfoeth Naturiol Cymru ar 28 Tachwedd 2019
© Cyfoeth Naturiol Cymru / James Pearson

# COFEB DEILWNG

Ddydd Sadwrn 2 Tachwedd 2019, dadorchuddiwyd cofeb i gydnabod cyfraniad rhagorol dynion a menywod o gymunedau ethnig amrywiol a chymunedau'r Gymanwlad yng Nghymru. Mae'r gofeb yng Ngerddi Alexandra yng Nghaerdydd, yn agos at y Gofeb Ryfel Genedlaethol. Yn y seremoni dadorchuddio, siaradodd cynrychiolwyr o wahanol gymunedau, yn ogystal â gosod torchau.

Yn ystod y dadorchuddio, bu cynrychiolwyr o gymunedau gwahanol yn siarad ac yn gosod torchau. Arweiniwyd yr ymgyrch i gydnabod cyfraniad pobl liw gan y rhai a gollodd berthnasau mewn rhyfeloedd, yn enwedig Patti Flynn, ac fe'i cefnogwyd gan sawl grŵp cymunedol a Race Council Cymru.




Uchod: Dadorchuddio cofeb i ddynion a menywod ethnig ac o'r Gymanwlad a wasanaethodd ein gwlad © Race Council Cymru

# YSTYRIED YR ETIFEDDIAETH

**Yn 2019, gwnaed gwaith ar gofnodi etifeddiaeth coffáu'r Rhyfel Byd Cyntaf. Mae'r etifeddiaeth gorfforol yn bodoli ar ffurf ein cofebion ac yn y llenyddiaeth a'r gelf a grëwyd. Un elfen allweddol yw'r swm aruthrol o waith digidol a wnaed, ac isod ceir gwybodaeth am rai o'r adnoddau a ddatblygwyd, gan gynnwys sut y cânt eu cadw. Mae enghreifftiau eraill i'w gweld mewn mannau eraill yn y cyhoeddiad hwn.**

## CREU ETIFEDDIAETH DDIGIDOL

Mae'r cannoedd o brosiectau, digwyddiadau a gweithgareddau a gynhaliwyd ledled Cymru i gofio canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf oll wedi'u cofnodi ar wefan Rhaglen Canmlwyddiant Llywodraeth Cymru cymruncofio.org.

Datblygwyd a rheolwyd y wefan gan Casgliad y Werin ar ran Llywodraeth Cymru, gan fynd yn fyw ym mis Medi 2013. Drwy'r wefan hon gall y cyhoedd, grwpiau, mudiadau a sefydliadau gael gafael ar wybodaeth am *Cymru'n Cofio* Wales Remembers 1914-1918.

Yn 2016 ehangwyd y wefan i gynnwys oriel fyw o ddeunydd o'r Rhyfel Byd Cyntaf a gedwir gan Casgliad y Werin. Yn sgil y nodwedd unigryw hon, bydd unrhyw gyfryngau a lanlwythir i Casgliad y Werin sy'n gysylltiedig â'r Rhyfel Byd Cyntaf hefyd yn cael eu cynnwys yn awtomatig yn yr Oriel yn cymruncofio.org.

Er bod digwyddiadau coffáu'r canmlwyddiant wedi dod i ben, y bwriad yw bod y wefan yn parhau i fod yn ganolbwynt canolog ynghylch sut y nododd Cymru ganmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf. Yn 2020 bydd Casgliad y Werin yn cynnal cyfres o weithdai i ymgysylltu â'r rheiny a oedd wedi ariannu a threfnu gweithgareddau yn ystod y cyfnod coffáu i sicrhau bod y wefan yn cynnig darlun mor gyflawn â phosibl o goffáu'r canmlwyddiant yng Nghymru.

Rhagor o wybodaeth: cymruncofio.org




Uchod: Gwefan *Cymru'n Cofio* Wales Remembers 1914-1918 © Llywodraeth Cymru

# COFEB DDIGIDOL

**Gweithiodd yr Amgueddfeydd Rhyfel Ymerodrol (IWM) gyda dros 160,000 o aelodau'r cyhoedd yn ystod 2014-2019 i greu gwefan am fywydau pobl yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf. Bydd y wefan yn gofeb ddigidol barhaol i fwy na 7.7 miliwn o bobl a wnaeth gyfraniad yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf.**

Cyrhaeddodd y gweithgareddau allgymorth tua 15,000 o bobl ledled y Deyrnas Unedig, gan gynnwys digwyddiad poblogaidd 'World War One At Home' y BBC yn y Rhyl yn 2014, a phrif gyflwyniad yn y gynhadledd Gorffennol Digidol yng Nghasnewydd yn 2017. Roedd yr ymgysylltu â'r cyhoedd mewn digwyddiadau ac ar-lein wedi cyfrannu at y wybodaeth, y straeon a'r delweddau ar gyfer y wefan.

Mae'r gronfa ddata hon, sef 'Lives of the First World War', bellach wedi'i harchifo ac mae i'w gweld yn ddi-dâl ar-lein. Mae chwilio am eiriau allweddol, enwau a lleoedd yn y gronfa ddata yn cynhyrchu miloedd o ganlyniadau am ddynion a menywod o Gymru a chwaraeodd eu rhan – gan gynnwys y gweithiwr ffatri Lily Leaver o Aberdâr, a milwyr fel Walter Williams o Gyffinwyr De Cymru.

IWM LIVES OF THE FIRST WORLD WAR

Uchod: Logo 'Lives of the First World War' © Amgueddfeydd Rhyfel Ymerodrol

Ar y chwith: Portread o David Lloyd George yn ystod araith yn Dundee, yr Alban. Er yn Rhyddfrydwr, unodd Lloyd George â'r Ceidwadwyr i ddymchwel Llywodraeth Glymblaid Asquith ym mis Rhagfyr 1916, ac yntau wedyn yn dod yn Brif Weinidog. © Amgueddfeydd Rhyfel Ymerodrol, Cyf: Q 70208

Mae'n gofeb ddigidol barhaol i'r bobl hynny oedd yn rhan o ymdrech y Rhyfel, gartref a thramor, ac mae'n ffordd i bobl o Gymru, y Deyrnas Unedig a thu hwnt ddod i wybod am straeon personol a bywydau'r bobl yr effeithiodd y Rhyfel Byd Cyntaf arnynt.

Rhagor o wybodaeth: www.livesofthefirstworldwar.iwm.org.uk



# ARCHIF DDIGIDOL NEWYDD: CYMRU1914.ORG

**Cydweithiodd Llyfrgell Genedlaethol Cymru gyda phartneriaid i gynnal rhaglen digideiddio torfol ar ffynonellau cynradd yn ymwneud â'r Rhyfel Byd Cyntaf mewn llyfrgelloedd, adrannau casgliadau arbennig ac archifdai Cymru. Mae'r archif ddigidol newydd a'r wefan ddwyieithog, cymru1914.org, yn dwyn ynghyd ddeunydd gwreiddiol a oedd gynt ar wasgar ledled Cymru ac yn aml yn anodd cael gafael arnynt. Mae'r casgliad yn dangos effaith y Rhyfel Byd Cyntaf ar fywyd, iaith a diwylliant Cymru.**

Mae'r archif ddigidol newydd hon yn cynnwys dros 200,000 o dudalennau o bapurau newydd, archifau, ffotograffau a llawysgrifau o archifau a chasgliadau arbennig Cymru. Fe'i lansiwyd ym mis Tachwedd 2013 a'i ddatblygu trwy bartneriaeth â Fforwm Llyfrgelloedd Addysg Uwch Cymru gyda chyllid gan Jisc, Llywodraeth Cymru a sefydliadau partner. Ychwanegodd y Llyfrgell Genedlaethol adnoddau i'r archif hon trwy gydol y cyfnod coffa, gan gynnwys papurau newydd ychwanegol; Cofnodion Tribiwnlys Rhyfel Mawr Sir Aberteifi (Apeliadau); llythyrau Saunders Lewis; archif papurau ymchwil Picellwyr Marchog Cymru; yn ogystal â llyfrau (gan gynnwys nofelau), cyfnodolion, dyddiaduron a llythyrau.

Rhwng Tachwedd 2014 a Medi 2019, roedd 280,862 o ddefnyddwyr unigryw wedi ymweld â'r wefan, neu 4,600 y mis ar gyfartaledd.

I weld yr archif ewch i: cymru1914.org


Ar y dde: Pedwar Milwr © Llyfrgell Genedlaethol Cymru



# AP CYMRU YN Y RHYFEL

**Rhoddodd yr Adran Addysg a Sgiliau gyllid ar gyfer datblygu ap addysgol am ddim i bobl ifanc, athrawon ac unrhyw un sydd â diddordeb yn y Rhyfel Byd Cyntaf a'i effaith ar Gymru.**

Gellir defnyddio'r ap i ddarganfod mwy am rôl dynion a menywod Cymru yn y Rhyfel Byd Cyntaf ac i gyfrannu at ein dealltwriaeth o brofiad Cymru. Mae'r gyfres o adnoddau yn cynnwys cyhoeddiadau digidol, llinell amser hanesyddol, teithiau rhithwir 360 gradd o ffosydd a llong ryfel, ac offeryn i bobl creu cofiannau i gyfrannu bywgraffiadau'r rhai a fu farw yn y Rhyfel. Rhagor o wybodaeth: walesatwar.org/cy/site/home




Isod: Tudalen o wefan Cymru yn y Rhyfel © Llyfrgell Genedlaethol Cymru
Ar y dde: Logo Cymru yn y Rhyfel © Llyfrgell Genedlaethol Cymru



Noddwyr y prosiect

Partneriaid y prosiect

# Cymuno

(wedi Cadoediad 1918)

*Pan ddaw'r dynion yn ôl at Soar a Salem,*
*nid yr un dynion mohonynt.*

*Er llonyddu'n gefnsyth ar y seti sglein,*
*mae'r sŵn yn eu pennau o hyd;*

*oglau'r polish yn edliw'r drewdod fu yn eu ffroenau gyhyd;*
*drychiolaethau wedi'u serio ar eu llygaid;*

*a'r "ddwy law sy'n erfyn" heddiw*
*yw'r ddwy law fu'n llwytho cyfaill ddoe,*
*ar flaen rhaw, i waelod sach.*

*Mae sawl lle gwag yma heno*
*ac mae'r dynion yn rhannu seti*

*hefo'r rhai na fu draw - heb fedru 'rhannu' chwaith...*
*Maen nhw fel bara a gwin...*

*A'r merched a ddaw i Soar a Salem?*
*Nid yr un merched mohonyn nhwthau mwy,*

*wedi mynd o iau'r cartref*
*at her y lle gwaith;*

*wedi byw'r ansicrwydd creulon o hir,*
*cyn i lythyr estron dynnu tafod drwy'r drws*
*a disgyn yn gelain i'r mat.*

*Mae sawl aelwyd wag yn eu canlyn nhw 'ma heno;*
*sawl rhuban o ohebiaeth wedi'i chlymu'n dwt mewn drôr;*
*sawl sgwrs ffug-siriol wedi darfod ar ei hanner...*

*Ond daw pobun a'i greithiau gwahanol o'r drin*
*i geisio rhyw ystyr, drwy'r bara a'r gwin...*

Ifor ap Glyn, Bardd Cenedlaethol Cymru.
Comisiynwyd gan BBC Cymru Fyw



# Y CYFNOD WEDI'R RHYFEL A MYFYRDODAU I GLOI


Wrth i ddigwyddiadau coffáu canmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf ddod i ben, mae'n anochel ein bod yn dechrau ystyried effaith ac etifeddiaeth hirdymor y Rhyfel hwnnw. Wrth bwyso a mesur yr effaith honno, mae'r hanesydd David Reynolds yn ei disgrifio fel 'Y Cysgod Hir' tra mai teitl llyfr diweddar Robert Gerwarth yw *Why the First World War failed to end*. Er bod Cadoediad 11 Tachwedd 1918 wedi dod â'r gwrthdaro i ben yn y rhannau hynny o'r byd lle roedd Pwerau'r Cynghreiriaid wedi brwydro â'r Almaen a'i chynghreiriaid hithau, eto parhau wnaeth rhyfeloedd ar draws llawer o'r byd, yn enwedig yn Nwyrain Ewrop, y Dwyrain Canol a Rwsia, a miliynau yn dal wedi marw oherwydd brwydrau, dadleoli, hil-laddiad a thrwy lwgu. Ugain mlynedd yn ddiweddarach, dechreuodd rhyfel byd arall a hynny'n codi'r cwestiwn pam nad y Rhyfel Byd Cyntaf oedd 'y rhyfel i ddod â phob rhyfel i ben' fel y gobeithiai cynifer o bobl, yn enwedig y rhai oedd wedi dioddef a cholli anwyliaid?

Mae'r ateb i'w gael, yn rhannol, yn effaith y Rhyfel ar hen strwythurau Ewrop gan fod y rheiny, er gwell neu er gwaeth a heb lawer o eithriadau, wedi sicrhau sefydlogrwydd cyffredinol yn ystod y ganrif flaenorol. Roedd pedair Ymerodraeth fawr, Hohenzollern, Habsburg, Romanov ac Ottoman, oll wedi cwympo gan arwain at frwydrau ffyrnig wrth i genhedloedd a grwpiau lleiafrifol o fewn y tiriogaethau hyn geisio hunanreolaeth, wedi'u hannog gan arweinwyr byd megis Arlywydd yr UDA Woodrow Wilson. Wrth i hyn ddigwydd a heb awdurdod llywodraethol, codai hen anghydfodau, Cristnogion yn erbyn Mwslimiaid, Tyrciaid yn erbyn Groegiaid, cenedl-ddynion yn erbyn yr Iddewon. Mewn mannau eraill, ceisiai mudiadau radical efelychu esiampl y Chwyldro Bolsieficaidd yn Rwsia yn 1917 gan geisio gwyrdroi awdurdod a systemau sefydledig a hynny, yn ei dro, wedi arwain at drais gwrth-gomiwnyddol. Daeth gwladwriaethau newydd i'r amlwg ac adfywiwyd rhai eraill ond er bod y strwythurau newydd yn aml yn ymddangosiadol ddemocrataidd, roedd ynddynt garfanau ethnig cystadleuol a gwelwyd eu bregusrwydd cynhenid yn glir pan gododd heriau awdurdodaidd yn y 1930au yn sgil adfywiad yr Almaen ac ymddangosiad ymerodraeth newydd yn Rwsia, yr Undeb Sofietaidd.

Yn y pen draw, ni lwyddodd y trafodaethau yn Versailles yn ystod hanner cyntaf 1919 i greu sylfaen ar gyfer heddwch parhaus oherwydd nid oedd telerau'r cytundeb a lofnodwyd ar Fehefin 28 wedi bodloni neb yn y tymor hir, yn enwedig yr Almaen wrth iddi deimlo sarhad o gael ei heithrio o'r trafodaethau ac wrth i'r myth ddatblygu na chawsant ei trechu mewn gwirionedd ond yn hytrach eu bradychu o'r tu mewn. Roedd y drwgdeimlad yn tanseilio'r ddemocratiaeth newydd yn yr Almaen ac wedi gosod y seiliau ar gyfer twf y Natsïaid. Yn y cyfamser, roedd anallu Senedd yr UDA i gadarnhau Cytundeb Versailles, er gwaethaf rôl amlwg eu Harlywydd eu hunain ynddi, nac ymuno â Chynghrair y Cenhedloedd newydd, yn golygu bod methiant y 'drefn fyd-eang' newydd yn anochel.

Ym Mhrydain, ac yn enwedig yng Nghymru, achosodd y Rhyfel anrhefn economaidd sylweddol a arweiniodd at ganlyniadau ymhell ar ôl i'r Rhyfel ddod i ben. Cafwyd cynnydd mawr mewn cyflogau a safonau byw yn ystod y Rhyfel, ond daeth hyn i ben yn fuan wedyn gan mai stori'r 1920au oedd un o ddirywiad economaidd, gostyngiadau mewn cyflogau ac aflonyddwch diwydiannol difrifol. Ar yr un pryd, yn sgil y penderfyniad ym Mhrydain i ariannu'r Rhyfel trwy fenthyca yn hytrach na threthu, effeithiwyd yn fawr ar gydbwysedd grym economaidd gan fod y grym hwnnw bellach wedi symud i fanciwr Ewrop yn ystod y Rhyfel, yr Unol Daleithiau. Diflannodd cyffro hapfuddsoddi'r UDA yng nghwymp dramatig Wall Street yn 1929 a hynny wedi atseinio ar draws y byd, yn Ewrop yn benodol, gan arwain at y Dirwasgiad Mawr.

Ar y chwith: Salle de la Reformation, agoriad swyddogol Cynghrair y Cenhedloedd yn Geneve. Parth cyhoeddus. Ffynhonnell https://commons.wikimedia.org/wiki/File:No-nb_bldsa_5c006.jpg



Uchod: Versailles 1919 © Anhysbys ond gwyddys nad oes hawlfraint ar y llun

Yr oedd, wrth gwrs, rai canlyniadau buddiol i'r Rhyfel, yn enwedig o ran cyflymu datblygiadau technolegol mewn trafnidiaeth a chyfathrebu a datblygiadau mawr mewn ymarfer meddygol. Er profedigaeth cynifer o deuluoedd, troswyd yr ymdeimlad o ryddhad ar ddiwedd y rhyfel yn oes fywiog o gerddoriaeth, ffasiwn a diwylliant. Er na chafodd yr addewid 'cartrefi addas i arwyr' ei chyflawni'n llawn, eto gwnaed gwelliannau sylweddol mewn polisïau a rheolaeth tai gan roi cychwyn ar oes aur adeiladu tai cyngor. Ac mewn gwleidyddiaeth, hefyd, gwelwyd trawsnewid – yn rhannol o ganlyniad i'r cynnydd enfawr yn nifer yr etholwyr wrth gynnwys llawer o fenywod – ac yn fuan cafodd hen oruchafiaeth y Rhyddfrydwyr ei disodli gan Lafur, yn enwedig yng Nghymru.

Eto i gyd, roedd newid, ar lawer ystyr, yn parhau i fod yn araf a byddai'n rhaid cael rhyfel byd-eang echrydus arall, gyda hyd yn oed mwy fyth o ddioddef, i gyflymu'r broses o adfywio cymdeithasol ac economaidd a chychwyn ar lwybr at sefydlogrwydd a ffyniant cymharol. Yn sgil saith mlynedd o goffáu canmlwyddiannau, mae mor hanfodol ag erioed felly nad ydym byth yn anghofio arwyddocâd ac effaith y Rhyfel Byd Cyntaf a'n bod yn parhau i drafod pa wersi y gellir eu dysgu ohono.

Syr Deian Hopkin




Uchod: Digwyddiad olaf *Cymru'n Cofio* Wales Remembers 1914-1918 a gynhaliwyd yn y Senedd ym mis Mawrth 2020 © Hawlfraint y Goron. Chwith i dde: Yr Athro Syr Deian Hopkin, Linda Tomos, Jonathan Dawes, Rhian Shillabeer, Mark Drakeford AS, Elin Jones, Llywydd.

Ar 9 Mawrth 2020, cynhaliodd Prif Weinidog Cymru Mark Drakeford AS dderbyniad yn y Senedd i nodi cwblhau Rhaglen *Cymru'n Cofio* Wales Remembers 1914-1918.

Mynychodd Gweinidogion Cymru ac Aelodau'r Cynulliad y digwyddiad, ynghyd â gwesteion gwahoddedig a oedd yn rhan o'r Rhaglen. Rhoddwyd anerchiadau gan y Prif Weinidog, y Llywydd, y Prif Weinidog blaenorol, Carwyn Jones AS a Chynghorydd Arbenigol Llywodraeth Cymru ar Ganmlwyddiant y Rhyfel Byd Cyntaf, yr Athro Syr Deian Hopkin, a oedd wedi adfyfyrio ar y coffâd ac wedi diolch i'r rhai a gyfrannodd.

Dewiswyd dau aelod o Senedd Ieuenctid Cymru, Jonathan Dawes a Rhian Shillabeer i gymryd rhan a buont yn siarad am sut mae'r coffâd wedi helpu pobl ifanc i ddeall heddwch, cymod a choffadwriaeth yn well.

# DIOLCHIADAU

Dymuna Llywodraeth Cymru ddiolch i bawb sydd wedi cyfrannu at y cyhoeddiad hwn, gan sicrhau y gellid mynd ati i adrodd y stori sut yr oedd Cymru wedi coffáu.

Hoffem ddiolch i'r holl bartneriaid, unigolion, mudiadau a sefydliadau sydd wedi bod yn rhan o *Cymru'n Cofio* Wales Remembers 1914-1918 am eu hymrwymiad a'u cefnogaeth wrth sicrhau coffa parchus a chynhwysol.

Yn olaf, ein diolch arbennig i bawb sydd wedi mynychu, sydd wedi bod yn rhan, neu wedi cael profiad o fframwaith cyfoethog ac amrywiol digwyddiadau coffa'r chwe blynedd diwethaf.

Isod: Disgyblion yn Ysgol Uwchradd Fitzalan yn dal pabïau uwch eu pennau, pabïau a wnaed ganddynt hwy eu hunain o bapur sidan © Ysgol Uwchradd Fitzalan

